# Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO | PARTNERSHIP AND REGENERATION SCRUTINY COMMITTEE |
| DYDD MAWRTH, 13 TACHWEDD 2018 am 2.00 o'r gloch yp | TUESDAY, 13 NOVEMBER, 2018 at 2.00 p.m. |
| YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI | COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI |
| Swyddog Pwyllgor — Mrs. Mairwen Hughes 01248 752516 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**Y Grwp Annibynnol / The Independent Group**

Gwilym O. Jones **(Cadeirydd/Chair),** Dafydd Roberts

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

T Ll Hughes MBE, Vaughan Hughes, Alun Roberts, Margaret M. Roberts, Nicola Roberts

**Annibynnwyr Môn/Anglesey Independents**

Kenneth P Hughes, R.Ll.Jones **(Is-Gadeirydd/Vice-Chair)**

**Plaid Lafur Cymru/Wales Labour Party**

Glyn Haynes

**Aelodau Ychwanegol/Additional Members (gyda hawl pleidleisio ar faterion addysg/with voting rights in respect of educational matters)**

**Ms. Anest Gray Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales) and Mr. Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig/The Roman Catholic Church)**

**Aelod Cyfetholedig/Co-opted Member (Dim Hawl Pleidleisio/No Voting Rights)**
Mr. Dafydd Gruffydd ( Rheolwr Gyfarwyddwr/Managing Director - Menter Môn)

# R H A G L E N

1 **YMDDIHEURIADAU**

2 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

3 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 12)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfodydd a ganlyn:-

- Cofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 24 Medi, 2018;
- Cofnodion y cyfarfod arbennig a gafwyd ar 15 Hydref, 2018.

4 **ENWEBU AELOD O'R PWYLLGOR I'R PANEL CYLLID SGRIWTINI** (Tudalennau 13 - 18)

Cyflwyno adroddiad gan y Swyddog Sgriwtini.

5 **STRATEGAETH RHANBARTHOL DIGARTREFEDD** (Tudalennau 19 - 64)

Cyflwyno adroddiad gan y Rheolwr Strategaeth Dai, Comisiynu a Pholisi.

6 **PARTNERIAETH ANGENION ADDYSGOL YCHWANEGOL - GWYNEDD A MÔN** (Tudalennau 65 - 154)

Cyflwyno adroddiad gan Uwch Reolwr Anghenion Dysgu Ychwanegol.

7 **STRWYTHUR LLYWODRAETHIANT A THREFNIADAU CYFLAWNI BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS GWYNEDD A MÔN** (Tudalennau 155 - 162)

Cyflwyno adroddiad gan Reolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn.

8 **RHAGLEN WAITH** (Tudalennau 163 - 166)

Cyflwyno adroddiad gan y Swyddog Sgriwtini.

# PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Medi 2018

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Gwilym O Jones (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Robert Llewelyn Jones (Is-gadeirydd)<br><br>Cynghorwyr John Griffith, Glyn Haynes, K P Hughes, Vaughan Hughes, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Margaret Murley Roberts. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes),<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion (ar gyfer Eitem 4),<br>Swyddog Sgriwtini (GR),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Mr Keith Roberts – Yr Eglwys Gatholig Rufeinig,<br>Mrs Anest Fraser – Yr Eglwys yng Nghymru<br><br>Arweinydd y Cyngor – Cynghorydd Llinos M Huws.<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaeth, Cymuned a Gwella Gwasanaethau). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Prif Weithredwr,<br>Rheolwr Darpariaeth Diogelwch Cymunedol (Gwynedd a Môn) (ar gyfer Eitem 5).<br><br>Rheolwr Sgriwtini (AD). |

---

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y ffaith y bydd yr Is-gadeirydd, y Cynghorydd Robert Ll Jones a'i wraig Mrs Gillian Jones yn dathlu eu Priodas Aur ar 30 Medi, 2018. Llongyfarchodd yr Aelodau a Swyddogion y Cynghorydd Jones a Mrs Jones.

**1 YMDDIHEURIADAU**

Fel y nodwyd uchod.

**2 DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Dim

**3 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfodydd fel a ganlyn:-

- Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Mehefin, 2018;
- Cofnodion y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar 9 Gorffennaf, 2018.

## 4 ADRODDIAD BLYNYDDOL 2017/18 - BWRDD PARTNERIAETHAU RHANBARTHOL GOGLEDD CYMRU

Cyflwynwyd – Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaethau Rhanbarthol Gogledd Cymru 2017/18.

Adroddodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes) ei bod yn ofyniad dan Ran 9 Deddf Llesiant a Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014 bod pob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn paratoi, yn cyhoeddi ac yn cyflwyno ei adroddiad blynyddol i Lywodraeth Cymru (roedd copi o’r adroddiad wedi’i atodi fel Atodiad 1).

Nododd mai diben Rhan 9 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yw gwella canlyniadau a llesiant pobl yn ogystal â gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran darpariaeth gwasanaethau. Amcanion allweddol cydweithredu, partneriaeth ac integreiddio yw:

- Gwella gofal a chymorth, gan sicrhau bod gan bobl fwy o lais a rheolaeth
- Gwella canlyniadau ac iechyd a lles.
- Darparu gofal a chymorth cydlynol sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Gwneud defnydd mwy effeithiol o adnoddau, sgiliau ac arbenigedd.

Mae’r Bwrdd yn parhau i gyfarfod yn fisol ar hyn o bryd ac ynghyd â chyfarfodydd busnes mae gweithdai a sesiynau datblygu wedi eu cynnal. Mae cynrychiolwyr o’r holl sefydliadau angenrheidiol a amlinellir yn y Ddeddf yn gwasanaethu ar y Bwrdd ynghyd ag aelodau cyfetholedig o’r Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol, Heddlu Gogledd Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Mae’r Bwrdd hefyd wedi cytuno i gynyddu nifer y cynrychiolwyr unigol a gofalwyr i ddau ac maent ar hyn o bryd yn gweithio drwy’r broses mynegiannau o ddiddordeb. Roedd aelodaeth y Pwyllgor wedi’i amlygu yn yr adroddiad.

Nododd y Prif Weithredwr Cynorthwyol hefyd bod Llywodraeth Cymru wedi ymateb i’r Adolygiad Seneddol o ofal ac iechyd cymdeithasol ac yn dilyn hynny fe gyhoeddwyd dogfen o’r enw ‘Cymru Iachach’. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn cynnig grantiau sylweddol tuag at y Gwasanaeth Iechyd, Awdurdodau Lleol a Sefydliadau Trydydd Sector er mwyn annog cydweithio rhwng y sectorau.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion bod meysydd blaenoriaeth wedi eu nodi o fewn yr adroddiad o ran Oedolion Hŷn ag anghenion cymhleth, Anableddau Dysgu, Anghenion Acíwt a Gwasanaethau Integredig ar gyfer Anghenion Teuluoedd a Gofalwyr.

Mae gan y Bwrdd Rhanbarthol drosolwg o’r Gronfa Gofal Integredig ac mae hefyd yn gyfrifol am symud tuag at drefniadau cyllidebau ar y cyd o fewn y gwasanaethau hyn.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad a codwyd y materion canlynol:-

- Cyfeiriwyd at lwyddiant y gwaith partneriaeth gydag Ysbyty Alltwen yn Nhremadog a holwyd os oedd enghraifft debyg o waith partneriaeth yn bodoli ar Ynys Môn. Ymatebodd Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion drwy ddweud fod y model Alltwen yn un priodol ar gyfer ardal arbennig. Mae gan y Cyngor hwn brosiectau cydweithio gyda'n partneriaid yn y gwasanaeth iechyd sy'n cynnwys allanoli gwasanaethau Gofal Cartref a datblygiad y cyfleuster Dementia yn Garreglwyd, Caergybi.
- Gofynnwyd am gadarnhad o ran sut mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn cydweithio. Ymatebodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes) mai rôl Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yw mynd i'r afael ag anghenion cymhleth pobl mewn perthynas â gofal a materion iechyd. Mae rôl y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn ehangach o ran trosolwg ac yn canolbwyntio ar lesiant cymunedau lleol yn gyffredinol. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi ymchwilio i sut y gellir delio â gwasanaethau ar lefel leol ac mae nifer o is-grwpiau wedi eu sefydlu er mwyn trafod gwasanaethau'n cydweithio er lles pobl leol. Nododd bod Grŵp Gofal Iechyd a Chymdeithasol Integredig Gorllewin Cymru wedi'i sefydlu rhwng Gwynedd ac Ynys Môn er mwyn gwneud yn siŵr bod anghenion gwasanaeth pobl leol yn cael eu cyflawni yn effeithiol ar draws y ddwy sir.
- Cyfeiriodd Aelod at waith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru dros y ddwy flynedd ddiwethaf ac mae rhai pryderon wedi cael eu codi o fewn yr adroddiad. Ymatebodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes) bod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn Fwrdd eithaf newydd a bod gan y Bwrdd gylch gwaith eithaf penodol o fewn y ddeddfwriaeth i ddod ag iechyd a gofal yn agosach at ei gilydd. Mae ardal Gogledd Cymru wedi cydweithio'n dda yn hanesyddol, fel y mae is-ardal Môn a Gwynedd. Nododd ei bod yn her dod â'r holl sefydliadau at ei gilydd a nododd y gall fod yn anodd i'r trydydd sector a phobl sy'n gofalu am unigolion ddeall a chyfrannu at y trafodaethau sydd eu hangen dan y Ddeddf. Ystyriodd y Pwyllgor y byddai enghreifftiau o arfer dda o ddarpariaeth gofal iechyd o fantais i aelodau er mwyn ystyried effeithlonrwydd y Bwrdd yn y dyfodol.
- Cyfeiriwyd at y ffaith, tra'n derbyn bod yn rhaid i wasanaethau iechyd gydymffurfio â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014, codwyd cwestiynau am y budd ymarferol a ddaw i drigolion yr Ynys o ganlyniad i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ac i wneud siŵr nad yw'n troi yn siop siarad arall. Ymatebodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion fod y Bwrdd Rhanbarthol yn rhoi lefel o lywodraethiant ac yn ceisio sicrhau bod darpariaeth iechyd cyfartal ar gael i bobl Gogledd Cymru.
- Cyfeiriodd yr Is-gadeirydd at y problemau a allai godi o ganlyniad i Brexit ac mae angen i'r Bwrdd fod yn ymwybodol o hyn. Ymatebodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol gan ddweud fod Llywodraeth Cymru yn edrych ar effeithiau Brexit ar recriwtio staff yn enwedig o fewn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi'r gwaith a'r cynnydd a wnaed yn 2017-18 gan Fwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gogledd Cymru**

- **Bod adroddiad diweddaru yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor hwn yn y flwyddyn newydd yn amlinellu enghreifftiau o arferion cydweithio perthnasol i Ynys Môn o fewn Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru.**

**GWEITHRED: Fel y nodwyd uchod.**

**5 PARTNERIAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL**

Cyflwynwyd – yr Adroddiad Blynyddol ar y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol gan y Rheolwr Cyflawni Diogelwch Cymunedol ar gyfer Gwynedd a Môn

Adroddodd y Rheolwr Cyflawni Diogelwch Cymunedol bod gofyn i'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol adrodd yn ffurfiol i'r pwyllgor hwn bob blwyddyn. Mae hyn yn sicrhau bod y Bartneriaeth yn cyflawni ei hymrwymiadau yn unol ag adrannau 19 a 20, Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2006.

Mae dyletswydd statudol ar Awdurdodau Lleol, yn unol â Deddf Trosedd ac Anrhefn 1998, a'r diwygiadau dilynol i weithio mewn partneriaeth gyda'r Heddlu, y gwasanaeth Iechyd, y gwasanaeth Prawf a'r gwasanaeth Tân ac Achub i roi sylw i'r agenda diogelwch cymunedol yn lleol. Mae gan y Bartneriaeth ddyletswydd i ymdrin â –

- Trosedd ac Anhrefn
- Camddefnyddio Sylweddau
- Lleihau Aildroseddu
- Cyflwyno asesiad strategol i adnabod blaenoriaethau (gwaith sydd bellach yn cael ei wneud yn rhanbarthol)
- Rhoi cynlluniau ar waith i ymdrin â'r blaenoriaethau hyn (mae cynllun bellach yn bodoli ar sail ranbarthol a lleol)

Nodwyd fod y bartneriaeth yn gweithio'n unol â chynllun blynyddol, sy'n seiliedig ar gynllun rhanbarthol tair blynedd. Roedd adroddiad perfformiad diwedd blwyddyn 2017/18 a chynllun 2018/19 wedi eu hatodi gydag adroddiadau'r Pwyllgor hwn. Mae saith blaenoriaeth yn denu sylw'r Bartneriaeth. Dyma'r blaenoriaethau ar gyfer 2017/18 a 2018/19 –

- Lleihau troseddu sy'n seiliedig ar ddioddefwyr (troseddau meddiangar yn unig)
- Lleihau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
- Cefnogi Pobl fregus i'w hatal rhag bod yn ddioddefwyr trosedd
- Cynyddu hyder i adrodd am ddigwyddiadau o gam-drin domestig
- Cynyddu hyder i adrodd am gam-drin rhywiol
- Mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau yn yr ardal
- Lleihau Aildroseddu

Roedd y prif negeseuon  a oedd yn codi o weithgareddau'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ar gyfer 2017/18 wedi eu cynnwys ar dudalen 3 a 4 o'r adroddiad.

Nododd y Rheolwr Cyflawni Diogelwch Cymunedol y cynyddodd troseddu sy'n seiliedig ar ddioddefwyr ar Ynys Môn 24% yn 2017/18. Ar ôl dadansoddi hyn gwelir fod tystiolaeth mai gwelliant o ran effeithiolrwydd y modd yr adroddir am droseddau yn hytrach na chynnydd mewn troseddu sydd yma; mae'r newidiadau hyn wedi cael effaith arbennig ar nifer yr achosion o Drais a Throseddau Rhywiol a gofnodwyd. Profodd Ynys Môn ostyngiad o 10% mewn Troseddu Meddiangar, gan gynnwys byrgleriaeth preswyl. Mae'r Ymddygiad Gwrthgymdeithasol gaiff ei adrodd i Heddlu Gogledd Cymru yn arbennig o dymhorol gyda nifer sylweddol uwch o ddigwyddiadau yn cael eu hadrodd yn ystod misoedd yr haf o'i gymharu â'r gaeaf. Mae Troseddau Casineb ar Ynys Môn wedi cynyddu'n sylweddol yn y misoedd diwethaf a throseddau a achosir gan hiliaeth yw'r math mwyaf cyffredin, er bod y niferoedd yn fychan iawn. Parhaodd lefelau Trais Rhywiol Risg Uchel a gofnodwyd i fod yn gymharol sefydlog, er bod cynnydd weithiau y gellir ei briodoli i adrodd hanesyddol.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad a codwyd y materion canlynol:-

- Gofynnwyd am gadarnhad o ran problemau yn ymwneud â chyffuriau ac a oes problemau gyda gangiau yn cario cyffuriau i'r Ynys. Ymatebodd y Rheolwr Cyflawni Diogelwch Cymunedol fod yr heddlu yn cydweithio'n agos â phartneriaethau o fewn y 'Grŵp Troseddau Trefnedig' yn Ynys Môn a Gwynedd er mwyn rhannu gwybodaeth a mynd i'r afael â throseddau sy'n gysylltiedig â chyffuriau. Nododd ymhellach y gall trais hefyd fod yn broblem o ran troseddau cysylltiedig â chyffuriau a bod y troseddau hyn ar gynnydd yn lleol ac yn genedlaethol.
- Cyfeiriwyd at y ffaith bod nifer y swyddogion heddlu wedi gostwng dros y blynyddoedd. Holwyd a yw'n broblem o ran diffyg swyddogion heddlu yn cerdded y strydoedd ac nad ydynt ar gael i siarad â phobl leol a chael gwybodaeth am faterion posibl yn ymwneud â throseddau. Ymatebodd y Rheolwr Cyflawni Diogelwch Cymunedol nad oedd modd dweud os oedd nifer y swyddogion heddlu sy'n patrolio'r strydoedd o reidrwydd wedi effeithio ar niferoedd y troseddau; nododd fod yr Heddlu wedi datblygu nifer o unedau arbenigol ynghyd â thimau lleol. Awgrymodd Aelodau y dylid anfon llythyr gan y Pwyllgor hwn ar y Swyddfa Gartref yn mynegi pryder am y gostyngiad yn niferoedd y swyddogion heddlu ac y dylid ystyried cynyddu cyllid yr heddlu er mwyn eu galluogi i recriwtio swyddogion heddlu ychwanegol;
- Holwyd am y cynnydd mewn troseddau casineb yn lleol. Ymatebodd y Rheolwr Cyflawni Diogelwch Cymunedol, o ganlyniad i'r cynnydd mewn troseddau casineb bod adolygiad wedi'i ymgymryd ag ef a ddangosodd bod materion yn ymwneud â dadleuon rhwng yr heddlu a 'galw enwau' a gododd o'r dadleuon hynny. Nododd nad oedd unrhyw batrwm penodol wedi codi gyda materion troseddau casineb ym Môn a Gwynedd ac yn gyffredinol bod niferoedd yn isel.
- Cyfeiriwyd at gwynion diweddar am oedi/dim ymateb wrth geisio ffonio'r rhif di-frys 101. Ymatebodd y Rheolwr Cyflawni Diogelwch Cymunedol bod yr Heddlu yn ailstrwythuro gweithdrefnau'r rhif di-frys gan fod pryderon wedi eu codi am yr amser mae'n ei gymryd i ateb galwadau. Nododd ymhellach fod modd ffonio Crimestoppers er mwyn eu hysbysu am faterion trosedd cymunedol; rhaid i'r Heddlu ymateb i ymholiadau o'r fath drwy Crimestoppers.

- Gofynnwyd am gadarnhad a oedd troseddau seiber yn fater i'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol. Ymatebodd y Rheolwr Darparu Diogelwch Cymunedol bod angen ymchwilio yn arbenigol i droseddau seiber a bod yr Heddlu wedi buddsoddi yn hynny. Nododd fod gan y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol gyllideb gyfyngedig a bod yn rhaid blaenoriaethu;
- Cyfeiriwyd at bwysigrwydd addysg plant o fewn ysgolion lleol mewn perthynas â materion trosedd a chyffuriau a'r canlyniadau a oedd yn codi o faterion o'r fath. Ymatebodd y Rheolwr Cyflawni Diogelwch Cymunedol fod Swyddogion Cyswllt Ysgolion yn mynychu ysgolion lleol ond mae'n debyg y bydd y gwasanaeth hwn yn dod i ben yn y dyfodol agos. Nododd fod Llywodraeth Cymru yn sefydlu 'Cwricwlwm Ysgolion' a fydd yn cynnwys materion yn ymwneud â throsedd yn cael eu haddysgu drwy'r holl bynciau yn yr ysgol.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi cynnwys yr adroddiad a'r dogfennau atodol, a chefnogi'r blaenoriaethau a chyfeiriad y gwaith i'r dyfodol.**
- **Anfon llythyr ar ran y Pwyllgor at y Swyddfa Gartref yn mynegi pryder am y gostyngiad yn nifer y Swyddogion Heddlu a'r angen i gynyddu cyllidebau'r Heddlu er mwyn eu galluogi i recriwtio mwy o Swyddogion Heddlu.**

**GWEITHRED: Fel y nodwyd uchod.**

## 6 RHAGLEN WAITH

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Swyddog Sgriwtini ar Raglen Waith y Pwyllgor hyd at fis Gorffennaf 2019.

**PENDERFYNWYD nodi'r Rhaglen Waith hyd at fis Gorffennaf 2019.**

**CYNGHORYDD GWILYM O JONES**
**CADEIRYDD**

**PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO**

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Hydref 2018**

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Gwilym O Jones (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Robert Llewelyn Jones (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Glyn Haynes, T Ll Hughes MBE, Vaughan Hughes, Alun Roberts, Dafydd Roberts a Margaret M Roberts. |
| **YN BRESENNOL:** | Prif Weithredwr,<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Cymunedau a Gwella Gwasanaethau) (ar gyfer eitem 3),<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethu a Thrawsnewid Prosesau Busnes) (ar gyfer eitem 4),<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd,<br>Swyddog Sgriwtini (GR),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Kenneth P Hughes, Nicola Roberts.<br><br>Arweinydd y Cyngor - Y Cynghorydd Llinos M Huws.<br><br>Mr Keith Roberts – Yr Eglwys Gatholig Rufeinig,<br>Mrs Anest Fraser – Yr Eglwys yng Nghymru.<br><br>Y Cynghorwyr Eric W Jones, Dylan Rees (gwahoddwyd mewn perthynas ag Eitem 3 fel cynrychiolwyr y Cyngor ar Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Robin Williams - Aelod Portffolio - Cyllid.<br><br>Y Cynghorydd Richard Griffiths (gwahoddwyd mewn perthynas ag Eitem 3 fel cynrychiolydd y Cyngor ar Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru).<br><br>Rheolwr Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn (GJ) (ar gyfer eitem 3),<br>Rheolwr - Gwasanaethau Cynllunio Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru (NC) (ar gyfer eitem 4),<br>Swyddog Cynllunio Argyfwng (GH) (ar gyfer eitem 4). |

---

**1 YMDDIHEURIADAU**

Fel y nodwyd uchod.

**2 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

## 3 GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU - GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH

Croesawodd y Cadeirydd Mr Gwyn Jones, Rheolwr Diogelwch Cymunedol (Gwynedd a Môn) - Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru i'r cyfarfod.

Rhoddodd Mr Gwyn Jones gyflwyniad i'r Pwyllgor ar swyddogaethau Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru mewn perthynas â diogelwch tân, ymladd tân, mynychu damweiniau ac argyfyngau ar y ffyrdd (achub / llifogydd dŵr) yn unol â Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004. Dywedodd fod yr ystadegau ddeng mlynedd yn ôl yn dangos bod gan Ogledd Cymru y gyfran uchaf fesul poblogaeth o farwolaethau o danau damweiniol mewn anheddau yng Nghymru a Lloegr ac ystyriwyd bod hynny yn annerbyniol. Sefydlwyd Grŵp Tasg y Prif Swyddog Tân i archwilio strategaeth a pholisïau'r Gwasanaeth ar gyfer atal marwolaethau damweiniol oherwydd tanau mewn cartrefi ynghyd ag adolygu proses ar gyfer rheoli perfformiad a phroffilio dioddefwyr a digwyddiadau. Nododd fod un person hyd yn hyn wedi marw eleni oherwydd tân damweiniol yn y cartref. Dywedodd Mr Jones fod ffactorau penodol yn cyfrannu at farwolaethau damweiniol oherwydd tanau; megis pobl yn byw ar eu pennau eu hunain, oed (roedd dros hanner yn 60+); bod ag anabledd, rhentio llety, rhyngweithio tân (ysmygu, coginio bwyd a’i adael yn ddi-oruchwyliaeth); alcohol a chyffuriau a bod heb larwm mwg sy'n gweithio. Dywedodd bod proffil y Gwasanaeth Tân ac Achub yn cael ei adolygu drwy weithio ar y cyd â gwasanaethau mewn awdurdodau lleol, yr heddlu ac asiantaethau lleol eraill i rannu gwybodaeth a nodi pobl fregus er mwyn osgoi’r tanau damweiniol posibl.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Rheolwr Diogelwch Cymunedol (Gwynedd ac Ynys Môn) am ei gyflwyniad. Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r wybodaeth a gyflwynwyd ac fe wnaed y pwyntiau canlynol: -

- Gofynnwyd am eglurhad ynghylch a yw'r Gwasanaeth Tân yn parhau i osod larymau tân yn rhad ac am ddim mewn anheddau preswyl. Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Diogelwch Cymunedol (Gwynedd a Môn) bod Llywodraeth Cymru yn derbyn grant sy'n galluogi'r Gwasanaeth Tân i brynu'r offer ond y Gwasanaeth Tân sy'n talu am osod y larymau tân mewn anheddau. Dywedodd ymhellach fod Swyddogion Tân yn gallu rhoi cyngor i drigolion pan maent yn ymweld â phobl yn eu cartrefi i drafod diogelwch tân ac atal tanau. Nododd y gall y Gwasanaeth Tân, drwy weithio mewn partneriaeth a rhannu gwybodaeth gydag awdurdodau lleol ac asiantaethau statudol eraill, dargedu'r bobl fwyaf bregus yn y cymunedau lleol i atal tanau posib yn y cartref;
- Gofynnwyd cwestiynau ynghylch a yw'r Gwasanaeth Tân yn parhau i fynychu digwyddiadau lleol a Sioeau Amaethyddol i hyrwyddo'r gwasanaeth a gynigir i breswylwyr o ran atal tân. Ymatebodd y Rheolwr Diogelwch Cymunedol (Gwynedd ac Ynys Môn) fod y Gwasanaeth Tân yn mynychu digwyddiadau o'r fath ond yn ymdrechu i rannu cyfleusterau gyda gwasanaethau brys eraill fel y gellir gwneud arbedion ariannol;
- Mynegwyd pryderon fod priffyrdd lleol wedi cael eu cau oherwydd llifogydd / damweiniau / cau pontydd yn ddiweddar ac effaith hynny o ran tagfeydd traffig a’r oedi y gall achosi i’r gwasanaethau brys. Dywedodd aelodau'r Pwyllgor nad yw cymunedau lleol yn cael gwybod am ffyrdd sydd ar gau ac o’r farn y dylid hysbysu

Cynghorau Tref / Cymunedau am unrhyw achosion o gau ffyrdd / digwyddiadau yn lleol. Ymatebodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaeth, Cymunedau a Gwella Gwasanaethau) bod yr Awdurdod Priffyrdd ynghyd ag UK Highways yn delio â gweithdrefnau o'r fath mewn perthynas â materion cau ffyrdd. Nododd y byddai'n trafod y mater a godwyd gydag Adran Briffyrdd yr Awdurdod hwn;

- Cyfeiriwyd at faterion yn ymwneud â thanau eithin, gyda'r mwyafrif o'r rhain yn cael eu cynnal fwriadol ac yn defnyddio adnoddau gwerthfawr y gwasanaethau brys. Ymatebodd y Rheolwr Diogelwch Cymunedol (Gwynedd a Môn) fod gan y Gwasanaeth Tân Dîm Lleihau Llosgi Bwriadol sy'n gweithio'n agos ag Awdurdod yr Heddlu ac mai prif nod y tîm hwnnw yw helpu i ddelio gyda'r broblem o gynnau tanau yn fwriadol er mwyn sicrhau nad oes risg i bobl, cymunedau, busnesau, yr amgylchedd a threftadaeth yr ardal. Mae atal tanau bwriadol trwy gydweithio'n agos ag awdurdodau lleol a chymunedau i ymyrryd yn gynnar pan fydd ymddygiad gwrthgymdeithasol yn dechrau yn hollbwysig. Nododd fod gan yr Awdurdod Tân ac Achub gerbyd addysgol i godi ymwybyddiaeth o faterion sy'n gysylltiedig â llosgi bwriadol ac atal tanau;
- Gofynnwyd am eglurhad ynghylch a oes problemau recriwtio yn y Gwasanaeth Tân ac Achub. Ymatebodd y Rheolwr Diogelwch Cymunedol (Gwynedd a Môn) mai'r her wrth recriwtio pobl fel diffoddwyr tân rhan-amser yw bod angen i berson fod o fewn pum munud i'r orsaf ac yn addas i ymgymryd â'r hyn sy'n ofynnol o ddiffoddwyr tân.
- Holwyd a oedd cydweithio rhwng y Gwasanaeth Tân a Gwasanaeth Ymladdwyr Tân Llu Awyr Brenhinol Y Fali. Ymatebodd y Rheolwr Diogelwch Cymunedol (Gwynedd ac Ynys Môn) fod y Gwasanaeth Tân yn defnyddio'r cyfleusterau yn LlAB Y Fali ar gyfer profion LGV a bod swyddogion ymladd tân LlAB Y Fali hefyd yn derbyn hyfforddiant ymladd tân; mae rhai o swyddogion ymladd tân LlAB Y Fali hefyd yn ddiffoddwyr tân rhan-amser gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

Dywedodd y Cynghorydd Richard Griffith (a wahoddwyd i'r cyfarfod mewn perthynas ag Eitem 3 fel cynrychiolydd y Cyngor ar Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru) y gwnaed awgrymiad yn ystod y cyfnod ymgynghori diwethaf ar gyllideb y Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, y dylid gwneud i ffwrdd ag un o'r ddwy injan dân yn Wrecsam ond oherwydd barn gyhoeddus gref yn ardal Wrecsam, wnaeth hynny ddim digwydd. Dywedodd fod y cynnydd cynyddol yn y praesept ar awdurdodau lleol yn peri pryder a bod trigolion yn gorfod wynebu cynnydd yn eu biliau Treth Gyngor.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Rheolwr Diogelwch Cymunedol (Gwynedd a Môn) am fynychu'r cyfarfod.

**PENDERFYNWYD gofyn i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru fynychu'r cyfarfod bob blwyddyn.**

**GWEITHREDU: Fel y nodwyd uchod.**

## 4 GWASANAETH CYNLLUNIO AT ARGYFWNG RHANBARTHOL - CYNGHORAU GOGLEDD CYMRU

Croesawodd y Cadeirydd Mr Neil Culff, Rheolwr Rhanbarthol, Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru a Mr Gwyn Hughes, Swyddog Cynllunio Argyfwng i'r cyfarfod.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd mai pwrpas yr adroddiad yw darparu diweddariad ynglŷn â blaenoriaethau rhanbarthol a Rhaglen Waith y Cyngor.

Rhoes Mr Neil Culff, y Rheolwr Rhanbarthol, gyflwyniad ar Wasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru (NWC-REPS) i'r Pwyllgor yn nodi gofynion deddfwriaethol, strwythur y gwasanaethau rhanbarthol a'r trefniadau llywodraethu. Dywedodd fod gan awdurdodau lleol ddyletswyddau ar gyfer cynllunio argyfwng ac ymateb brys dan Ddeddf Argyfyngau Sifil 2004, Rheoliadau Ymbelydredd (Parodrwydd ar gyfer Argyfwng a Gwybodaeth Gyhoeddus) 2001, a Rheoliadau Diogelwch Piblinellau 1996. Mae'r Cyngor yn cwrdd â'i rwymedigaethau trwy gydweithio ag awdurdodau lleol eraill Gogledd Cymru trwy Wasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru, y mae Cyngor Sir y Fflint yn gyfrifol amdano. Nododd fod NWC-REPS yn adrodd i Fwrdd Gweithredol, ac arno Swyddog sy'n cynrychioli pob un o awdurdodau lleol Gogledd Cymru sy'n bartneriaid yn y gwasanaeth. Mae'r gwasanaeth hwn wedi bod yn ei le ers 2014 ac mae NWC-REPS yn darparu cyswllt sylfaenol rhwng y Cyngor a Fforwm Gwydnwch Lleol Gogledd Cymru ac mae cyfraniadau staff y gwasanaeth yn hollbwysig mewn grwpiau, digwyddiadau, prosesau a chynlluniau aml-asiantaethol. O fewn y Cyngor, rhennir cyfrifoldebau am gynllunio ac ymateb i argyfwng ar draws y gwasanaethau a chynrychiolwyr gwasanaeth enwebedig.

Adroddodd y Rheolwr Rhanbarthol ar ffrydiau gwaith yr ymgymerir â nhw gan y Gwasanaeth Cynllunio Argyfwng: -

- **Ffliw Pandemig -** gwneir gwaith ar draws y rhanbarth gyda’r Gwasanaeth Iechyd ac Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol awdurdodau lleol o ran y trefniadau mewn perthynas â pharatoi ar gyfer ffliw pandemig sydd wedi'i gategoreiddio fel 'uchel iawn' ar y Cofrestrau Risg Cenedlaethol a Chymunedol;
- **Adroddiad Kerslake -** cynhyrchwyd yr adroddiad yn dilyn adolygiad o Arena Manceinion y ym mis Mai 2017 ac mae'r NWC-REPS wedi llunio Dadansoddiad Bwlch ar yr argymhellion sydd â goblygiadau i bob un Cyngor. Bydd rhaglen Dysgu a Datblygu NWC-REPS yn cynnwys hyfforddiant i aelodau etholedig ar ddelio â digwyddiadau mawr;
- **Strategaeth Gwydnwch Cymunedol -** gweithredu Strategaeth Gwydnwch Cymunedol ar gyfer 2017-2020 ar gyfer delio ag argyfyngau lleol a sicrhau fod cymunedau’n fwy gwydn. Bydd y manylion yn cael eu hadrodd i'r Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned maes o law;
- **Rhannu data -** gweithio'n agos gyda gwasanaethau brys ac awdurdodau lleol i adnabod pobl sy'n agored i niwed os ceir digwyddiadau megis llifogydd pan fydd angen gwacáu ardaloedd;
- **Dysgu a Datblygu -** mae Swyddog dynodedig yn arwain ar hyfforddiant ac ymarfer o fewn y Tîm Gwasanaeth Brys. Mae’n gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol i nodi unigolion sydd â rôl mewn perthynas ag ymateb mewn argyfwng a sicrhau eu bod yn cael hyfforddiant effeithiol i ddelio gydag argyfyngau a nodi anghenion hyfforddiant.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd y bu'n bosib cynyddu gwydnwch a chefnogaeth arbenigol i awdurdodau lleol ar draws Gogledd Cymru trwy sefydlu trefniant rhanbarthol ar gyfer cynllunio argyfwng. Nododd fod y gwasanaeth argyfwng, fel swyddogaeth gwasanaeth, yn rhan o Fusnes y Cyngor a bod grŵp mewnol o Swyddogion o bob adran yn cwrdd bob chwarter i fynd i'r afael â materion Cynllunio Argyfwng ac yn rhannu’r wybodaeth gyda’r Uwch Grŵp Arweinyddiaeth / y Penaethiaid.

Cyfeiriodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd hefyd at agweddau o’r rhaglen waith bresennol gan gynnwys cynlluniau parhad busnes, a bod trefniadau'n cael eu cynllunio gyda Chyngor Sir y Fflint ym mis Ebrill 2019 i gynnal ymarfer ar y cyd i brofi cynlluniau ac i rannu arferion da. Cyfeiriwyd at agweddau eraill o'r gwaith a wneir sef: -

- **Cynllun ar gyfer Uwchgyfeirio Bygythiadau -** pa mor barod yw awdurdodau lleol ar gyfer ymateb i ofynion Diogelwch Cenedlaethol a rhoi sylw i weithredoedd dilyn-i-fyny;
- **Ymarferiad MônCefni -** ymarferiad a gynhaliwyd ym mis Medi 2017 gyda'r nod o roi cyfle i staff y Cyngor ymarfer sefydlu a rhedeg canolfan orffwys a rhoi prawf ar elfennau o ddogfen 'Canllawiau Canolfannau Gorffwys' y Cyngor. Ar hyn o bryd, mae'r Gwasanaeth Rhanbarthol wrthi’n paratoi canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol i annog gwirfoddolwyr i gynorthwyo mewn canolfannau gorffwys;
- **Damwain Marina Caergybi (Mawrth 2018) -** rhoddwyd cefnogaeth gan NWC-REPS i sefydlu grŵp tasg yng Nghaergybi i gydlynu gweithredoedd ar sail aml-asiantaethol.
- **Safle Wylfa -** mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi Cynllun Argyfwng Oddi ar y Safle. Cynhaliwyd 'ymarfer' ym 2016 i brofi’r trefniadau a rhagwelir y bydd angen trefnu 'ymarfer' arall ym mis Medi 2019. Bydd NWC-REPS yn rhoi mewnbwn i Is-Grŵp Adeiladu Wylfa Newydd sydd wedi'i sefydlu i gydlynu materion cynllunio brys yn ystod cyfnod adeiladu prosiect Wylfa Newydd.

Diolchodd y Cadeirydd i'r cynrychiolwyr o'r Gwasanaeth Cynllunio Brys am eu cyflwyniad. Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r wybodaeth a gyflwynwyd ac fe wnaed y pwyntiau canlynol: -

- Cyfeiriwyd at y ffaith bod cyfraniad ariannol yr awdurdod hwn tuag at NWC-REPS wedi gweld gostyngiad blynyddol o 2% ers ei sefydlu yn 2014. Codwyd cwestiynau ynghylch effaith hyn ar y gwasanaeth yn gyffredinol. Nododd y Rheolwr Rhanbarthol bod strwythurau staffio wedi'u hadolygu i leihau costau ac y gellid adennill rhai costau megis y rhai sy’n gysylltiedig â pharatoi rhai cynlluniau allweddol.
- Gofynnwyd am eglurhad a yw'r Gwasanaeth Cynllunio Argyfwng wedi paratoi ar gyfer y posibilrwydd na fydd modd taro bargen mewn perthynas â Brexit a thagfeydd traffig ym mhorthladd Caergybi. Atebodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd fod trefniadau wrth gefn ar waith i ddelio â materion rheoli traffig sy'n effeithio ar y pontydd ac ar y Porthladd. Nododd Rheolwr NWREPS hefyd fod y goblygiadau ar gyfer Porthladdoedd wrthi’n cael ei ystyried ar lefel genedlaethol.

**PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor yn derbyn adroddiad yn y dyfodol fel rhan o’i Raglen Waith ar gyfer 2019/20.**

**GWEITHREDU: Fel y nodwyd uchod.**

**5 RHAGLEN WAITH**

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Swyddog Sgriwtini ar Raglen Waith y Pwyllgor hyd at fis Mehefin 2019.

**PENDERFYNWYD nodi'r Rhaglen Waith hyd at fis Mehefin 2019.**

Daeth y cyfarfod i ben am 3.50 pm

**Y CYNGHORYDD GWILYM O JONES**
**CADEIRYDD**

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| **Dyddiad:** | 13 Tachwedd 2018 |
| **Pwnc:** | Enwebiad i'r Panel Sgriwtini Cyllid |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Enwebu un Aelod o'r Pwyllgor hwn |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Y Cynghorydd Gwilym O Jones |
| **Aelod(au) Portfolio:** | -- |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | -- |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Geraint Roberts (Swyddog Sgriwtini)<br>01248 752039<br>GeraintRoberts@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | Dim yn benodol i unrhyw ward |

**1 – Argymhelliad/Argymhellion**

1.1 Gofynnir i'r Pwyllgor enwebu un Aelod o'r Pwyllgor i gymryd lle'r Cynghorydd John Griffith ar y Panel Sgriwtini Cyllid.

**2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill**

Amherthnasol

**3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

| 4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol |
|---|
| Amherthnasol |

| 5 – Cefndir / Cyd-destun |
|---|
| 5.1 Ar 9 Mehefin 2018 enwebodd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio y Cynghorydd John Griffith yn aelod o'r Panel Sgriwtini Cyllid i gymryd lle'r Cynghorydd Robin Williams a benodwyd yn Ddeilydd Portffolio Cyllid.<br><br>5.2 Yn ystod mis Hydref 2018, penodwyd y Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes yn lle’r Cynghorydd John Griffith fel Aelod ar y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio. Mae bellach angen enwebu Aelod o’r Pwyllgor hwn i fod yn Aelod o'r Panel Sgriwtini Cyllid.<br><br>5.3 Ceir manylion am rôl y Panel a’r Bwrdd yn Atodiad 1 |

| 6 – Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg] |
|---|
| Amherthnasol |

| 7 – Goblygiadau Ariannol |
|---|
| Amherthnasol |

| 8 – Atodiadau |
|---|
| 1. Cylch Gorchwyl y Panel Sgriwtini Cyllid |

| 9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda): |
|---|
| - |

# ATODIAD 1

## PANEL SGRIWTINI – CYLLID

### Sgriwtini Ariannol

Yn yr hinsawdd economaidd bresennol, mae Aelodau angen sicrwydd bod y Cyngor yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau, sy'n prinhau, yn arbennig adnoddau ariannol:

*"… Mae craffu effeithiol yn bwysicach fyth wrth i wasanaethau cyhoeddus ymateb i her y sefyllfa ariannol fyd-eang tra'n parhau i geisio gwella gwasanaethau. Gall craffu effeithiol wella sail y dystiolaeth ar gyfer penderfyniadau ar ddyrannu adnoddau yn ogystal â sicrhau bod penderfyniadau yn dryloyw ac yn cael eu gwneud yn unol ag anghenion y gymuned leol..."*[1]

*"Sut fedrwn ni ychwanegu gwerth?"* yw'r cwestiwn allweddol y dylid ei ofyn o safbwynt sgriwtini ariannol a "sut fedrwn ni ddangos bod gwerth wedi ei ychwanegu ym mhob cam o'r broses ariannol?" Yn y cyd-destun hwn, mae angen rhoi ystyriaeth i'r materion a ganlyn:

- Y broses o osod y gyllideb ynddi'i hun
- Penderfynu ar flaenoriaethau ymysg y gofynion sy'n cystadlu
- Defnydd effeithiol o gyllid
- Sut mae monitro a rheolaeth ariannol yn digwydd.

Mae sgriwtini ariannol yn golygu llawer mwy nag ychwanegu gwerth at benderfyniadau'r Pwyllgor Gwaith yn unig. Mae'n ymwneud â sicrhau bod proses sgriwtini briodol yn cael ei gweithredu wrth gynllunio, gweithredu a dilyn i fyny ar benderfyniadau allweddol sy'n cael effaith ar drethdalwyr a chymunedau lleol. O'r herwydd, mae Sgriwtini effeithiol yn gallu:

- Cynnig her effeithiol
- Dal y sawl sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif; a
- Cynorthwyo'r Pwyllgor Gwaith i ddatblygu cyllideb gadarn ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

[1] Craffu Da? Cwestiwn Da! Astudiaeth wella Archwilydd Cyffredinol Cymru: Craffu mewn Llywodraeth Leol, Mai 2014. Hefyd, Disgwyliadau Uwch – craffu ariannol mewn cyfnod heriol. Arweiniad ar gyfer awdurdodau lleol Cymru (Canolfan Graffu Cyhoeddus, Mehefin, 2014)

**Ein Trefniadau Lleol**

Mae'r trefniadau craffu ar y broses flynyddol o sefydlu cyllideb y Cyngor wedi datblygu ac aeddfedu dros y 2 flynedd diwethaf gan osod y sylfeini ar gyfer dull gwell, mwy strategol a seiliedig ar ganlyniadau ac arfer da. Yn wir, gwelwyd y broses yn caniatáu dilyn trywydd mwy systematig o ran sgriwtini ariannol, sy'n elfen hanfodol o reolaeth a llywodraethiant ariannol cadarn.

'Roedd y gwaith craffu gan banel sgriwtini ar wireddu arbedion effeithlonrwydd 2014/15 a 2015/16 hefyd yn ddatblygiad cadarnhaol yn ein trefniadau craffu ariannol, drwy:

- Ddatblygu model yn canolbwyntio ar grŵp llai
- Aelodau'n datblygu lefel o arbenigedd
- Annog presenoldeb da a gweithio mewn tîm

Mae ein gwaith craffu ariannol bellach yn dechrau amlygu fel model posibl o arfer dda.

Mae'n **gam naturiol** felly sefydlu is-grŵp cyllid fel is-banel i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol. Bydd gwneud hyn yn sicrhau'r buddion a ganlyn:

- Datblygu model o weithio yn y maes cyllidol sy'n canolbwyntio ar grŵp llai er mwyn galluogi Aelodau i gymryd mwy o ran, datblygu lefel o arbenigedd pwnc, annog presenoldeb da a gweithio mewn tîm
- Fforwm i drafod gwybodaeth am risgiau ariannol y Cyngor, fel sail i lywio blaen raglen waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol
- Rhyddhau lle ar raglenni cyfarfodydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol i graffu eitemau trawsnewid a strategol
- Fforwm i ddatblygu grŵp o aelodau gyda'r arbenigedd a'r berchnogaeth i arwain trafodaethau cyllidol yn y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

**Sgôp ac ystod gwaith arfaethedig y Panel**

| Pwnc | Rhaglen Waith | Amserlen |
|---|---|---|
| **Anwytho** | Anwytho aelodau'r Panel | Mehefin |
| **Monitro Chwarterol y Gwariant Refeniw a Chyfalaf** | Craffu gwariant yn erbyn proffil cyllidebau | Chwarterol |
| | Rhannu gwybodaeth am risgiau ariannol y Cyngor i | Mehefin |

| Pwnc | Rhaglen Waith | Amserlen |
|---|---|---|
| | lywio blaen raglen waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | |
| | Cyllideb ddrafft – proses y setliad ariannol a sut mae'n gweithio | Haf |
| **Cyllideb y flwyddyn i ddod** | Trosolwg o sefyllfa'r arbedion | |
| | Craffu risgiau'r arbedion effeithlonrwydd arfaethedig | Yr Hydref |
| | Craffu pa mor gyraeddadwy ydy'r cynigion | |
| | Craffu lefel y Dreth Gyngor am y flwyddyn ddilynol | |
| **Cynllun Cyllidol Tymor Canol** | Craffu'r egwyddorion a rhagdybiaethau | Haf |
| **Rheoli Dyledion** | Craffu perfformiad rheolaeth dyledion (cynnwys graddfeydd casglu) | I'w gadarnhau (dibynnol ar argaeledd gwybodaeth wedi'i pharatoi'n rhanbarthol) |
| **Polisi Rhyddhad Treth Busnes** | Craffu'r egwyddorion a rhagdybiaethau | I'w gadarnhau (darn o waith mewn un cyfarfod yn unig) |
| **Cynllun Busnes HRA** | Craffu'r egwyddorion a rhagdybiaethau | Ionawr |
| **Balansau'r Cyngor ac arian wrth gefn** | Cwestiynu a chraffu | Amserlen i'w chadarnhau gan y Panel |

**Aelodaeth y Panel**

Bydd aelodaeth graidd y Panel yn cynnwys:

- **Aelodau Etholedig** – 2 aelod o'r ddau bwyllgor sgriwtini
- **Swyddogion** – Pennaeth Adnoddau a'r Swyddog A151, Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg, Rheolwr Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau, Rheolwr Sgriwtini

Mae'n bosib bydd gwaith y Panel yn golygu y bydd angen i Aelodau Etholedig eraill (ee o'r Pwyllgor Gwaith) a / neu swyddogion o feysydd gwasanaeth eraill fynychu'r Panel.

**Cadeirio**

Bydd y Panel yn ethol Aelod i gadeirio yn y cyfarfod cyntaf.

**Amlder Cyfarfodydd a Chworwm**

- **Amlder cyfarfodydd** – sefydlwyd fel panel sefydlog i ystyried yr amrediad o faterion cyllidol sydd wedi'u crynhoi yn y tabl uchod. Bydd y panel felly'n cyfarfod yn rheolaidd, yn unol ag amserlenni prosesau cyllidol y Cyngor (rhagwelir oddeutu 6-8 cyfarfod/ blwyddyn)

- **Cworwm –** ni fydd yn berthnasol i'r panel.

**Cofnodi cyfarfodydd a Threfniadau Adrodd**

- Bwriedir rhedeg y panel ar ffurf cyfarfod busnes. Bydd yr Uned Sgriwtini'n coladu a dosbarthu unrhyw bapurau wrth baratoi ar gyfer pob cyfarfod a darparu rhestr o bwyntiau gweithredu yn dilyn pob cyfarfod

- **Trefn adrodd** - cyflwyno adroddiad rheolaidd gan aelodau'r panel i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

| CYNGOR SIR YNYS MON<br>**Templed Adroddiad Sgriwtini** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| **Dyddiad:** | 13 Tachwedd,2018 |
| **Pwnc:** | Strategaeth Rhanbarthol Digartrefedd |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Sgrwtineiddio'r Strategaeth a dull cyfathrebu |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cynghorydd Gwilym O. Jones |
| **Aelod(au) Portffolio:** | Cynghorydd Alun Mummery |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Ned Michael |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Elliw Llŷr<br>01248752137<br>ElliwLlyr@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau lleol:** | Dim yn benodol i unrhyw ward |

**1 – Argymhelliad/ion**

Bod y Pwyllgor Sgriwtini yn argymell bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo'r Strategaeth Rhanbarthol Digartrefedd a Chynllun Gwaith Lleol.

**2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall**

Mae Deddf 2014 yn datgan fod rhaid i'r holl Awdurdodau Lleol fabwysiadu Strategaeth Ddigartrefedd yn 2018 er mwyn cyflawni'r amcanion a ganlyn:

- Atal digartrefedd
- Darperir llety addas ar gyfer pobl ddigartref neu bobl sydd mewn perygl o ddod yn ddigartref;
- Mae cefnogaeth foddhaol ar gael i bobl ddigartref neu bobl sydd mewn perygl o ddod yn ddigartref.

Cyn cynhyrchu'r Strategaeth mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol ymgymryd ag adolygiad lleol yn unol ag adran 51 Cod Canllawiau i Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd. Roedd gofyn bod Awdurdodau Lleol yn cynnal adolygiad o'i Gwasanaeth Digartrefedd fel sail ar gyfer llunio Strategaeth.

Mae'r Strategaeth yn cyd fynd gydag amcanion Cynllun y Cyngor,2018-22.

## 3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu'r pwnc:-**

**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- hirdymor
- atal
- integreiddio
- cydweithio
- cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

## 4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol

1. A yw'r Pwyllgor Sgrwitni wedi eu cysuro yn ddigonol bod y Strategaeth yn gyraeddadwy ar lefel Rhanbarthol a Lleol ?
2. Er bod cyfnod ymgynghori dal i fod yn agored hyd 20/11 a yw'r Pwyllgor Sgrwtini wedi bodloni gyda'r ymgynghori sydd wedi digwydd hyd yma yn unol â'r Cynllun Cyfathrebu a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith 16.6.18?

http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=134&MId=3302&Ver=4&LLL=1

3. A oes gan Wasanaeth Tai'r adnoddau ariannol ac adnoddau dynol angenrheidiol i gyflawni'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu Lleol ?
4. A allwch amlinellu sut byddwch yn monitro cynnydd gweithredu'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu lleol?
5. Wrth ddatblygu'r Strategaeth yn rhanbarthol beth yw'r gwersi rydych wedi'i ddysgu hyd yn hyn?

## 5 – Cefndir / Cyd-destun

Cytunodd Penaethiaid Gwasanaeth Tai Gogledd Cymru i gynhyrchu Strategaeth Ddigartrefedd Ranbarthol.

Bydd sefydlu cyd-ddealltwriaeth a dull rhanbarthol ar gyfer atal digartrefedd yn arwain at y buddion a ganlyn:

1. Gwella cyfleoedd i ddatblygu trefniadau gwaith mwy effeithiol gyda sefydliadau partner, megis y Gwasanaeth Iechyd, sy'n gweithredu ar sail ranbarthol i fynd i'r afael â rhai o'r pethau sy'n achosi digartrefedd.
2. Bydd awdurdodau lleol yn gyson wrth ddehongli a gweithredu deddfwriaeth ddigartrefedd a darparu gwasanaethau digartrefedd ar draws ardal Gogledd Cymru. Bydd hyn yn helpu i leihau'r posibilrwydd o wahaniaethau o ran argaeledd gwasanaethau a'r modd y'i cyflwynir ar draws y rhanbarth.
3. Bydd mwy o gyfleoedd i awdurdodau rannu eu hadnoddau, arbenigedd a gwasanaethau arbenigol.

Bydd y Strategaeth Ranbarthol yn cynnwys dogfen ranbarthol gyffredinol a Chynllun Gweithredu 12 mis ar lefel Ranbarthol a Lleol.

Mae'r chwe Awdurdod Lleol yn cynnwys: Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Wrecsam, Dinbych a Fflint.

Fel mae'r Strategaeth Digartrefedd yn nodi mae Digartrefedd yn fater sydd yn effeithio Cynghorau ar draws Gogledd Cymru ac mae'r broses yma yn dangos cydweithio ar lefel strategol a weithredol er mwyn delio a cheisio lleihau effaith digartrefedd. Mae'r Cynllun Gwaith Lleol wedi ei flaenoriaethu gan y Gwasanaeth ac yn gyraeddadwy ar gyfer 2019.

3.2 Un risg wrth weithredu Strategaeth Ranbarthol yw bod perchnogaeth yn cael ei gyd rannu a gall diffyg ymrwymiad gan un neu fwy o Awdurdodau yn cael effaith ar gynnydd. Er mwyn ceisio ymateb i hyn mae Sefydliad Tai Siartredig Cymru, sydd wedi ein cefnogi i lunio'r Strategaeth, wedi cytuno i fod yn ffrind beirniadol wrth i ni fynd i'r afael a'r Cynllun Gwaith Rhanbarthol.

3.3 Mae'r Strategaeth hefo linc gynhenid ag Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol o safbwynt:

- hirdymor
- atal
- integreiddio
- cydweithio
- cynnwys

Gweler **atodiad 1** ar gyfer copi o'r Strategaeth Ddrafft a Chynllun Gwaith Lleol

**Adolygiad Lleol**

Comisiynwyd Project Development Workshop Ltd (PDW) i gynnal adolygiad lleol ar gyfer Ynys Môn.

Cynhaliwyd yr adolygiad rhwng mis Mawrth a mis Mai 2018 gan ddilyn y Côd Canllawiau. Yn ogystal, edrychodd PDW ar y canlynol:

- A yw gwasanaethau'n addas i bwrpas?
- Sut mae contractau a chysylltiadau'n cael eu rheoli?
- Pa mor dda mae'r gwasanaeth digartrefedd yn cael ei ddarparu ar y cyd â phartneriaid?
- A yw'r capasiti o fewn timau'n briodol ac a yw swyddogaethau tîm yn cyflawni eu targedau a deilliannau disgwyliedig?

Mae data ar gyfer Ebrill hyd ganol Hydref yn dangos bod 377 o bobl wedi cael cyswllt gyda'r Gwasanaeth Digartrefedd drwy un apwyntiad wedi ei drefnu neu wrth alw yn y swyddfa gan ddweud eu bod dan fygythiad o ddigartrefedd neu yn ddigartref. Y rheswm dros bod yn ddigartref, perthynas yn torri lawr, ffrindiau, teulu neu riant ddim yn gallu cynnig lle i aros neu gadael carchar.

Yn unol gyda'r Ddeddf mae gofyn cynnal asesiad o'u hamgylchiadau gan un nai gynnig cyngor a chymorth gyda penderfyniad i gael llety brys, atal digartrefedd, cymorth i gael llety neu dyletswydd i gael llety. Gall hyn olygu llety gwely a brecwast, cynnig datrysiadau i aros eu cartref neu gael llety preifat.

**Ymgynghori**

Mae ymgynghori helaeth wedi cymryd lle wrth gynnal adolygiad o'n Gwasanaeth Digartrefedd, gweler **atodiad 2** am wybodaeth pellach.

Prif negeseuon yw bod:

- Angen cydlynu gwybodaeth am berfformiad yn well
- Mae Digartrefedd yn cael ei gydnabod ar draws timoedd
- Mae gennym staff brwdfrydig sydd yn dangos barodrwydd i helpu ein cwsmeriaid sydd mewn cyfnod o straen emosiynol ac o ansicrwydd
- Mae cwsmeriaid yn bwysig iawn i ni o fewn ein Gwasanaeth

Mae'r Pwyllgor Sgriwtini yn derbyn yr adroddiad hwn ar bron terfyn y cyfnod ymgynghori ar y Strategaeth Rhanbarthol. Rydym yn fodlon bod ymgysylltu digonol wedi digwydd fel a welir yn atodiad 2 sydd yn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor bod ymgynghori wedi digwydd ar hyd y daith er mwyn cyrraedd y pwynt terfynol hwn o gyhoeddi y Strategaeth.

| **6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb** **[cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| Gweler atodiad 3 |

| 7 – Oblygiadau Ariannol |
|---|
| Mae unrhyw gostau am lety argyfwng yn cael ei gyfarch drwy arian cyffredinol y Cyngor a grantiau gan Llywodraeth Cymru ar gyfer mentrau penodol ar gyfer atal digartrefedd pan maent ar gael |

| 8 – Atodiadau |
|---|
| Atodiad 1 – Strategaeth Rhanbarthol Digartrefedd a Chynllun Gwaith Lleol<br>Atodiad 2 – crynodeb o'r ymgynghoriad<br>Atodiad 3 – asesiad effaith cydraddoldeb |

| 9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda): |
|---|
| - |

# Pobl, Cartrefi a Gwasanaethau

## Dull rhanbarthol i fynd i'r afael â digartrefedd yng Ngogledd Cymru

RHAGFYR 2018



# Rhagair

Pan wnaethom drafod i ddechrau fel grŵp beth ddylid ei roi fel teitl i'r strategaeth hon, roedd cydnabyddiaeth dawel fod mynd i'r afael â digartrefedd ar draws y rhanbarth yn fwy na dim ond cynyddu'r cyflenwad o'r math cywir o dai.

Ydi, mae'r diffyg cyflenwad yn ffactor cyfrannol mawr i bobl sy'n datgan eu bod yn ddigartref, p'un a ydynt yn cysgu allan, rhai sydd ar restrau aros tai cymdeithasol, neu'r rhai sy'n cysgu ar soffa ffrind heb unrhyw ragolwg o lety parhaol fforddiadwy.

Ond mae'r holl dystiolaeth o'r adolygiadau digartrefedd unigol, a gynhaliwyd gan chwe awdurdod lleol Gogledd Cymru i lywio'r strategaeth hon, yn awgrymu eglurhad mwy cymhleth o ran pam mae cynifer yn cysgu allan neu'n aros i gael tŷ.

Mae'n golygu'r grwpiau penodol o bobl sydd angen cefnogaeth, y mathau o gartrefi sydd angen i ni eu darparu iddynt a'r gwasanaethau sy'n caniatáu iddynt fyw'n gynaliadwy yn y cartrefi hynny – Pobl, Cartrefi a Gwasanaethau.

Daeth themâu cyffredin i'r amlwg o ran y mathau o ddemograffeg sy'n datgan eu bod yn ddigartref, yn enwedig ein pobl ifanc, rhai ag anghenion cymhleth fel materion iechyd meddwl, a'r rhai sy'n gadael carchar.

Roedd yr adolygiadau hefyd yn nodi themâu cyffredin o ran y bylchau yn y mathau o lety, yn ogystal â'r bylchau o ran data i lywio dull strategol o fynd i'r afael â'r mater.

Yn olaf, gwnaeth y boblogaeth ar draws y rhanbarth ddangos gwir achosion eraill fel diwygio lles, diffyg ymyrraeth gynnar a diffyg cydweithredu gyda'r gwasanaeth iechyd, ac mewn rhai achosion rhwng meysydd gwasanaeth y cyngor.

Yn y bôn, mae'r strategaeth hon yn cydnabod nad oes gan ddigartrefedd, a'r materion sy'n ei achosi, unrhyw ystyriaeth i ffiniau awdurdodau lleol, ac os ydym wir am fynd i'r afael â'r mater hwn, mae angen i'r chwe chyngor gydweithio i uno data, gwasanaethau a datrysiadau. Mae'r ddogfen hon yn nodi strategaeth sy'n seiliedig ar gydweithio i gyflawni'r nod cyffredinol – dileu digartrefedd yng Ngogledd Cymru.

**Matt Dicks**
Cyfarwyddwr, CHI Cymru

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| **1.** | **Cyflwyniad** | 4 |
| 1.1 | Cefndir Deddfwriaetho | 4 |
| 1.2 | Ystyriaethau Deddfwriaethol a rheoliadol ychwanegol | 4 |
| 1.3 | Amcanion Allweddol | 4 |
| 1.4 | Darlun Digartrefedd Gogledd Cymru | 5 |
| **2.** | **Y Dull Rhanbarthol** | 6 |
| 2.1 | Cefndir | 6 |
| 2.2. | Themâu ac Amcanion Allweddol a Rennir | 7 |
| 2.2.1 | Pobl | 8 |
| 2.2.2 | Cartrefi | 9 |
| 2.2.3 | Gwasanaethau | 10 |
| **3.** | **Y Fframwaith Cydweithredol** | 11 |
| 3.1 | Y Nod Stratego | 11 |
| 3.2 | Cynllun gwaith cydweithredol | 11 |
| 3.2.1 | Pobl | 11 |
| 3.2.2 | Cartrefi | 12 |
| 3.2.3 | Gwasanaethau | 13 |
| **4.** | **Canlyniadau** | 14 |
| **5.** | **Monitro a Gwerthuso** | 14 |
| | **Atodiad A** | 14 |
| | **Atodiad B - Cynllun Gwaith Rhanbarthol** | 16 |

# 1. Cyflwyniad

## 1.1 Cefndir Deddfwriaethol:

Mae Rhan 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn rhoi dyletswydd statudol ar bob awdurdod lleol yng Nghymru i gynnal adolygiad o ddigartrefedd a ffurfio strategaeth digartrefedd.

Mae strategaeth digartrefedd, dan adran 50 y Ddeddf, yn strategaeth ar gyfer cyflawni'r amcanion a ganlyn yn ardal yr awdurdod tai lleol:

- atal digartrefedd;
- sicrhau bod llety addas yn neu y bydd ar gael i bobl sydd yn neu a allai fod yn ddigartref;
- sicrhau bod cefnogaeth foddhaol ar gael i bobl sydd yn neu a allai fynd yn ddigartref.

## 1.2 Ystyriaethau Deddfwriaethol a rheoliadol ychwanegol:

Wrth baratoi'r strategaeth hon, mae partneriaid wedi cyfeirio at y pethau a ganlyn a rhoi ystyriaeth iddynt:-

- Cynllun Digartrefedd 10 Mlynedd
- Llwybr Tai Cenedlaethol ar gyfer Cyn Staff Gwasanaeth
- Llwybr Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Digartrefedd i Blant, Pobl Ifanc ac Oedolion yn yr Ystâd Ddiogeledd
- Atal Digartrefedd a Hyrwyddo Annibyniaeth: Llwybr Cadarnhaol tuag at fyd Oedolion
- Gorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2015
- Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2015 ac Asesiad o Anghenion Poblogaeth
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac Asesiad o Les
- Cynlluniau Strategol Rhanbarthol
- Deddf Cydraddoldeb (Cymru) 2010
- Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwystra) (Cymru) 2014
- Cod Canllawiau i Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd, 2016
- Diwygiadau Budd-daliadau Lles

## 1.3 Amcanion Allweddol:

Nod y strategaeth hon yw mynd i'r afael ag achosion sylfaenol digartrefedd, p'un ai cysgu allan, lleihau nifer sydd ar y rhestr aros tai cymdeithasol, lleihau nifer pobl sy'n cysgu ar soffas ffrindiau, ac unrhyw fath arall o ddigartrefedd, gyda'r nod yn y pen draw o sicrhau ei fod yn dod i ben yng Ngogledd Cymru. Ar ôl cynnal Adolygiad Digartrefedd ym mhob ardal awdurdod lleol, bydd y chwe awdurdod ar draws y rhanbarth yn cyrraedd y nod hwnnw drwy gyflawni'r amcanion allweddol a ganlyn:

- **Datblygu dull rhanbarthol i fynd i'r afael â digartrefedd yng Ngogledd Cymru**
- **Rhannu arfer gorau ar draws y rhanbarth**
- **Datblygu gwasanaethau a rennir a chydweithredu lle bo'n bosibl**
- **Datblygu gwell dealltwriaeth o achosion digartrefedd drwy gasglu data mewn ffordd well ar draws y rhanbarth**
- **Lleihau digartrefedd yng Ngogledd Cymru**

## 1.4 Darlun Digartrefedd Gogledd Cymru

# Hwn oedd darlun digartrefedd yng Ngogledd Cymru ym mis Gorffennaf 2018:

Nifer ar Rhestr Aros Aelwydydd yng Ngogledd Cymru

**7,022**





**509**

mewn Llety Dros Dro



**75%**

o bobl ddigartref sydd angen llety 1 ystafell wely, ond dim ond ??% o stoc presennol sydd ag un ystafell wely

**84**

yn cysgu allan



**Mae dau draean**

o bobl Cymru yn credu y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cartref o ansawdd da i bawb



# 2. Y Dull Rhanbarthol

## 2.1 Cefndir

Nododd Comisiwn Williams ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus, a adroddodd yn 2014:

*"Mae cydberthnasau yn y sector cyhoeddus yng Nghymru yn rhy gymhleth ac nid yw'r cymhlethdod hwn yn gwneud unrhyw les i Gymru. Rhaid symleiddio strwythurau, cydberthnasau a chyfrifoldebau cyrff sector cyhoeddus Cymru, a'r partneriaethau rhyngddynt, a rhaid egluro eu hatebolrwydd a manteisio ar y synergeddau rhyngddynt."*

Ac:

*"Mae angen sicrhau newid sylweddol i berfformiad a darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru."*

Mae'r Comisiwn hefyd yn argymell lleihau nifer y cynghorau er mwyn symleiddio darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Er bod Llywodraeth Cymru wedi ymatal rhag ad-drefnu, mae dull cydweithredol wedi parhau i lywio ei hagenda o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus ers i'r comisiwn gyhoeddi ei adroddiad.


Ym mis Mehefin 2017, gwnaeth Penaethiaid Tai chwe awdurdod lleol Gogledd Cymru, ynghyd â Sefydliad Tai Siartredig Cymru, ymrwymo i gydweithio i ddatblygu strategaeth digartrefedd rhanbarthol.

Sefydlwyd gweithgor a dechreuwyd cyfathrebu â Llywodraeth Cymru. Cytunodd Llywodraeth Cymru i'r dull rhanbarthol a amlinellir yn y ddogfen yn **Atodiad A**, os bydd pob un o'r chwe awdurdod lleol yn y rhanbarth yn mabwysiadu / cofrestru i'r strategaeth rhanbarthol.



## 2.2 Themâu ac Amcanion Allweddol a Rennir

Mae'r adolygiadau lleol wedi'u cynnal ac mae themâu cyffredin a meysydd gweithredu allweddol wedi'u nodi ar draws y rhanbarth:



## 2.2.1 Pobl

| | Materion allweddol |
|---|---|
| **Digartrefedd ieuenctid** | Sicrhau bod pobl ifanc yn cael y wybodaeth gywir drwy wahanol lwyfannau cyfryngau cymdeithasol<br><br>Camddealltwriaeth/diffyg gwybodaeth am ddarpariaeth gwasanaeth ymhlith pobl ifanc<br><br>Yr effaith ar bobl ifanc a'u hanghenion tai, pan fydd bywyd teuluol yn cyrraedd argyfwng<br><br>Egluro beth a olygwn wrth bobl ifanc a deall anghenion gwahanol grwpiau o bobl ifanc fel:- e.e. pobl ifanc 16-17 oed mewn llety gwely a brecwast, pobl 20-35 oed mewn llety un ystafell wely – diffyg dealltwriaeth o ran pam mae gwahanol grwpiau yn datgan eu bod yn ddigartref<br><br>Methu nodi pobl ifanc mewn perygl ar gam cynharach – e.e. agenda pobl ddiamddiffyn/ACES – ac angen i ddarparu rhagor o wasanaethau cydgysylltiedig, e.e. gwasanaethau plant ddim yn cyfathrebu gyda thai ar gam cynharach<br><br>Prinder llety a rennir a llety un ystafell wely<br>Prinder math cywir o lety<br><br>Nid yw llawer o bobl ifanc yn barod am denantiaeth – h.y. nid ydynt yn ariannol llythrennog, ddim wedi cael profiad o fyw'n annibynnol |
| | |
| **Pobl sy'n cysgu allan** | Mae niferoedd yn cynyddu<br><br>Diffyg math cywir o lety – e.e. llety mewn argyfwng<br><br>Dull elusen heb ei gydlynu ar draws yr ardal leol a'r rhanbarth, e.e. gwaith da â chanlyniadau anfwriadol sy'n achosi materion ymhellach ar hyd y daith tai ar lefel leol a rhanbarthol<br><br>Mynd i'r afael â'r "diwylliant cyffuriau ac alcohol" – nid oes cyfran yn defnyddio eu llety oherwydd diwylliant cyffuriau. Mae defnyddwyr cyffuriau yn llai tebygol o ddefnyddio llety gwarchod brys<br><br>Diffyg cefnogaeth i bobl â materion iechyd meddwl<br><br>Ansicrwydd am ddyfodol cyllid Cefnogi Pobl |

| | |
|---|---|
| **Anghenion cymhleth** | Diffyg diffiniad clir o beth yw ystyr Anghenion Cymhleth<br><br>Diffyg cydlyniad o ran darpariaeth gwasanaeth<br><br>Diffyg tai addasol a defnydd cydlynol o adnoddau ar draws y rhanbarth<br><br>Ymrwymiad Llywodraeth Cymru i Raglen Cefnogi Pobl |
| | |
| **Rhai sy'n gadael carchar** | Llwybr Carcharorion – dim digon o adnoddau<br><br>Diffyg cydweithredu ar draws y rhanbarth<br><br>Nid yw o fewn Angen Blaenoriaethol bellach<br><br>Diffyg llety addas ar gyfer rhai sydd wedi'u dyfarnu'n euog o danau bwriadol |


## 2.2.2 Cartrefi

| | **Materion allweddol** |
|---|---|
| | |
| **Tai yn gyntaf** | Prinder cyllid<br><br>Diffyg Eglurder gan Lywodraeth Cymru o ran ei strategaeth tai yn gyntaf a beth mae'n ei olygu – ydi'n wariant iechyd a/neu dai?<br><br>Diffyg awch gwleidyddol ar lefel leol mewn ardaloedd Awdurdod Lleol penodol |
| | |
| **Gwell mynediad at wybodaeth - cyflenwad** | Llety i rai dan 35 oed<br><br>Amharodrwydd canfyddedig y Sector Rhentu Preifat i gymryd tenantiaid ar fudd-daliadau lles<br><br>Diffyg cefnogaeth tai ar gyfer tenantiaid y Sector Rhentu Preifat<br><br>Ffioedd asiantaethau gosod o flaen llaw |

| | |
|---|---|
| **Llety dros dro** | Pobl yn methu symud ymlaen<br><br>Prinder math cywir o lety<br><br>Rhy ddrud<br><br>Angen asesiadau risg parhaus |

## 2.2.3 Gwasanaethau

| | **Materion allweddol** |
|---|---|
| **Atal/ymyrraeth** | Mae ymyrraeth yn digwydd ar bwynt argyfwng – mae digartrefedd yn symptom, nid achos<br><br>Diffyg dull cyfannol o ran atal ar draws adrannau Awdurdod Lleol – mae'n gyfrifoldeb ar bob adran i atal digartrefedd |
| **Diwygio lles** | Gweithredu'r agenda Diwygio Lles |
| **Iechyd** | Diffyg cydweithredu a gwasanaethau yn yr ardal leol ac ar lefel ranbarthol<br><br>Diffyg dealltwriaeth o dai yn y sector iechyd |



# 3. Y Fframwaith Cydweithredol

## 3.1 Y Nod Strategol

Yr ymrwymiad strategol craidd gan y chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru yw creu diwylliant o gydweithredu gwell ar draws y rhanbarth, o ran mynd i'r afael â'r materion penodol sy'n achosi digartrefedd fel a amlinellir uchod.

Caiff yr agenda honno ei chynnwys yn null strategol pob awdurdod drwy fabwysiadu'r Strategaeth Digartrefedd Rhanbarthol fel a nodir yn y ddogfen hon.

Bydd pob awdurdod yn datblygu ei gynllun gweithredu lleol ei hun ar sail blaenoriaethau'r strategaeth ranbarthol, ac mae'r adran hon yn amlinellu lle gellir cydweithredu ar lefel ranbarthol.

## 3.2 Cynllun gwaith cydweithredol

Ar sail cydberthyniad themâu allweddol, mae meysydd allweddol o ran cydweithredu ar draws y rhanbarth wedi'u nodi:

### 3.2.1 Pobl

**Digartrefedd Ieuenctid:**

- • Datblygu dull rhanbarthol i bobl ifanc o ran gwybodaeth am:
    - o Fod yn barod am denantiaeth
    - o Lles/Buddion llythrennedd ariannol
    - o Hyrwyddo Llwybr Cadarnhaol Pobl Ifanc at Dai
- Creu cysylltiadau gwell rhwng llety a chyfleoedd cyflogaeth
- Creu'r adnoddau cefnogaeth ac atal cywir i helpu i gynnal tenantiaeth

**Pobl Sy'n Cysgu Allan:**

- Creu canolfan gyswllt elusennau rhanbarthol i wella cysonder a darpariaeth strategol cefnogaeth
- Hyrwyddo Ap Streetlink a gwybodaeth am roi gwybod am ddigartrefedd a sut gall y cyhoedd gynorthwyo pobl ddigartref
- Newid diwylliant gwleidyddion o ran stereoteipiau o ran llety brys, llety a rennir a thai yn gyntaf
- Dod â setiau data ynghyd ar lefel ranbarthol i greu gwell dealltwriaeth o:
    - o Pam mae pobl yn gwrthod mathau penodol o lety
    - o Pam mae tenantiaethau yn dod i ben/Pam mae pobl yn datgan eu bod yn ddigartref
    - o Beth mae'r Sector Rhentu Preifat am ei gael o ran cefnogaeth a sut gallwn annog landlordiaid i osod eiddo i bobl sy'n hawlio Budd-daliadau Lles
- • Datblygu ymgysylltiad gwell gyda phobl sy'n cysgu allan i ddeall anghenion

**Angen Cymhleth:**

- Datblygu diffiniad pendant a rennir o Anghenion Cymhleth ar draws y rhanbarth
- Cydlynu'r defnydd o ymchwil ar draws y rhanbarth ac Awdurdodau Lleol unigol o ran data ar anghenion cymhleth
- Datblygu/defnyddio'r math cywir o dai
- Datblygu gwell cydweithredu ar draws adrannau awdurdod lleol o ran anghenion cymhleth

**Rhai Sy'n Gadael Carchar:**

- Cynyddu Adnoddau ar gyfer Llwybr Carcharorion drwy ddatblygu cytundeb dwyochrog ar draws y rhanbarth - creu rhwydwaith swyddogion Llwybr Carcharorion rhanbarthol
- Gwella gwaith monitro Llwybr Carcharorion a datblygu map data o'r effaith mae'n ei chael ar draws y rhanbarth

## 3.2.2 Cartrefi

**Tai yn Gyntaf:**

- Dull cydgysylltiedig o ran cyfathrebu i berswadio gwleidyddion lleol o rinweddau Tai yn Gyntaf
- Bwydo i raglen dreigl barhaus Llywodraeth Cymru i ddeall gweledigaeth LlC yn well
- Rhannu arfer gorau ar draws y rhanbarth

**Gwell mynediad at wybodaeth – cyflenwad:**

- Codi ymwybyddiaeth o Strategaeth Digartrefedd gydag adrannau eraill
- Cynnwys digartrefedd ar lefel strategol ar draws y rhanbarth
- Cynyddu cyflenwad addas a hygyrch
    - Adeiladau newydd cymdeithasol
    - Defnyddio mwy o stoc Sector Rhentu Preifat
- Datblygu cyfres o gymhellion ar draws y Rhanbarth i annog Landlordiaid i weithio gyda'r Gwasanaeth Digartrefedd
- Gweithio gyda'r Sector Rhentu Preifat i leihau canfyddiad negyddol o gymryd tenantiaid Budd-daliadau Lles
- Rhanbarthu dull cyfathrebu gyda landlordiaid Sector Rhentu Preifat
- Hyrwyddo porthol gwe Tai Teg ymhellach

**Llety Dros Dro:**

- Archwilio datrysiadau arloesol i lety dros dro
- Dysgu gan Awdurdodau Lleol nad ydynt yn defnyddio llety gwely a brecwast i ddiwallu anghenion llety dros dro – rhannu arfer gorau ar draws y rhanbarth
- Ymgyrch gyfathrebu i fynd i'r afael â chanfyddiadau'r cyhoedd am lety dros dro a'r bobl sy'n ei ddefnyddio
- Archwilio cytundeb lefel gwasanaeth rhanbarthol gyda darparwyr gwely a brecwast

### 3.2.3 Gwasanaethau

**Atal/Ymyrraeth:**

- Creu set ddata traws-ranbarthol i roi gwybod yn well pam mae pobl yn datgan eu bod yn ddigartref
- Codi ymwybyddiaeth ymhlith gwasanaethau statudol mewn awdurdodau lleol i ddeall y gall ymyrraeth gynharach atal digartrefedd yn y dyfodol
- Creu map rhanbarthol o'r adnoddau atal sydd ar gael ar lefel leol a rhanbarthol
- Rhannu gwasanaethau gwybodaeth ar draws y rhanbarth
- Rhannu adnoddau hyfforddiant ar draws y rhanbarth

**Diwygio Lles:**

- Datblygu canolfan ymyrraeth gynnar ranbarthol
- Sefydlu grŵp arfer gorau rhanbarthol
- Cau bylchau data i ddeall effaith sancsiynau ar ddigartrefedd yn well
- Rhanbarthu protocolau cyn achosion o droi allan

**Iechyd a Gofal Cymdeithasol:**

- Dangos budd-cost buddsoddiad mewn tai a'r agenda digartrefedd yn well o ran arbedion i'r gwasanaeth iechyd drwy rannu arfer gorau
- Creu llais uwch ar gyfer tai ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus



# 4. Canlyniadau

Nod y strategaeth hon yn y pen draw yw lleihau digartrefedd a gweithio tuag at ei ddileu ar draws Gogledd Cymru, wedi'i fesur yn erbyn system werthuso (gweler adran 5).

# 5. Monitro a Gwerthuso

Mae grŵp Cyflawni ar gyfer Digartrefedd Rhanbarthol wedi'i sefydlu i weithredu'r strategaeth a'r cynllun gweithredu rhanbarthol. Mae'r grŵp yn cynnwys arweinwyr Strategaeth Tai o'r 6 Awdurdodau Lleol ac yn cwrdd bob chwarter. Pan fo angen bydd is-grwpiau yn cael eu sefydlu i gyflawni rhai o'r gweithredoedd, bydd aelodaeth yr is-grwpiau yn cynnwys y partneriaid perthnasol a bydd y grŵp yn penderfynu ar ba mor aml y cynhelir y cyfarfodydd.

Mae'r cynnydd a wneir yn erbyn y Cynllun Gweithredu Rhanbarthol yn cael ei gyflwyno bob chwarter i bob Partneriaeth Strategol Tai yr Awdurdod Lleol sydd yn goruchwylio'r gwaith o weithredu Strategaeth Tai Lleol a strategaethau perthnasol yr ALl. Rôl y Bartneriaeth Strategol Tai ALl yw cydlynu a chryfhau gweithgareddau yn gysylltiedig â thai ar draws yr holl wasanaethau a sefydliadau partner.

Bydd adroddiad blynyddol yn cael ei baratoi yn manylu'r cynnydd a wneir yn erbyn y cynllun gweithredu rhanbarthol a bydd pob Awdurdod Lleol yn cyflwyno eu hadroddiad i'r Pwyllgor Craffu Economi a Chynllun. Bydd yr ALl hefyd yn cynnwys cynnydd a wnaed yn erbyn y Cynllun Gweithredu lleol o fewn yr adroddiad ac yn sicrhau ei fod ar gael yn gyhoeddus ar-lein ar wefan yr ALl.

# Atodiad A

## Amlinelliad - Strategaeth Digartrefedd Rhanbarthol Gogledd Cymru

Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 wedi cyflwyno'r newidiadau mwyaf sylfaenol i ddeddfwriaeth digartrefedd ers cyflwyno Deddf Tai (Pobl Ddigartref) 1977. Ochr yn ochr â'r ddyletswydd statudol arloesol sy'n gysylltiedig ag atal digartrefedd, mae'r Ddeddf hefyd wedi cyflwyno, am y tro cyntaf, dyletswydd statudol ar awdurdod tai lleol i gynnal Adolygiad Digartrefedd ac i gynhyrchu Strategaeth Digartrefedd, a chaiff y strategaeth ei chyhoeddi erbyn diwedd 2018.

Pe bai awdurdodau lleol Gogledd Cymru yn cynhyrchu Strategaethau Digartrefedd unigol; byddai'r rhain yn cynnwys nodau ac amcanion tebyg. Felly, gwnaeth Penaethiaid Tai Gogledd Cymru argymell bod chwe awdurdod lleol Gogledd Cymru yn cydweithio i gynhyrchu a chyhoeddi Strategaeth Digartrefedd Rhanbarthol ar y cyd.

Cytunodd CHI Cymru i weithredu fel hwyluswyr ar gyfer y prosiect a gwnaethant gyfarfod gydag arweinwyr prosiect o'r awdurdodau lleol ar 25 Hydref i ddatblygu dull a chynllun gwaith.

Gallai manteision strategaeth o'r fath gynnwys:

- The potential for local authorities to collaboratively procure and deliver homelessness services will be enhanced. There will also be increased opportunity for the development of more effective working with key partner organisations, such as, Health Service, i.e., who operate on a regional basis.
- Bydd y posibilrwydd i awdurdodau lleol gaffael a darparu gwasanaethau digartrefedd ar y cyd yn cael ei wella. Bydd rhagor o gyfle i ddatblygu gweithio mwy effeithiol gyda sefydliadau partner allweddol hefyd, fel y Gwasanaeth Iechyd, h.y. sy'n gweithredu ar sail ranbarthol.
- Bydd dull mwy cyson ymhlith awdurdodau lleol gyda'u dehongliad a gweithrediad o'r ddeddfwriaeth digartrefedd, h.y., camau rhesymol, ac o ran darparu gwasanaethau digartrefedd ar draws ardal Gogledd Cymru. Bydd hyn yn helpu i leihau'r potensial am amrywiad o ran argaeledd a darpariaeth gwasanaethau ar draws y rhanbarth.
- Bydd awdurdodau lleol yn gallu datblygu dealltwriaeth fwy eang a manwl o faterion rhanbarthol, a chael dealltwriaeth well o faterion mae awdurdodau cyfagos yn eu hwynebu.
- Bydd rhagor o gyfleoedd i awdurdodau rannu eu hadnoddau a'u harbenigedd a gwasanaethau arbenigol. Cydnabuwyd hefyd y byddai cydweithredu gwell ymhlith awdurdodau lleol, er enghraifft, gyda rheolaeth achosion MAPPA.
- Bydd sefydlu cyd-ddealltwriaeth a dull rhanbarthol tuag at atal/mynd i'r afael â digartrefedd yn arwain at awdurdodau lleol, gyda'u partneriaid, yn cael dylanwad cryfach, mwy cadarnhaol ar ddatblygiad polisi Llywodraeth Cymru yn y dyfodol, yn benodol o ran materion tai, digartrefedd a chefnogi pobl.

**Dull:**

- Bydd pob cyngor yn cynnal adolygiadau lleol a datblygu cynllun gweithredu lleol
- Caiff cynlluniau lleol eu dadansoddi, a chaiff themâu cyffredin a meysydd cydweithredu eu nodi i ddatblygu strategaeth ranbarthol ddrafft a chynllun gweithredu
- Ymgynghori ar strategaeth ranbarthol ddrafft a chynllun gweithredu (gwleidyddol a thraws-sector)
- Cyhoeddi strategaeth ranbarthol derfynol a chynllun gweithredu



# Atodiad B - Cynllun Gwaith Rhanbarthol

| Thema | Cam gweithredu | Tasg | Allbwn |
|---|---|---|---|
| **Pobl**<br><br>**Digartrefedd Ieuenctid** | Datblygu dull cyson ar draws Gogledd Cymru i gefnogi pobl ifanc i:<br>(1) Fod yn barod am denantiaeth.<br>(2) Cynnal eu tenantiaeth | Mapio gwasanaethau presennol ar gael i gefnogi pobl ifanc ym mhob Sir.<br><br>Casglu gwybodaeth am y Llwybr Sengl (ac unrhyw ddulliau eraill sydd ar gael) i adnabod y galw am wasanaethau cefnogi ym mhob Sir.<br><br>Awdurdodau Lleol i rannu prosesau atgyweirio presennol gyda phartneriaid i wneud y mwyaf o'r defnydd o wasanaethau ar gael ac enghreifftiau o arfer da.<br><br>Adnabod meysydd i gydweithio.<br><br>Hyfforddi swyddogion rheng flaen ar sut i ddatblygu cynlluniau personol effeithiol i bobl ifanc. | Bydd pob ALl yn cynnig cynlluniau personol cadarn i bobl ifanc sydd yn cynnwys cymorth i gael mynediad i hyfforddiant a chyfleoedd cyflogaeth a datrys unrhyw achosion o ddyled a rheoli arian cyn cynnig am denantiaeth. |
| **Pobl Sy'n Cysgu Allan** | Darparu gwasanaeth cyson ar draws Gogledd Cymru sydd yn ymateb i bobl sy'n cysgu allan. | Datblygu cynllun cyfathrebu rhanbarthol i hyrwyddo Cyswllt Stryd.<br><br>Datblygu pecyn gwaith ymgysylltu rhanbarthol i wella'r broses o gyfathrebu gyda phobl sy'n cysgu allan i wella eu hanghenion.<br><br>Pob ALl i ddatblygu eu gwasanaethau allgymorth yn seiliedig ar angen lleol a rhannu arfer da i sicrhau dull cyson. | Gwella ymrwymiad gyda'r rheiny sydd â ffordd o fyw yn seiliedig ar y stryd i leihau'r angen o gysgu allan.<br><br>Gwella cysondeb a darparu cymorth i bobl sy'n cysgu allan. |

| Thema | Cam gweithredu | Tasg | Allbwn |
|---|---|---|---|
| **Anghenion Cymhleth** | Datblygu dull cydlynol i ymateb i gwsmeriaid gydag anghenion cymhleth. | Cytuno ar beth yw diffiniad anghenion cymhleth ar draws y rhanbarth.<br><br>Rhannu data ac arfer da.<br><br>Adnabod meysydd i gydweithio.<br><br>Hyfforddi swyddogion rheng flaen ar sut i ymateb i gwsmeriaid gydag anghenion cymhleth a sicrhau fod y gwasanaethau cynnal yn eu lle. | Anghenion cymhleth y cwsmeriaid yn cael eu cwrdd. |
| **Pobl sy'n gadael carchar** | Parhau i gynnig Datrysiadau Tai i bobl sy'n gadael carchar cyn eu rhyddhau er mwyn gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd i gydweithio i sicrhau defnydd effeithiol o adnoddau. | Datblygu cytundeb cytbwys ar draws y rhanbarth.<br><br>Rhannu data monitro a datblygu map data o'r effaith mae'n ei chael ar draws y rhanbarth. | Cynyddu'r adnoddau ar gyfer Llwybr Carcharorion |
| **Cartrefi**<br><br>**Tai yn Gyntaf** | Mewn cydweithrediad bod yn arloesol wrth ymateb i anghenion llety i gwsmeriaid. | Rhannu data ac arfer da.<br><br>Adnabod meysydd i gydweithio. | Gweithredu dull llwyddiannus i 'Tai yn Gyntaf' ym mhob ardal awdurdod lleol. |
| **Gwell mynediad at lety** | Datblygu dull rhanbarthol i wella mynediad i'r sector rhentu preifat. | Datblygu dull cyson i gynlluniau cymhelliant landlord ar draws y rhanbarth. | Gwella mynediad i lety yn y sector rhentu preifat. |
| **Llety dros dro** | Archwilio atebion arloesol yn rhanbarthol i leihau'r gost o lety dros dro. | Rhannu data ac arfer da.<br><br>Adnabod meysydd i gydweithio. | Costau gostyngol i ALl. |

| Thema | Cam gweithredu | Tasg | Allbwn |
|---|---|---|---|
| **Gwasanaethau**<br><br>**Atal** | Darparu gwasanaeth cyson ar draws Gogledd Cymru sydd yn ymateb i'r Ddeddf Tai (Cymru) 2014. | Mapio adnoddau atal sydd ar gael ar lefel leol a rhanbarthol<br><br>Hyfforddi swyddogion rheng flaen ar adnodau atal sydd ar gael. | Gwell dealltwriaeth o'r rheswm pam fod pobl yn datgan eu bod yn ddigartref. |
| **Lliniaru Diwygio'r Gyfundrefn Les** | Datblygu dull cydweithredu i leihau'r effaith o Ddiwygio'r Gyfundrefn Les ar hawlwyr oedran gweithio wedi eu heffeithio gan y Credyd Cynhwysol. | Sefydlu grŵp arfer gorau rhanbarthol a rhannu data i ddeall yr effaith o Ddiwygio'r Gyfundrefn Lles yn well (gan gynnwys effaith sancsiynau) a datblygu mesurau lliniaru effeithiol.<br><br>Rhanbartholi protocolau cyn achosion o droi allan | Lleihau'r effaith ar gwsmeriaid a gwasanaethau cyhoeddus. |
| **Iechyd a Gofal Cymdeithasol** | Datblygu trefniadau gwaith agosach gyda'r Gwasanaethau Iechyd. | Adnabod meysydd i gydweithio. | Creu'r cysylltiadau rhwng iechyd a thai. |

Cynllun Gweithredu Strategaeth Digartrefedd Cyngor Sir Ynys Môn 2018-2019 (Rhag-Rhag)

| **Thema** | **Gweithred** | **Tasg** | **Allbwn** |
|---|---|---|---|
| Darparu cyngor llesiant / cynhwysiant ariannol i gleientiaid digartref | - Recriwtio Swyddog Cynhwysiant Ariannol i'w gynnwys yn y tîm Digartrefedd ar sail rhan-amser. | - Mapio'r cynigion cynhwysiant ariannol er mwyn cefnogi cleientiaid digartref<br>- Proses atgyfeirio i'w chytuno arni rhwng y tîm digartref a'r tîm incwm. | - Cael yr incwm mwyaf posibl er mwyn lleihau'r risg o ddigartrefedd yn y dyfodol<br>- Lleihau nifer y cwsmeriaid sy'n dychwelyd yn rheolaidd a ystyrir yn 'ddigartref' o ganlyniad i well sefydlogrwydd ariannol<br>- Gwell bodlonrwydd cwsmer |
| Gweithredu'r safon tir cyfartal | - Sicrhau ein bod yn bodloni'r gofynion deddfwriaethol cenedlaethol o weithredu'r safon tir cyfartal. | - Ymgysylltu â Shelter er mwyn gweithredu safon tir cyfartal lleol<br>- Datblygu astudiaethau achos chwarterol ar sut mae safon tir cyfartal wedi dod a llwyddiant ynghyd â gwersi a ddysgwyd o ran ein darpariaeth.<br>- Ystyried mynediad – canolfannau cymunedol ac ati (lleihau'r effaith o fynd i mewn i swyddfa ffurfiol drwy wahodd rhai unigolion sydd ag anghenion cymhleth ac sy'n fregus)<br>- Hyfforddiant Gwasanaeth Cwsmer<br>- Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl<br>- Hyfforddiant Cyfleoedd Cyfartal<br>- Datrys a chydnabod anghenion ychwanegol megis llythrennedd. | - Ataliaeth gynharach o ddigartrefedd o ganlyniad i well perthynas â'r tîm Opsiynau Tai – eglurder dwy ffordd<br>- Gwell perthnasau yn y cylch digartrefedd<br>- Cydymffurfiaeth gyflymach o ran ymchwiliadau digartrefedd o ganlyniad i fwy o gyfathrebu â'r cwsmer. |
| Hyrwyddo'r gwasanaeth Opsiynau Tai er mwyn annog cyflwyniadau cynharach | - Adnabod rhanddeiliaid allweddol er mwyn hyrwyddo'r gwasanaeth Opsiynau Tai / SPOA er mwyn galluogi pobl i gyflwyno eu hunain fel digartref cyn i argyfwng ddigwydd. | - Datblygu ffilm fer<br>- Datblygu rhestr o'r holl gysylltiadau perthnasol / cyfeiriadau e-bost / rhifau ffôn<br>- Datblygu cynllun marchnata syml er mwyn sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn chwarae rhan. | - Ataliaeth gynharach<br>- Rheoli disgwyliadau<br>- Gwell perthynas ag asiantaethau cyfeirio allweddol megis gwasanaethau iechyd a diogelwch. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | - Cynnwys Iechyd (BPIBC) gan fod hyn yn cael ei weld fel maes y mae angen ei wella ar sail rhanddeiliaid.<br>- Mwy o farchnata ar gyfryngau cymdeithasol / gwefannau corfforaethol<br>- Diweddaru'r wefan gorfforaethol a gwella'r cyfleuster gwe-lywio tra'n ystyried cleientiaid bregus.<br>- Rhanddeiliaid i ddarparu adborth adeiladol ar feysydd sydd angen eu gwella gan Opsiynau Tai. | - Gellir darparu cwsmeriaid â gwybodaeth, cyngor a chymorth cyn digartrefedd. |
| Sicrhau bod gwasanaethau ar gyfer cwsmeriaid sy'n dioddef tor perthynas yn cael eu mapio allan a bod gwybodaeth ar ddarpariaethau'n cael ei rhannu â chwsmeriaid. | - Sylweddoli mai dyma un o'r prif bethau sy'n cyfrannu at ddigartrefedd<br>- Mapio gwasanaethau cyfryngu presennol. | - Datblygu deunydd marchnata – taflenni, posteri, cyfryngau cymdeithasol<br>- Sicrhau eglurder ar yr holl wasanaethau cyfryngu, os yn briodol ar gyfer cleientiaid unigol. | - Cynyddu ymwybyddiaeth o gyplau sy'n chwilio am gymorth (drwy Relate neu Teulu Môn) petai perthnasau personol yn peri risg o ddigartrefedd yn y dyfodol. |
| Datblygu protocol anghenion cynhwysfawr a phroses aseinio / adolygu cynnydd a monitro. | - Datblygu agwedd wedi'i chydlynu tuag at ymateb i gwsmeriaid ag anghenion cymhleth. | - Cytuno ar y diffiniad o anghenion cymhleth ar draws y rhanbarth a sicrhau y cytunir ar hyn yn lleol gyda phartneriaid.<br>- Rhannu data ac arfer dda â gwasanaethau cymdeithasol, darparwyr CP.<br>- Adnabod meysydd ar gyfer cydweithio â phartneriaid.<br>- Hyfforddi swyddogion rheng flaen ar sut i ymateb i gwsmeriaid sydd ag anghenion cymhleth a sicrhau bod y gwasanaethau cymorth cywir yn eu lle. | - Bydd anghenion cymhleth cwsmeriaid yn cael eu bodloni.<br>- Darparu gwybodaeth er mwyn gallu cynllunio gwasanaethau yn y dyfodol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Datblygu proses er mwyn rheoli llety gwely a brecwast mewn ffordd fwy effeithiol er mwyn sicrhau bod cwsmeriaid mewn cartrefi cynaliadwy cyn gynted â phosibl a bod gwariant a niferoedd yn cael eu cofnodi'n gywir. | - Datblygu prosesau a phrotocolau mewn perthynas â rheoli Gwely a Brecwast yn fwy effeithiol. | - Cyfraniad bach gan y cwsmeriaid fesul noson er mwyn cyfrannu ar gostau parhaus gwely a brecwast.<br>- Penderfyniadau cyflymach ar ddigartrefedd<br>- Lleihau costau Gwely a Brecwast blynyddol yn gyffredinol.<br>- Ystyried arloesedd ar gyfer datrysiadau llety dros dro<br>- Cynyddu cymorth ac arweiniad gan Shelter<br>- Grŵp Ffocws gydag unigolion sydd wedi eu rhoi mewn llety dros dro ar sut mae sefydliadau gwely a brecwast wedi effeithio ar eu bywydau a sut gellir gwella hyn. | - Llai o gostau<br>- Cwsmeriaid digartref yn adrodd eu bod yn teimlo'n well gyda ffocws mwy tymor hir<br>- Gwell bodlonrwydd cwsmer o ganlyniad i benderfyniadau cyflymach sy'n creu daliadaeth fwy parhaol (preifat neu awdurdod lleol),<br>- Cael dewis mwy addas ar gyfer llety argyfwng ar gyfer y rhai hynny sy'n camu i lawr o'r gwasanaethau statudol megis iechyd meddwl. |
| Llwybr Iechyd Meddwl | - Gweithredu'r Llwybr Iechyd Meddwl | - Penodi Asesydd Iechyd Meddwl<br>- Trefnu hyfforddiant i staff ar ddelio â materion Iechyd Meddwl<br>- Gweithio gyda'r Gwasanaeth Iechyd ac asiantaethau allweddol eraill ar y Llwybr Iechyd Meddwl | - Cynyddu gwybodaeth a sgiliau staff mewn perthynas â materion Iechyd Meddwl<br>- Gwell canlyniadau i gwsmeriaid sydd â phroblemau Iechyd Meddwl. |



## 5 Monitro a Gwerthuso

**ATODIAD 2a**

**Sut mae cwsmeriaid yn adrodd yn ôl ac yn dylanwadu ar y gwasanaeth?**

Mewn partneriaeth â Digartref Cyf, mae'r Gwasanaeth Tai wedi datblygu Fforwm Atal Digartrefedd ar gyfer Defnyddwyr Gwasanaeth. Grŵp o bobl ifanc sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu wedi defnyddio'r gwasanaeth yn y gorffennol yw hwn ac maent yn cynorthwyo i ddylanwadu ar wella a datblygu'r gwasanaeth. Cawsant eu cydnabod yng Ngwobrau Cyfranogi TPAS Cymru 2017 drwy ennill yr ail wobr yn y categori gwella gwasanaethau. Maent yn grŵp gweithgar, brwdfrydig ac ymgysylltiedig.

Nod gyffredinol y Fforwm Atal Digartrefedd Defnyddwyr Gwasanaeth yw galluogi pobl ifanc i weithio mewn partneriaeth â fforwm Atal Digartrefedd Ynys Môn er mwyn atal digartrefedd yn Ynys Môn.

Nod y Fforwm Atal Digartrefedd Defnyddwyr Gwasanaeth yw:

- Sicrhau bod pobl ifanc yn cael cyfle i rannu gwybodaeth, syniadau ac arfer dda ynglŷn â materion yn ymwneud â digartrefedd ac atal digartrefedd.
- Hyrwyddo cydweithio effeithiol rhwng defnyddwyr gwasanaeth, darparwyr gwasanaeth, rhanddeiliaid, sefydliadau, cyrff statudol a phartïon â diddordeb, er mwyn datblygu dull o daclo digartrefedd sydd yn gydlynus ac yn gydgysylltiedig.
- Datblygu cynllun gweithredu'r Strategaeth Ddigartrefedd.
- Cyfrannu'n ymarferol at y gwaith o adolygu Strategaeth a Chynllun Gweithredu Digartrefedd Ynys Môn.

Rhestrir rhai o'u cyflawniadau yma;

**Cynorthwyo i sefydlu prosiect datblygu tai arloesol**

Cam gweithredu 4 yn y cynllun gweithredu digartrefedd dros dro: Archwilio opsiynau i hyrwyddo rhannu llety, yn arbennig ar gyfer pobl sengl dan 35 oed, mewn ymateb i newidiadau mewn budd-daliadau sy'n cyfyngu costau tai i gyfradd llety wedi ei rannu

- Lluniwyd holiadur opsiynau tai ar gyfer pobl dan 35 oed – cafodd ei gynllunio i gynorthwyo'r Cyngor i ddeall anghenion tai pobl ifanc.
- Cefnogi cais am 4 uned fodwlar hunangynhaliol yng Nghaergybi ar gyfer pobl ifanc (dan 35 oed) sy'n cynnig cyfle iddynt ddysgu sgiliau byw'n annibynnol cyn symud i lety parhaol mwy o faint - Grant Tai Arloesol Llywodraeth Cymru.
- Cyfweld penseiri
- Cefnogi digwyddiadau ymgynghori

**Cynorthwyo i ddatblygu strategaeth ddigartrefedd dros dro a monitro cynnydd yn chwarterol.**

Dywedodd aelodau'r fforwm eu bod yn teimlo eu bod yn helpu i ddylanwadu ar wasanaethau, gan wneud y sylwadau a ganlyn;

*"Mae'n gwneud i mi deimlo fy mod i wedi gwneud rhywbeth da pan fyddaf yn clywed eu bod wedi gwrando ar beth ydw i wedi'i ddweud!".*
*"Os na fyddem yn dweud wrthynt beth ydym yn ei feddwl, fydden nhw ddim yn gwybod beth sydd ei angen"*

**ATODIAD 2a**

*"Mae hwn wedi bod yn brofiad ardderchog i mi, rydw i wedi dysgu gymaint. Doeddwn i ddim yn meddwl y byddai'r Cyngor yn gwrando."*

Fel rhan o'r adolygiad cynhaliwyd grŵp ffocws gyda 12 aelod o'r Fforwm Atal Digartrefedd Defnyddwyr Gwasanaeth. Rhoddir eu hadborth isod.

**Fforwm Atal Digartrefedd Defnyddwyr Gwasanaeth**

Roedd 16 aelod yn bresennol

**Barn am y gwasanaethau canlynol:**

Lighthouse

- Wedi clywed am y gwasanaeth gan aelod o staff yn y Ganolfan Waith
- Gwasanaeth Ardderchog:
  - Mae'n eich cyfeirio at wasanaethau eraill sy'n gallu helpu.
  - Rhywle i fynd yn ystod y dydd; cael bwyd, cael defnyddio'r gawod
- Gellid gwella eu gwasanaeth drwy gynnig gweithgareddau yn ystod y dydd.
- Cefnogol iawn.

The Wallich

- Cynnig gwasanaethau da i gefnogi tenantiaeth.
- Cymorth ardderchog i ddod o hyd i lety.

Y Cyngor

- Roedd rhaid brwydro am gefnogaeth am nad oeddent yn gwybod sut i ddelio gyda chwsmer â phroblemau iechyd meddwl.
- Roeddwn mewn llety gwely a brecwast am wythnosau, a phan gysylltais â'r Cyngor doeddwn i ddim ar y system.
- Cefais allweddi tŷ newydd (yn Llangefni) a gofynnwyd i mi adael y llety Gwely a Brecwast (yn Felinheli) o fewn oriau, ond doedd gen i ddim cludiant.
- Dydyn nhw ddim yn siarad gydag adrannau mewnol (gwasanaethau cymdeithasol, budd-dal tai)
- Wnân nhw ddim fy helpu am nad oes gen i gysylltiad lleol - bydd rhaid i mi adael yr hostel ym mis Mai am fy mod yn 25.
- Cynnig gwasanaeth da ond does dim digon o lety Gwely a Brecwast ar eich cyfer.
- Gallu bod yn nawddoglyd ar y ffôn ac mae'n cymryd amser hir i gyrraedd yr adran gywir.
- Angen mwy o lety un ystafell wely.
- Ni chefais gefnogaeth gan y Cyngor – mae angen iddynt wella eu dulliau cyfathrebu.
- Anodd cael mynediad at wasanaethau os nad oes gennych gludiant i Langefni.
- Mae ffurflenni cais tai yn hir ac yn anodd eu deall.

**ATODIAD 2a**

Landlordiaid Preifat

- Nid yw'r sector preifat yn fforddiadwy.
- Llety wedi ei rannu yw'r unig opsiwn fforddiadwy ond nid yw landlordiaid preifat yn cynnig hyn.
- Dydyn nhw ddim eisiau pobl ifanc sy'n derbyn Budd-dal Tai.

Shelter Cymru

- Roeddwn i'n ddigartref am fisoedd ond rhoddais fy hun yn y carchar am fy mod yn gwybod y byddwn yn cael help i ddod o hyd i lety pan fyddwn yn cael fy rhyddhau. Daeth Shelter Cymru o hyd i lety i mi.

Digartref

- Cynnig gwasanaeth ardderchog; annog hyfforddiant, help gyda CV.
- Dim argymhellion ar gyfer gwella.

Cynhaliwyd grŵp Defnyddwyr Gwasanaeth ar gyfer Cefnogaeth Tai hefyd, ac roedd nifer dda o ddefnyddwyr gwasanaeth yn bresennol, yn cynrychioli amrywiaeth o wahanol denantiaethau. Cafwyd cyflwyniad gan yr Adran Waith a Phensiynau ar y Credyd Cynhwysol a diwygio lles ac roedd yn gyfle hefyd i'r Adran Waith a Phensiynau egluro'r adolygiad digartrefedd. Roedd y cyfarfod wedi ei drefnu'n dda a gofynnodd y rhai oedd yn bresennol gwestiynau am faterion a godwyd yn ystod y fforwm. Yn ystod yr adolygiad hwn, roedd tystiolaeth glir fod gan y Cyngor rwydwaith defnyddwyr gwasanaeth sydd wedi datblygu'n dda y mae'n ei ddefnyddio'n effeithiol i gynnwys defnyddwyr gwasanaeth a gwella gwasanaethau, a derbyn adborth gwerthfawr gan ddefnyddwyr.

**Fforwm Digartrefedd**

Mae'r Cyngor yn cynnal y Fforwm Digartrefedd sy'n cynnwys swyddogion y cyngor a phartneriaid, ar lefel ymarferwyr yn bennaf. Maent yn cyfarfod i drafod materion megis:

- Digartrefedd ledled Ynys Môn a materion penodol
- Y strategaeth ddigartrefedd
- Mentrau newydd

Gyda'r Fforwm Digartrefedd, trafodwyd pa mor effeithiol oedd y grŵp ac a oes angen gwneud unrhyw welliannau. Roedd y cyfranogwyr yn cydnabod fod Fforwm Digartrefedd yn hanfodol ar gyfer cydweithio.

**Canlyniadau Arolwg Ar-lein**

Yn ystod yr adolygiad cynhaliodd y cyngor arolwg ar-lein er mwyn i gwsmeriaid roi eu hadborth ynglŷn â'u barn ynglŷn â sut mae'r Cyngor yn delio gyda digartrefedd neu'r bygythiad o ddigartrefedd. Cynhaliwyd yr arolwg am gyfnod o bedair wythnos ym mis Ebrill ac ymatebodd cyfanswm o 38 o bobl. Rhoddir crynodeb o'u hymatebion isod, ac mae canlyniadau llawn yr arolwg ynghlwm yn Atodiad 3.

Cwestiynau ac ymatebion yr arolwg:

**Q1. Ydych chi wedi defnyddio'r gwasanaeth digartrefedd yn ystod y 12 mis diwethaf?**

Dywedodd 60% o gwsmeriaid eu bod wedi defnyddio'r gwasanaeth yn ystod y 12 mis diwethaf

**Q2. Pa mor hawdd oedd cysylltu â'r gwasanaeth digartrefedd?**

Dywedodd 64% o ymatebwyr ei bod yn hawdd neu'n hawdd iawn cysylltu â'r gwasanaeth digartrefedd

**Q3. Sut wnaethoch chi gysylltu â'r gwasanaeth Digartrefedd?**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | Ffôn | 58.6% | 17 |
| 2 | Ymweld â'r swyddfa | 55.2% | 16 |
| 3 | Ciosg | 3.4% | 1 |
| 4 | E-bost | 6.9% | 2 |
| 5 | Arall | 17.2% | 5 |
| 6 | Sylwadau: | 0.0% | 0 |

**Q.4 Pa mor fodlon oeddech chi gyda pha mor aml y cawsoch wybod am sut roedd eich achos yn datblygu?**

Roedd 58% o gwsmeriaid yn fodlon neu'n fodlon iawn gyda'r wybodaeth reolaidd a roddwyd iddynt am sut roedd eu hachos yn datblygu.

**Q5. Pa mor fodlon oeddech chi gyda'r gefnogaeth a'r cyngor a gawsoch gan y tîm digartrefedd?**

Roedd 67% o gwsmeriaid yn fodlon neu'n fodlon iawn gyda'r gefnogaeth neu'r cyngor a roddwyd gan y tîm digartrefedd

**Q6. Gawsoch chi'r ateb oedd ei angen arnoch?**

Atebodd 70% o gwsmeriaid 'do'

**Cyflwynodd rhai o'r cwsmeriaid a ddywedodd 'na' y sylwadau canlynol (C7)**

"Roedd rhaid i mi aros am amser hir pan oeddwn i'n 17 oed, roedd rhaid i mi gysgu ar soffas mewn nifer o wahanol dai pan oeddwn i'n feichiog"

"Cymerodd dri mis i mi gael llety mewn lle diogel yn agos at fy mherthnasau, ac oherwydd hynny dirywiodd fy iechyd meddwl, ond fe wnaethon nhw eu gorau"

"Rydw i dal yn ddigartref chwe mis ar ôl gofyn am help!!"

**Q8. Yn gyffredinol, beth oedd eich barn am eich profiad?**

Roedd 64% o ymatebwyr yn fodlon neu'n fodlon iawn gyda'u profiad

**Q9. Dywedwch wrthym beth ydych chi'n feddwl allai'r gwasanaeth digartrefedd ei wneud yn well?**

**ATODIAD 2a**

*"Maen nhw'n gwneud gwaith da hyd yn hyn"*
*"Argaeledd apwyntiadau"*
*"Gweithredu'n gynt"*
*"Bod yn fwy hygyrch, yn arbennig dros y ffôn neu os ydych yn galw yn y swyddfa"*
*"Dim llawer o help o gwbl, anodd iawn cysylltu â phobl, amser aros yn hurt"*

Mae sgorau'r gwasanaeth a ddarparwyd gan y gwasanaeth Opsiynau Tai yn gadarnhaol yn gyffredinol, fodd bynnag, mae amser aros yn thema sy'n codi'n aml. Rhagwelir y bydd y model newydd fydd yn cael ei lansio ym mis Ebrill 2018 yn delio gyda'r mater hwn.

**Arolwg Ffôn**

Cynhaliodd PDW arolwg ffôn, gan gysylltu â 40 cwsmer a derbyniwyd ymatebion gan 19 o gwsmeriaid. Mae'r isod yn grynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd;

Beth yw'r rheswm eich bod yn ddigartref?

| | |
|---|---|
| Cael fy nhroi allan gan rieni/ffrindiau/teulu | 3 |
| Perthynas yn chwalu | 2 |
| Camdriniaeth ddomestig | 4 |
| Cael fy nhroi allan gan gymdeithas dai | |
| Cael fy nhroi allan gan y sector landlordiaid preifat | 5 |
| Gadael y Fyddin | |
| Gadael Carchar | 2 |
| Arall | 3<br>· Cam-drin cyffuriau<br>· Rhiant anabl yn cael ei ailgartrefu ac roedd rhaid i'r ferch oedd yn feichiog adael y cartref cyn y gallai hynny ddigwydd<br>· Ymddygiad gwrthgymdeithasol cymdogion wedi eu gorfodi i adael y cartref |

Pa sefydliadau eraill wnaethoch chi fynd atynt neu y cawsoch eich cyfeirio atynt?

| | |
|---|---|
| Shelter | 5 |
| CAB | 4 |
| Cyfreithiwr | |
| AS | 1 |
| Arall | |

Pa mor hawdd oedd cysylltu â'r gwasanaeth Opsiynau Tai?

- Dywedodd 83% o gwsmeriaid ei bod yn hawdd neu'n hawdd iawn cysylltu ag Opsiynau Tai

Sut wnaethoch chi gysylltu â'r gwasanaeth Opsiynau Tai?
- Roedd 6 cwsmer wedi ffonio'r gwasanaeth
- Roedd 17 wedi ymweld â swyddfa Llangefni

Oedd staff Opsiynau Tai yn wybodus am eich amgylchiadau?

- Cadarnhaodd 89% o gwsmeriaid fod staff Opsiynau Tai yn wybodus

Oedd staff yn gymwynasgar ac yn sympathetig?

- Roedd 50% yn cadarnhau hynny
  *'Nid oedd y staff yn gymwynasgar ac roeddent yn nawddoglyd, teimlais fy mod wedi cael fy mychanu a fy sarhau'*

Pa mor fodlon oeddech chi gydag ansawdd y gwasanaeth a gawsoch gan y gwasanaeth Opsiynau Tai?

- Dywedodd 62% o gwsmeriaid eu bod yn fodlon neu'n fodlon iawn gydag ansawdd y gwasanaeth
  *'er ei bod wedi cymryd dipyn o amser i ddod o hyd i dŷ, roedd werth aros amdano'*

Pa mor fodlon oeddech chi gyda'r cyngor a gawsoch gan y tîm Opsiynau Tai?

- Roedd 54% o gwsmeriaid yn fodlon neu'n fodlon iawn gyda'r cyngor a roddwyd
  *'roedd staff yn gymwynasgar iawn'*

**Atal Digartrefedd**

A fyddai'r gwasanaeth wedi gallu eich atal rhag bod yn ddigartref?

- Roedd 80% yn teimlo y gallai'r gwasanaeth fod wedi eu hatal rhag bod yn ddigartref
  *'Ni chynigiwyd unrhyw gyngor na chefnogaeth i mi fel un oedd yn dioddef camdriniaeth ddomestig'*

  *'Byddai'r Cyngor wedi gallu cynnig mwy o help a chefnogaeth i mi yn ystod y 2 fis yn arwain at gyflwyno'r gorchymyn troi allan'*

**Gawsoch chi'r ateb oedd ei angen arnoch?**

- Dywedodd 67% o gwsmeriaid eu bod wedi derbyn yr help yr oeddent ei angen
  *'roedd y swyddog yn arbennig o gymwynasgar wrth ddelio gyda'r achos hwn oedd yn un anodd iawn'*

Pa mor fodlon oeddech chi gyda pha mor aml y cawsoch wybod am sut roedd eich achos yn datblygu?

- Roedd 50% o gwsmeriaid yn fodlon gyda pha mor aml yr oeddent yn derbyn gwybodaeth am eu hachos

**Llety Gwely a Brecwast**

Gawsoch chi eich rhoi mewn llety gwely a brecwast?

- Dywedodd 4 cwsmer eu bod wedi cael eu rhoi mewn llety gwely a brecwast, ac roedd 60% ohonynt yn fodlon neu'n fodlon iawn gyda'r safon
  *'Roedd y llety gwely a brecwast yn iawn, doedd y lleoliad ddim yn addas ond roedd y lle ei hun yn neis'*

**ATODIAD 2a**

**Llety Dros Dro**

Gawsoch chi eich rhoi mewn llety dros dro?

- Cafodd 2 eu rhoi mewn llety dros dro ac roedd 100% yn fodlon gyda'r safon
  *'Yn y diwedd, daeth y llety dros dro yn gartref newydd i mi'*

**Gawsoch chi unrhyw gefnogaeth yn ystod eich cyfnod mewn llety dros dro?**

- **Derbyniodd 36% o gwsmeriaid gymorth tra'r oeddent mewn llety dros dro**
  Beth oedd eich barn am y gefnogaeth a gawsoch?

- Dywedodd 70% o gwsmeriaid eu bod yn fodlon neu'n fodlon iawn gyda'r gefnogaeth gyffredinol a roddwyd iddynt
  *Derbyniais y cynnig o gwnsela er mwyn ymdopi â straen a phwysau bod yn ddigartref. Cefais gynnig lle i storio fy eiddo a derbyniais y cynnig'*

Yn gyffredinol, beth yw eich barn am eich profiad?

- Roedd 66% o gwsmeriaid yn fodlon neu'n fodlon iawn gyda'u profiad
  *'Er na chefais fy rhoi mewn llety dros dro cefais gynnig cefnogaeth gan y Cyngor, oes oeddwn ei angen'*

**Gwella gwasanaethau – beth ellid ei wneud i wella gwasanaethau Opsiynau Tai?**
*'Rhaid cyfathrebu'n fwy aml, hyd yn oed os nad oes unrhyw newid yn yr achos, dim ond er mwyn i bobl wybod eu bod dal yn y system'*

*'Cyfathrebiadau dilyn i fyny, ni wnaeth neb gysylltu â mi er mwyn rhoi gwybodaeth am sut oedd pethau'n datblygu, roedd rhaid i mi ffonio'r Cyngor i drefnu cyfarfodydd dilyn i fyny ar ôl i mi gael fy rhoi mewn llety'*

*'Mae angen mwy o lety ar gyfer pobl ddigartref yn Ynys Môn, yn arbennig teuluoedd mawr, mae gan y ddynes hon 6 o blant'*

*'Cysylltwch â phobl yn fwy aml i ddweud wrthynt am ddatblygiadau, neu atebwch e-byst'*
Mae'r canlyniadau llawn wedi eu cynnwys yn Atodiad 4

I grynhoi, o safbwynt mynediad i'r gwasanaeth, daethom ar draws y canlynol;

- Mae siarter Gofal Cwsmer mewn lle ar gyfer y Gwasanaeth Tai, sy'n cynnwys y Gwasanaeth Opsiynau Tai
- Mae taflen wybodaeth ar gyfer cwsmeriaid, sy'n cynnwys gwybodaeth am y Sector Rhentu Preifat, Tai Cymdeithasol a manylion cyswllt

- Mae taflen wybodaeth un pwynt mynediad ar gyfer cwsmeriaid sy'n esbonio beth yw cefnogaeth yn gysylltiedig â thai, sut i gysylltu â'r gwasanaeth, sut mae cwsmeriaid yn cael eu cyfeirio a sut i gael eu cynnwys yn y gwasanaeth
- Mae'r wefan yn darparu gwybodaeth i gwsmeriaid am ddigartrefedd ac atal digartrefedd, cyngor am ddigartrefedd, dyledion tai a phroblemau ariannol, troi allan a'r gwasanaeth cysgu allan, rhaglen cefnogi pobl
- Mae'r cyngor yn cwrdd â nifer o ofynion Safon Tir Cyfartal Shelter Cymru

Mae nifer o gryfderau ar draws y gwasanaeth;

- Mae'n galonogol bod gan y Gwasanaeth Tai siarter gofal cwsmer, fodd bynnag nid yw ei berfformiad yn cael ei fonitro ar hyn o bryd
- Mae elfennau cadarn o brif-ffrydio'r gwasanaeth o fewn y Gwasanaeth Tai gyda'r tîm Gofal Cwsmer yn cynnal ac yn cwblhau asesiadau cysylltiad cyntaf gyda chwsmeriaid
- Mae'r staff sy'n gweithio yn y tîm Opsiynau Tai a'r holl gydweithwyr yn y Gwasanaeth Tai sy'n cynorthwyo cwsmeriaid digartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref yn frwdfrydig ac yn angerddol dros helpu cwsmeriaid
- Roedd yn glir, yn ystod y gwaith arsylwi, grwpiau ffocws a phrofi'r gwasanaeth fod y cwsmer yn bwysig o fewn y gwasanaeth

**<u>Sesiwn Ymgysylltu Strategaeth Ddigartrefedd Rhanbarthol - Digartref 24/10/18</u>**

Sesiwn anffurfiol - 2pm.

7 defnyddiwr gwasanaeth, 1 aelod o staff Digartref, 1 aelod o staff Medrwn Môn, 3 aelod o staff Cyngor Sir Ynys Môn.

Mae'r Strategaeth Atal Digartrefedd yn cynnwys tair them allweddol - Pobl, Cartrefi a Gwasanaethau. *Roedd y sesiwn yn cynnwys themâu ehangach yn ymwneud â Gwasanaethau Digartrefedd o fewn Cyngor Sir Ynys Môn a'r gefnogaeth sydd ar gael gan bartneriaid, ac nid oeddent yn canolbwyntio'n gyfan gwbl ar y Strategaeth Ddigartrefedd Ranbarthol*

Mae'r nodiadau o'r sesiwn wedi rhannu'r drafodaeth yn 3 phrif bwnc:

1. Cyfathrebu â Chyngor Ynys Môn
2. Cefnogaeth mewn tenantiaeth (gwasanaethau blaenorol / cyfredol)
3. Unrhyw gefnogaeth bellach (awgrymiadau ar gyfer y dyfodol)

Prif negeseuon:

1. Cyfathrebu â Chyngor Ynys Môn- gofynnwyd i'r grŵp am unrhyw feddwl neu deimlad (cadarnhaol neu negyddol) ar unrhyw gyfathrebu oedd ganddynt gyda Chyngor Ynys Môn.
   - Mae yn anodd cael mynediad i wasanaethau a gall gwasanaeth cefnogi gael eu arwyddbostio yn gynt
   - Gan nad oes Gwasanaethau Tai Facebook a Trydar teimlwyd ei fod yn cynnig cyfathrebu wedi ei gyfyngu
   - Gall llythyrau Budd dal Tai yn anodd ei deall
   - Efallai na all y Cyngor helpu ond gallai arwyddbostio i wasanaeth cefnogaeth ddigwydd
   - Mwy o wybodaeth / posteri ei angen i roi gwybodaeth

2. Cefnogaeth mewn tenantiaeth (gwasanaethau blaenorol / cyfredol)
   - Cefnogaeth ar wasgar yn bwysig iawn
   - Cydnabod bod cael mynediad i wasanaeth ar wasgar yn anodd gan fod yna restr aros
   - Cyngor yn defnyddio Gwely a Brecwast fel opsiwn olaf

3.Unrhyw gefnogaeth bellach (awgrymiadau ar gyfer y dyfodol)

- Defnyddio adeiladau gwag fel eiddo dros dro
- Café GISDA yn syniad da
- Grwp wedi mwynhau cyfrannu tuag at Wasnaeth Diagartrefedd – fideo ar fod yn ddigartref / adolygu taflennu

ATODIAD 3

# Cyngor Sir Ynys Môn - **Templed ar gyfer Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb**

| **Hanes adolygu:** | | |
|---|---|---|
| **Fersiwn** | **Dyddiad** | **Crynodeb o'r newidiadau** |
| V0.1 | 31.10.18 | |
| | | |
| | | |

| **Cam 1: Y Cefndir** | |
|---|---|
| **1 - Beth sy'n cael ei asesu?** | Strategaeth Rhanbarthol Diagrtrefedd |
| **2 - Ydy'r cynnig yma'n un newydd neu un sy'n bodoli eisoes?** | Bodoli eisoes |
| **3 - Beth yw nodau a phwrpas y cynnig yma?** | Cydweithio er mwyn helpu pobl sydd yn ddigartref neu rhag bod yn ddigartref |
| **4 - Pwy sydd yn gyfrifol am y cynnig sy'n cael ei asesu?** | Gwasanaethau Tai |
| **5 - Pwy yw'r swyddog arweiniol ar gyfer cynnal yr asesiad yma?** | Rheolwr Strategol, Comisiynu a Pholisi Tai |

ATODIAD 3

| **Cam 1: Y Cefndir** | |
|---|---|
| **6 - Pwy arall sy'n cymryd rhan yn yr asesiad yma?** | Swyddogion Tai |
| **7 - Oes yna gyswllt rhwng y cynnig yma a meysydd gwaith eraill?**<br><br>Er enghraifft, oes una unrhyw gynigion neu bolisiau eraill y dylid eu cymryd ystyriaeth wrth asesu'r effaith? | Mae Cefnogi Pobl yn rhan allweddol ar gyfer rhoi cefnogaeth ar gyfer pobl sydd dan fygythiad o ddigartrefedd.<br>Polisi Gosod Cyffredin yn rhoi blaenoriaeth i geisiadau sydd wedi eu hasesu i fod yn ddigartref |
| **8 - Pwy fyddai'n cael eu heffeithio gan y cynnig/ion (yn negyddol neu'n gadarnhaol, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol)?** | Bob person all fod dan fygythiad o ddigartrefedd |



| **9 - Ydy'r cynnig yn berthnasol i sut mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â dyletswydd cyffredinol y sector gyhoeddus mewn perthynas â phobl sy'n cael eu gwarchod gan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010?** | **Ydy'** | **Nac ydy'** |
|---|---|---|
| **Dileu gwahaniaethu ac aflonyddu** | **x** | |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | **x** | |
| **Meithrin perthynas dda** | **x** | |
| **Diogelu a hyrwyddo hawliau dynol** | **x** | |
| Noder: Fel rheol, mae unrhyw cynnig sy'n cael effaith ar bobl yn debygol o fod yn berthnasol ar draws pob grwp a warchodir. | | |

| **Cam 2: Casglu gwybodaeth** | |
|---|---|
| **10 - A yw'r cynnig yma'n sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn unol â Pholisi Iaith Gymraeg y Cyngor Sir?** | **ydi** |
| **11 - Oes cyfle yma i gynnig mwy o gyfleoedd i bobl ddysgu a / neu ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd?** | **ydi** |
| **12 – A fydd y maes gwaith hwn yn gwneud cynnig rhagweithiol i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg i ddefnyddwyr?** | **bydd** |
| **13 – A fydd y cynnig hwn yn debygol o warchod a hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y gymuned?** | **bydd** |
| Mae **Atodiad 1** i'r Canllawiau Asesu Effaith yn rhestru cyfres o gwestiynau y dylid eu hystyried wrth edrych sut bydd cynigion yn effeithio ar yr iaith Gymraeg yn gyffredinol. Bydd y graddau mae'r cwestiynau hyn yn berthnasol yn dibynnu ar y cynnig dan sylw. Y bwriad yw gwneud i chi feddwl am effaith neu gyfraniad ehangach posibl ac mae modd eu defnyddio fel sail ar gyfer ystyried cwestiynau 10 - 13 uchod.<br><br>Fodd bynnag, wrth edrych ar sut fyddai **prif** bolisïau a strategaethau'r Cyngor yn effeithio ar y Gymraeg, argymhellir y dylid ystyried y cwestiynau hyn yn fwy manwl er mwyn cynnal asesiad cynhwysfawr – **mae templed ar wahân ar gael gyda'r papurau hyn ar MonITor, i chi gwblhau os fyddai hynny'n briodol.** | |
| **14 - Oes yna unrhyw faterion sydd angen ystyriaeth o ran Hawliau Dynol? Os oes, beth yw'r materion yma?**<br>(Er enghraifft, a fyddai'r cynnig yn arwain at fethu a diogelu'r hawl i breifatrwydd?)<br><br>(Mae'r 16 hawl sylfaenol wedi'u rhestru yn Atodiad 1). | **Nac oes** |

<table>
<tr><th colspan="3">Cam 2: Casglu gwybodaeth</th></tr>
<tr><td rowspan="7">15 - Ydi cynnig yn cyflawni unrhyw rai o’r saith nod llesiant cenedlaethol a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015?<br><br>(Mae disgrifiadau o’r nodau llesiant wedi’u rhestru yn Atodiad 2)</td><td>Cymru lewyrchus</td><td></td></tr>
<tr><td>Cymru gydnerth</td><td>x</td></tr>
<tr><td>Cymru iachach</td><td>x</td></tr>
<tr><td>Cymru sy’n fwy cyfartal</td><td>x</td></tr>
<tr><td>Cymru o gymunedau cydlynus</td><td>x</td></tr>
<tr><td>Cymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu</td><td>x</td></tr>
<tr><td>Cymru sy’n gyfrifol ar lefel fyd-eang</td><td></td></tr>
<tr><td>16 - Beth sydd wedi cael ei wneud hyd yn hyn o ran cyfranogiad ac ymgynghoriad mewn perthynas â’r cynnig yma?</td><td colspan="2">Mae holiaduron wedi eu dosbarthu a grwp o denantiaid wedi cyd weithio i lunio y Strategaeth</td></tr>
<tr><td>17 – Ydych chi wedi defnyddio unrhyw wybodaeth arall sy’n berthnasol i’r cynnig fel rhan o’ch asesiad? Os hynny, rhowch y manylion yma ogydda.</td><td colspan="2">na</td></tr>
<tr><td>18 - Oes yna unrhyw fylchau yn y wybodaeth a gasglwyd hyd yma?<br>Os oes, sut fydd y rhain yn cael sylw?</td><td colspan="2">na</td></tr>
</table>

## Cam 3: Asesu’r effaith debygol ac adnabod camau lliniaru

**19 - Nodwch isod unrhyw effaith debygol o safbwynt cydraddoldeb ar y grwpiau unigol, ynghyd ag adnabod pa gamau gellir eu cymryd i leihau neu wella’r effeithiau yma.**
*Er mwyn penderfynu natur yr effaith debygol, dewisiwch un o’r canlynol os gwelwch yn dda – **Negyddol / Cadarnhaol / Dim effaith**

| Y grwp a warchodir | *Yr effaith debygol | Manylion am yr effaith | Camau i liniaru effaith negyddol |
|---|---|---|---|
| **Oed** | **Dim effaith** | | |
| **Anabledd** | **Dim effaith** | | |
| **Rhyw** | **Dim effaith** | | |
| **Newid Rhyw** | **Dim effaith** | | |
| **Beichiogrwydd a Mamolaeth** | **Dim effaith** | | |
| **Hil / Ethnigrwydd / Cenedligrwydd** | **Dim effaith** | | |
| **Crefydd neu Gred** | **Dim effaith** | | |
| **Cyfeiriadedd Rhywiol** | **Dim effaith** | | |
| **Yr iaith Gymraeg** | **Dim effaith** | | |
| **Hawliau Dynol** | **Dim effaith** | | |
| **Priodas neu bartneriaeth sifil** | **Dim effaith** | | |
| **Unrhyw fater arall perthnasol, ee tlodi, mynediad at wasanaethau mewn ardaloedd gwledig** | **positif** | **Ceisio cynorthwyo pobl i aros o fewn eu cymuned** | |

Tudalen 59

| Cam 4: Canlyniad yr asesiad | |
|---|---|
| **20 - Nodwch y prif effeithiau sydd wedi cael eu hadnabod a sut y bwriedir lliniaru’r effeithiau negyddol** (sef crynodeb o’r tabl uchod). | dim |

| Cam 4: Canlyniad yr asesiad | |
|---|---|
| | |
| **21 – Oes yna strategaeth ar gyfer delio gydag unrhyw effeithiau sydd ddim yn anghyfreithlon ond nid oes modd eu hosgoi nag eu lliniaru?** | |
| **22 - Disgrifiwch unrhyw weithredu a wnaed neu a fwriedir i wneud y mwyaf o'r cyfle i hyrwyddo cydraddoldeb a/neu nodau'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (cynaliadwyedd).**<br>**(**Rhestrir y saith nod llesiant yn Atodiad 2) | |
| **23 - A oes angen ail-ystyried y cynnig o ganlyniad i gynnal yr asesiad yma?**<br><br>(Gallai tystiolaeth o effaith negyddol wneud y cynnig yn anghyfreithlon. Os rydych chi wedi adnabod effaith negyddol, dylid ystyried os oes modd cario 'mlaen gyda'r cynnig ar yr adeg yma). | Na oes |
| **24 - A fydd y cynnig yn cael ei fabwysiadu / anfon ymlaen am gymeradwyaeth? Pwy fydd yn gwneud y penderfyniad?** | Bydd, Pwyllgor Gwaith |
| **25 - Oes yna drefniadau monitro mewn lle? Beth yw'r trefniadau hynny?** | Oes, Cynllun gwaith sydd yn cael ei fonitro |



## Cam 5 – Cynllun Gweithredu

**Rhowch fanylion yma am unrhyw weithrediadau sydd wedi'u cynllunio yn dilyn cwblhau'r asesiad. Dylid cynnwys unrhyw newidiadau a wnaed i leihau neu ddileu effaith negyddol tebygol neu wirioneddol, ynghyd ag unrhyw drefniadau i gasglu data neu wneud gwaith ymchwil pellach**

| Cyf | Gweithrediadau arfaethedig | Swyddog arweiniol | Amserlen |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |

## Atodiad 1 – Hawliau Dynol

Hawliau a rhyddid i bob unigolyn yw hawliau dynol, gwaeth beth yw eu cenedligrwydd nag eu dinasyddiaeth.  Mae yna 16 o hawliau sylfaenol yn y Ddeddf Hawliau Dynol - i gyd wedi'u cymryd o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.  At bwrpas y Ddeddf, fe gyfeirir atynt fel 'Hawliau'r Confensiwn'.  Fe'u rhestrir isod:

(Cyflwyniad yw Erthygl 1 – nid yw wedi'i ymgorffori yn y Ddeddf Hawliau Dynol)
Erthygl 2: Yr hawl i fywyd
Erthygl 3: Gwahardd artaith
Erthygl 4: Gwahardd caethwasiaeth a llafur gorfodol
Erthygl 5: Yr hawl i ryddid a diogelwch
Erthygl 6: Yr hawl i dreial teg
Erthygl 7: Dim cosb heb gyfraith
Erthygl 8: Hawl i barch at fywyd preifat a theuluol
Erthygl 9: Rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd
Erthygl 10: Rhyddid mynegiant
Erthygl 11: Rhyddid cymdeithasiad ac ymgynnull
Erthygl 12: Yr hawl i briodi
Erthygl 14: Gwahardd gwahaniaethu
Erthygl 1 o Brotocol 1: Diogelu eiddo
Erthygl 2 o Brotocol 1: Hawl i gael addysg
Erthygl 3 o Brotocol 1: Hawl i etholiadau rhydd
Erthygl 1 o Brotocol 13: Diddymu'r gosb eithaf

## Atodiad 2 – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae'r Ddeddf hon yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae angen i gyrff cyhoeddus wneud yn siŵr eu bod yn ystyried yr effaith a gaiff eu penderfyniadau ar bobl sy'n byw eu bywydau yng Nghymru yn y dyfodol. Mae'r ddeddf yn pennu saith o nodau llesiant:

| Nod | Disgrifiad o'r nod |
|---|---|
| **Cymru lewyrchus** | Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas. |
| **Cymru gydnerth** | Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd). |
| **Cymru iachach** | Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol. |
| **Cymru sy'n fwy cyfartal** | Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd). |
| **Cymru o gymunedau cydlynus** | Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da. |
| **Cymru â diwylliant bywiog le mae'r Gymraeg yn ffynnu** | Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden. |
| **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** | Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang. |

This page is intentionally left blank

# CYNGOR SIR YNYS MÔN
## Templed Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| **Dyddiad:** | 13 Tachwedd 2018 |
| **Pwnc:** | Adroddiad ADY a Chynhwysiad – Adroddiad sydd yn dangos cynnydd disgyblion drwy'r gwasanaeth sydd wedi dod i rym ers Medi 2017 |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Amlinelliad o'r Gwasanaeth ADY a Chynhwysiad newydd sydd wedi dod i rym ers Medi 2017 sydd yn dangos cynnydd disgyblion dros y flwyddyn ddiwethaf ym mhob gwasanaeth rydym yn ei gynnig o fewn y strategaeth, i sicrhau gwasanaeth effeithiol ac effeithlon i bartneriaeth Awdurdodau Addysg Cyngor Sir Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn. |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cynghorydd Gwilym O. Jones |
| **Aelod(au) Portfolio:** | Cynghorydd R Meirion Jones |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Arwyn Williams |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Einir Thomas<br>01286 679007<br>EinirThomas@gwynedd.llyw.cymru |
| **Aelodau lleol:** | Dim ward benodol |

**1 – Argymhelliad/ion**

Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio argymell cymeradwyo'r canlynol :-

1. Derbyn adroddiad manwl o gynnydd disgyblion o fewn y Gwasanaeth

**2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall**

Addysg a Sgiliau – Parhau i godi safonau addysg a sicrhau bod gan ein pobl ifanc y sgiliau ar gyfer cyflogaeth a hyfforddiant

**3 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

Beth yw cynnydd da?

Sut byddwch yn mynd ati i fonitro'r timau i sicrhau cynnydd gorau?

Pa gamau a fyddwch yn eu cymryd petai'r cynnydd yn annigonol?

Beth oedd llwyddiannau mwyaf y llynedd?

Beth yw'r heriau ar gyfer y flwyddyn nesaf?

**4 – Cefndir / Cyd-destun**

Gofynnwyd i'r Gwasanaeth adrodd ar gynnydd neu ddiffyg cynnydd pob gwasanaeth o fewn Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad.


Barn gryno – mae cynnydd pob gwasanaeth yn foddhaol neu dda

Adlewyrchir hyn yn y ceisiadau sydd yn dod i'r Panel Cymedroli Tymor gyda'r ceisiadau bron wedi eu haneru o gymharu gyda'r un cyfnod y llynedd.
Medi – Hydref 2017 = 31
Medi – Hydref 2018 = 18

Mae'r Gwasanaethau wedi cyflwyno adroddiad Gwasanaeth cryno yn canolbwyntio ar gynnydd – gweler Atodiad 1
Mae cynnydd yn cael ei fesur gan rhai gwasanaethau gyda phrofion diagnostig e.e. darllen a sillafu, tra mae eraill e.e. ymyrraeth gynnar yn ddibynnol ar farn ysgol.
***Noder ymhob graff dadansoddol 5 = Rhagorol ac 1 = Anfoddhaol/anhapus***


Mae ysgolion yn gallu gofyn am fynediad i'r Gwasanaethau trwy'r panel cymedroli a elwir yn Fforwm, mae hyn yn sicrhau tegwch, trylwydeb a chysondeb – nid yw'r Fforwm yn dyrannu arian e.e. oriau cymhorthydd.

Dyma drosolwg o geisiadau ysgolion Ynys Môn y llynedd -




O'r 381 o geisiadau derbyniwyd 348 i gael gwasanaeth sef 91% o'r ceisiadau; dengys hyn bod Cydlynwyr ysgolion Môn yn adnabod disgyblion addas ar gyfer mynediad i'r Gwasanaeth a hefyd er mor uchel oedd y ceisiadau mae'r Gwasanaeth wedi gallu gwireddu gwasanaeth i nifer uchel o geisiadau. Gwelir mai maes ADY Penodol (anawsterau llythrennedd a sillafu) a Chyfathrebu a Rhyngweithio (anhwylder iaith a sbectrwm awtistiaeth) y mae'r galw fwyaf gydag ymddygiad yn drydedd.

**ADY Penodol**
Gyda'r Gwasanaeth yma y gwelwyd y galw mwyaf a rhaid cofio yn y gorffennol nid oedd y Gwasanaeth yma ar gael ond trwy fynediad i unedau i oddeutu 36 disgybl. Mae'n faes eang i ddarparu o hyfforddiant ysgol gyfan i weithio gyda disgyblion unigol. Ceisiadau i weithio gydag un ai grŵp neu unigolion oedd y mwyafrif o geisiadau'r llynedd.




Fel y gwelir mai 70% o ddisgyblion Môn wedi cyrraedd meini prawf gadael y Gwasanaeth gyda sgorau safonedig dros 80.

Oherwydd y galw ar y gwasanaeth yma fe roddwyd cymhorthydd o ardal Arfon i gynorthwyo am gyfnod. Erbyn hyn mae'r galw wedi gostwng a hefyd mae hyfforddiant penodol Ysgol Dyslecsia Cyfeillgar wedi ei greu gan y Gwasanaeth Seicoleg - Gweler Atodiad 3 a fydd yn grymuso a sicrhau gwydnwch o fewn yr ysgolion ar gyfer y maes yma.

Barn gryno = DA

**Cyfathrebu a Rhyngweithio**


Unwaith yn rhagor mae'r Gwasanaeth hwn yn newydd i ysgolion Môn ac nid oes syndod fod galw ar y Gwasanaeth yma o gofio anawsterau gan y Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr i allu cynnig gwasanaeth therapyddion iaith ar yr ynys yn y gorffennol. Erbyn hyn mae gan y Gwasanaeth therapyddion iaith yn gweithio'n uniongyrchol i'r Gwasanaeth ac yn cynnig gwasanaeth integredig gyda'r Adran Iaith a Lleferydd, Betsi Cadwaladr.
Mae 102 o ddisgyblion Ynys Môn yn derbyn mewnbwn gan y Gwasanaeth Cyfathrebu a Rhyngweithio ar hyn o bryd. Mae'r ffigwr yn cynyddu bob mis - yn Ebrill eleni roedd 78 o blant yn derbyn cymorth felly mae'r nifer wedi cynyddu 21% dros y 6 mis diwethaf yn unig.

**Effeithiolrwydd y Gwasanaeth**

Rydym yn mesur effeithiolrwydd y gefnogaeth a gynigir gan y Gwasanaeth drwy ddefnyddio 'Therapy Outcome Measure' (TOMs). Mae TOMs yn ddull sy'n cael ei ddefnyddio'n eang gan weithwyr proffesiynol yn y maes iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg i fesur cynnydd plentyn.


**<u>Cynnydd Disgyblion sydd wedi derbyn mewnbwn Athrawon Arbenigol</u>**

Mae 56% o'r 102 plentyn sydd yn derbyn cymorth ym Môn ar hyn o bryd wedi derbyn mewnbwn gan Athrawon Arbenigol. Mae pob un o'r disgyblion hynny wedi gwneud cynnydd fel y dangosir yn y graff isod:





**<u>Cynnydd disgyblion sydd wedi derbyn mewnbwn Uwch Gymhorthydd/ Cymhorthydd Arbenigol</u>**

Mae 28% o'r 102 plentyn yn derbyn mewnbwn Uwch Gymhorthydd/Cymhorthydd Arbenigol. Mae pob un o'r disgyblion hynny hefyd wedi gwneud cynnydd fel a ganlyn:




**<u>Cynnydd disgyblion sydd wedi derbyn mewnbwn yn y Canolfannau Arbenigol</u>**

Mae 16% o'r 102 plentyn wedi derbyn mewnbwn yn y Canolfannau Arbenigol. Mae pob un o'r disgyblion hynny hefyd wedi gwneud cynnydd fel a ganlyn:





Gwelir felly bod y mwyafrif o ddisgyblion o fewn y tri math o ddarpariaeth wedi gwneud cynnydd da.
Mae ymateb ysgolion yn hynod gadarnhaol i'r Gwasanaeth newydd yma gyda 88% yn hapus neu hapus iawn gyda'r targedau a osodir i'r disgyblion gan y tîm i'r ysgolion.

Barn gryno = DA

**Ymddygiad ac Ymyrraeth Gynnar**


Ailstrwythurwyd y gwasanaeth yma ac erbyn hyn cynigir ymyrraeth gynnar gydag athrawes a chymhorthydd yn cynnig gwasanaeth ymgynghorol ac ataliol i ysgolion Môn.




Yn dilyn holiadur diwedd y flwyddyn academaidd gwelir bod 70% o'r ysgolion yn fodlon gyda'r gwasanaeth maent wedi ei dderbyn.
Gwelir llwyddiant y gwasanaeth yma gan na chyflwynwyd yr un cais i'r Panel Cymedroli ar sail ymddygiad ers mis Rhagfyr 2017.


**Canolfannau Llechan Lân CA2 - CA3**

- O ganlyniad i  agor lleoliadau penodedig a staff yn cwblhau rhaglen hyfforddiant cynhwysfawr mae safonau a chyfartaledd pob mesurydd cynnydd (Presenoldeb, Boxall, Lles emosiynol Disgybl, Lles Emosiynol Barn Rhiant) wedi codi 16%  i 77%.
- Mae presenoldeb pob dysgwr yn arbennig wedi codi 65% i sgôr cyfartalog o 96% sydd yn well na phresenoldeb gweddill dysgwyr yr Ynys (94.4%) a Chymru (93.8%)am yr un cyfnod.  Mae hyn yn gynnydd rhagorol sydd uwchlaw'r disgwyliadau.




**Pecyn 25 CA4**

- Mae pob dysgwr oedd yn mynychu Pecyn 25 ym Môn wedi ennill o leiaf un cymhwyster cyfwerth a TGAU Lefel 1 (A*-G) roedd hyn yn unol ag un o flaenoriaethau'r gwasanaeth.  Mae ychydig o'r disgyblion 11% wedi cyrraedd trothwy Lefel 1 (5 TGAU A*-G) sy'n ymhell uwchlaw'r disgwyliadau




- Mae digwyddiadau ymddygiadol dwys wedi lleihau yn sylweddol gyda 5 diwrnod o waharddiad ar draws Ynys Môn yn Pecyn 25, o'i gymharu â chyfartaledd o 16 diwrnod gan yr un dysgwr yn y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn dda iawn.
- Gellir gweld fod dylanwad strategaethau cynnal ymddygiad Pecyn 25 wedi codi safonau dysgwyr yn ôl data *Quality Assurance Framework for Pupils with ALN* lle mae dysgwyr  Blwyddyn 10 (T1 – T3)wedi gwneud cynnydd cyfartalog o 10% i

43% ar draws bob un agwedd yn ystod y flwyddyn a dysgwyr Blwyddyn 11 (T4 – T5) wedi gwneud cynnydd cyfartalog o 12% i 46%. Mae hyn yn ganlyniad cadarn iawn.


- Niferoedd dysgwyr Môn wedi bod yn sylweddol uwch (28 dysgwr) na'r hyn a oedd wedi ei broffilio yn wreiddiol (6 Ymddygiad a 6 Sâl) hyn wedi creu anawsterau mawr o ran cynnal dysgwyr. -


Mae'r tair darpariaeth hyn hefyd yn dangos llwyddiant gan fod 3 dysgwr oedd wedi eu lleoli mewn darpariaethau arbenigol allsirol wedi gallu gadael y darpariaethau hyn a chael eu cynnal yn llwyddiannus yn ysgolion Môn, sydd felly ond yn gadael un dysgwr ymddygiad yn allsiriol a rhagwelwn y bydd yn dychwelyd cyn y Pasg i ysgol ar yr ynys.

Barn gryno = BODDHAOL


**Gwasanaeth Lles**


Mae'r gwasanaeth yn cwmpasu presenoldeb a lles.
Gweler isod tueddiad presenoldeb uwchradd a chynradd Môn dros y 5 mlynedd diwethaf – noder nad yw canlyniadau 2017-18 wedi eu cadarnhau.










Ar ddiwedd y flwyddyn academaidd diwethaf fe ofynwyd barn yr ysgolion am ansawdd y Gwasanaeth Lles, isod yw dadansoddiad o'r holiaur sy'n galanogol iawn -





Mae 88% yn cytuno fod perthynas parchus a phroffesiynol rhwng Swyddogion Lles a staff yr
ysgol
Mae 70% yn fodlon fod Swyddogion Lles yn cynghori a rhoi arweiniad ynglŷn â phrosesau cofrestru, mae 17% yn anghytuno gyda hyn
Mae 65% yn cytuno fod Swyddogion Lles yn herio'r ysgol ynglŷn â'i brosesau / perthynas â phresenoldeb - unwaith eto mae 17% yn anghytuno gyda hyn
Mae 74% yn teimlo fod y Swyddogion Lles yn gwneud defnydd effeithiol o'i hamser gyda'r ysgol, mae 17% yn herio hyn.

Mae 82% yn cytuno fod swyddogion lles yn ymateb yn briodol a chyflym i argyfyngau gwirioneddol – mae 14% yn anghytuno â hyn.
Mae 87% yn cytuno fod y swyddogion lles yn cyfathrebu yn effeithiol gyda staff perthnasol gan gyflwyno adborth – mae 9% yn anghytuno.

O ganlyniad gwelir bod y mwyafrif o'r ysgolion yn hapus iawn gyda'r Gwasnaeth Lles yn gweld cefnogaeth dda iddynt yn ystod gwaith swyddog lles.

**Disgyblion y mae rhieni yn dymuno eu haddysg gartref (EHE)**
Mae niferoedd EHE Môn yn ystod y ddwy flwynedd diwethaf yn eithaf tebyg gyda lleihad o 5
2016-17 = 41
2017-18 = 36

Mae'r Gwasanaeth Lles yn gallu cyfarch yr anghenion statudol.


Er bod cynnydd sylweddol yn y nifer o deuluoedd sy'n dewis addysgu eu plant gartref yn genedlaethol mae'r ffigwr yn parhau yn weddol gyson ar Ynys Mon. Mae'r Gwasanaeth Lles yn parhau i gyfarch yr anghenion statudol. Trefnir ymweliad a phob teulu, yn fuan wedi iddynt ddatgan eu bwriad I addysgu gartref a chwblheir holiadur ynglyn a'u bwriadau a'u cynlluniau. Ceisir ymweld a theuluoedd yn flynyddol wedyn. Mae gwybodaeth ynglyn a cheisiadau newydd cael ei rannu gyda Teulu Mon.


Barn gryno = BODDHAOL


**Nam Synhwyraidd a Meddygol/Corfforol**
Nod ag un o brif agweddau'r cynllun busnes y Gwasanaethau Synhwyraidd a Meddygol/Corfforol yn ystod 2017/18 oedd datblygu mesuryddion y gwasanaeth.

Mae'r gwasanaeth bellach wedi datblygu mesuryddion y gwasanaethau unigol ac wedi casglu data gwaelodlin ar gyfer tracio cynnydd y disgyblion rydym yn eu cefnogi. Bydd y data yn ein galluogi fel gwasanaeth i gael trosolwg eang o ddatblygiad a chynnydd y **plentyn cyfan** - defnyddir Therapy Outcomes measures scale ( TOMS), asesiadau Natsip, tracio lefel ymyrraeth a sgiliau meddal (lles y disgybl, cyfathrebu a defnydd unigol o offer arbenigol) yn ogystal ag asesiadau arbenigol a phenodol ar gyfer y gwasanaethau unigol ee Braille Bydd data ag unrhyw newid i'r data gwaelodlin hyn yn gyfredol Mis Mai 2019.

**Cynhwysiad** disgyblion Synhwyraidd /CMedd













- Roedd 16 allan o 21 ymateb yn hapus iawn neu hapus gyda diwallu anghenion yr ysgol i sicrhau cynhwysiad disgyblion Nam Clyw; sef 76%
- Roedd 18 allan o 23 yn hapus iawn neu hapus gyda diwallu anghenion yr ysgol i sicrhau cynhwysiad disgyblion Nam Golwg, sef 85%
- Roedd 21 allan o 30 ymateb yn hapus gyda'r ffordd mae'r gwasanaeth CMEDD yn diwallu anghenion yr ysgol wrth gefnogi disgyblion, sef 70%

Mae'r uchod yn dangos bod ysgolion o'r farn bod yr arweiniad a chymorth i sicrhau eu bod yn cynhwyso disgyblion synhwyraidd a corfforol/meddygol o fewn eu hysgolion yn dda gan y Gwasanaeth.

**Cefnogi disgyblion Unigol:**









- Roedd 17 allan o 22 ymateb yn hapus iawn neu hapus gyda chefnogaeth i ddisgyblion unigol Nam Clyw
- Roedd 19 allan o 23 yn hapus iawn neu hapus gyda chefnogaeth i ddisgyblion unigol Nam Golwg
- Roedd 20 allan o 30 ymateb yn hapus gyda'r ffordd mae'r gwasanaeth yn cefnogi disgyblion unigol


Unwaith yn rhagor gwelir bod ysgolion yn gweld y Gwasanaeth yn gallu cefnogi disgyblion unigol yn dda.

Hyfforddiant :
Mae hyfforddi staff sydd yn cefnogi ein disgyblion ar lawr dosbarth yn uniongyrchol yn effeithio ar gynnydd ein disgyblion ar draws nifer o feysydd- o gynnydd addysgol i hyder personol.
Cynigir hyfforddiant yn ôl yr angen unigol sydd wedi ei deilwrio ar gyfer pob disgybl / ysgol unigol.

Gweler isod ddata o Arolwg Boddhad y Gwasanaethau 2018




- Roedd 16 allan o 21 ymateb yn hapus iawn neu hapus gyda hyfforddi a mentora staff ar gyfer disgyblion Nam clyw sef 76%
- Roedd 18 allan o 24 yn hapus iawn neu hapus gyda'r cynigion am hyfforddiant / mentora o fewn y maes nam golwg - dim ond 1 oedd ddim yn hapus, sef 75%
- Roedd 21 allan 30 ymateb yn hapus gyda'r hyfforddiant sydd ar gael gan y gwasanaeth CMedd sef 70%
-

Gwelir o'r uchod bod barn ysgolion am yr hyfforddiant maent wedi ei dderbyn gan y Gwasanaeth yn dda iawn i allu cefnogi disgyblion synhwyraidd a meddygol/corfforol.

Barn Gryno = Da


**Y Gwasanaeth Cwnsela**

Eleni, allan o 30 (0.8 yn wag ar hyn o bryd) diwrnod gwaith wythnosol y tîm, mae 18 (70%) diwrnod yng Ngwynedd a 8 (30%) ym Môn. Wedi penodi i'r dyddiau sydd yn wag, rhagwelir y bydd 11 diwrnod ym Môn a 19 yng Ngwynedd, mae hyn yn hyblyg i gwrdd ag anghenion a galw.

Crynodeb ystadegol o wasanaeth Cwnsela Gwynedd a Môn 2016-2017

Nifer wedi derbyn gwasanaeth 324 benywaidd 197 gwrywaidd

Dros 3000 o sesiynau cwnsela ar draws Gwynedd a Môn




Gwelwyd plant o bob blwyddyn ysgol

Barn rhai o'r disgyblion

*……"heb weld y cwnselydd dwi ddim yn gwybod os fyddwn wedi medru aros yn yr ysgol a gwneud fy arholiadau" disgybl bl 11.*


…" cwnselydd wedi gwrando arnaf a helpu fi i gael yr hyder i fyw fy mywyd eto" disgybl bl 13

… " I couldn't go to school anymore, I couldn't cope, I was scared and no one listened. You have helped me to attend my new big school which makes me happy" disgybl bl6

Barn gryno = BODDHAOL

**Y Gwasanaeth Seicoleg Addysg**

Mae'r Gwasanaeth wedi symud tuag at wasanaeth dalgylchol ac annog cydweithio rhwng ysgolion, er hyn mae dal cynnig ymgynghoriad gydag unigolion ac yn gweithio ar agweddau arbenigol a phenodol.
O fewn y gwasanaeth dalgylchol anogir ysgolion i adnabod yr hyfforddiant ysgol gyfan, grŵp o staff neu staff unigol i'r perwyl hyn mae'r Prif Seicolegydd mewn ymgynghoriad â'r gwasanaethau i gyd wedi llunio rhaglen hyfforddiant graddoledig - Gweler Atodiad 2




Barn gryno = DA

**Blaenoriaethau ADY a Chynhwysiad**

WEDI LLEIHAU RHAIN
Sicrhau ansawdd – y Gwasanaeth a ADY a Chynhwysiad o fewn yr ysgolion
Mireinio sustemau monitro'r Gwasanaeth
Cryfhau cydweithio trawsadrannol gyda Gwasanaethau Cymdeithasol a Dechrau'n Deg
Peilot a gweithredu'r CDU electronig - Ysgol Esgeifiog a David Hughes yn peilota ym Môn
Datblygu sustem monitro targedau/gwaith cymorthyddion dosbarth i'r ysgolion

| **5 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb** [cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg] |
|---|
| Mae'r Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad yn cydymffurfio â Deddf AAA a'r Cod Ymarfer AAA cyfredol.<br><br>Mae'r Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad yn cynnig gwasanaeth cyfan gwbl ddwyieithog |

| **6 – Oblygiadau Ariannol** |
|---|
| Bydd y Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad yn cynnig gwasanaeth y tu mewn i'r gyllideb gytunedig, ac nid oes rhagolygon o orwario. |

| **7 – Atodiadau** |
|---|
| **Atodiad 1 -** Adroddiad ar gynnydd disgyblion ym mhob gwasanaeth<br>**Atodiad 2 –** Darpariaeth Hyfforddiant Gwasanaeth ADY a CH Gwynedd a Môn<br>**Atodiad 3 –** Datblygu Ysgolion ADP Gyfeillgar – Anawsterau Dysgu Penodol (ADP) |

| 8 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda): |
|---|
| Adroddiad cefndirol y Gwasanaeth ADY a Chynhwysiad<br>http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/documents/s12336/Report%20-%20Additional%20Learning%20Needs%20and%20inclusion.pdf<br><br>Gwefan ADY a Chynhwysiad newydd i rieni yn fyw ar 1/11/18<br>Mae linc yn syth o wefan Ynys Môn hefyd<br>**https://adyach.cymru** |

# Atodiad 1 : Adroddiad ar gynnydd y prif Wasanaethau

## Ynys Môn

# Gwasanaeth Cyfathrebu a Rhyngweithio

**Gwasanaeth Cyfathrebu a Rhyngweithio**

**Niferoedd Staff**
Athrawon Arbenigol 2.5
Cymhorthyddion Arbenigol 3

**Staffio Môn**

Mae'r Tîm arbenigol sydd yn canolbwyntio ar Ynys Môn yn cynnwys 2.5 o Athrawon Arbenigol a 3 o Gymhorthyddion Arbenigol sydd wedi cymhwyso yn y meysydd cymhleth yma.

Mae'r galw am gymorth arbenigol y Tîm yn dod o bob ysgol Gynradd ac Uwchradd ym Môn.

Mae'r Tîm yn cynnig y canlynol -

- **Hyfforddiant Awtistiaeth ac Anawsterau Cyfathrebu - dalgylch, ysgol a phenodol i blentyn unigol**
- **Rhoi arweiniad yn y dosbarth i athrawon a chymorthyddion ysgolion Môn**
- **Helpu staff mewn ysgolion i wella eu gallu i ymdopi gyda anawsterau Awtistiaeth a Chyfathrebu yn enwedig pan fo nifer o blant angen cymorth o fewn un ysgol**
- **Cymorthyddion Arbenigol - gallu lleoli Cymhorthydd Arbenigol mewn ysgol am gyfnodau penodol**
- **Canolfan Cyfathrebu a Rhyngweithio ar gyfer plant sydd ag Awtistiaeth ym Mangor sy'n derbyn plant Môn a Gwynedd**
- **Canolfannau Anhwylderau Iaith yn Llandegfan**


**Nod y Gwasanaeth**

Pwrpas y Gwasanaeth Cyfathrebu a Rhyngweithio yw hyfforddi, rhoi arweiniad, cynhaliaeth a chefnogaeth i staff mewn ysgolion sy'n gweithio gyda phlant sydd ar y Sbectrwm Awtistiaeth. Rydym hefyd yn arbenigo ar wella sgiliau cyfathrebu plant a'u helpu i allu rhyngweithio'n gymdeithasol.

**Darpariaeth i blant Ynys Môn**
Mae 102 o ddisgyblion Ynys Môn yn derbyn mewnbwn gan y Gwasanaeth Cyfathrebu a Rhyngweithio ar hyn o bryd. Mae'r ffigwr yn cynyddu bob mis - yn Ebrill eleni roedd 78 o blant yn derbyn cymorth felly mae'r nifer wedi cynyddu 21% dros y 6 mis diwethaf yn unig.

Cynhigir tri math o fewnbwn:

- **Cefnogaeth gan Athrawes Arbenigol** - bydd Athrawes yn ymweld â'r ysgol i roi arweiniad i staff yr ysgol
- **Cefnogaeth gan Uwch Gymhorthydd/Cymhorthydd Arbenigol** - gellir lleoli Cymhorthydd yn yr ysgol i roi cymorth arbenigol i blant penodol
- **Darpariaeth Canolfan Arbenigol** – gall disgyblion fynychu'r Ganolfan ddeuddydd yr wythnos a derbyn cefnogaeth i integreiddio nôl yn y brif lif weddill yr wythnos





***Effeithiolrwydd y Gwasanaeth***

Rydym yn mesur effeithiolrwydd y gefnogaeth a gynigir gan y Gwasanaeth drwy ddefnyddio 'Therapy Outcome Measure' (TOMs). Mae TOMs yn ddull sy'n cael ei ddefnyddio'n eang gan weithwyr proffesiynol yn y maes iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg i fesur cynnydd plentyn.


**<u>Cynnydd Disgyblion sydd wedi derbyn mewnbwn Athrawon Arbenigol</u>**

Mae 56% o'r 102 plentyn sydd yn derbyn cymorth ym Môn ar hyn o bryd wedi derbyn mewnbwn gan Athrawon Arbenigol. Mae pob un o'r disgyblion hynny wedi gwneud cynnydd fel y dangosir yn y graff isod:




**<u>Cynnydd disgyblion sydd wedi derbyn mewnbwn Uwch Gymhorthydd/ Cymhorthydd Arbenigol</u>**

Mae 28% o'r 102 plentyn yn derbyn mewnbwn Uwch Gymhorthydd/Cymhorthydd Arbenigol. Mae pob un o'r disgyblion hynny hefyd wedi gwneud cynnydd fel a ganlyn:




**<u>Cynnydd disgyblion sydd wedi derbyn mewnbwn yn y Canolfannau Arbenigol</u>**

Mae 16% o'r 102 plentyn wedi derbyn mewnbwn yn y Canolfannau Arbenigol. Mae pob un o'r disgyblion hynny hefyd wedi gwneud cynnydd fel a ganlyn:




**Defnydd data yn y dyfodol**

Mae pob disgybl sy'n cael eu derbyn o'r newydd i'r gwasanaeth yn cael eu mesur cyn ymyrraeth yn awr, sy'n golygu y bydd gennym sampl lawr mwy ar gyfer mesur effaith ein hymyraethau  o hyn ymlaen. Mae'r data yma yn ein galluogi i ddeall yn well pa fath o gefnogaeth sydd fwyaf effeithiol i'r plant a


***Llwyddiannau hyd yma:***


1. Sefydlu gwasanaeth o'r newydd ym Môn - nid oedd Gwasanaeth Cyfathrebu a Rhyngweithio yn bodoli ym Môn hyd at Fedi 2017.
2. Sefydlu ac agor Canolfan Arbenigol yn Llandegfan ar gyfer plant sydd angen mewnbwn arbenigol cyfathrebu a lleferydd
3. Sefydlu partneriaeth cydweithio agos gyda Therapyddion Iaith a Lleferydd ar draws yr Ynys.


***Tri phwynt o'r Cynllun Busnes***


- *Parhau i* ddatblygu a gwella ein mesuryddion i ddangos effeithiolrwydd ein Gwasanaeth
- Cynnig hyfforddiant ar y cyd a Therapyddion Iaith a Lleferydd a Seicolegwyr Addysgol i holl ysgolion Môn - creu ysgolion Cyfathrebu Gyfeillgar
- Adolygu Meini prawf -yn sgil newidiadau cenedlaethol yn y maes Cyfathrebu a Rhyngweithio. Sicrhau bod y gwasanaeth yn dryloyw gyda mynediad achosion a chau achosion.

Adborth yr Ysgolion - Gwynedd ac Ynys Môn




## Dadansoddiad

- 74%  yn fodlon, hapus neu hapus iawn gyda mentora a hyfforddi gan y Gwasanaeth
- 74%  yn fodlon, hapus neu hapus iawn gyda'r ffordd mae'r Gwasanaeth yn cefnogi disgyblion unigol
- 88% yn fodlon, hapus neu hapus iawn fod y gwasanaeth yn creu targedau addas a chyraeddadwy
- 83% yn fodlon, hapus neu hapus iawn fod y gwasanaeth yn rhannu adnoddau perthnasol

# Gwasanaeth Synhwyraidd a Meddygol

**Cyfraniad i adroddiad Sgriwtini - Gwasanaeth Synhwyraidd a CMedd**

**Niferoedd Staff**
Uwch Athrawes 1
Athrawon Arbenigol 5.1
Uwch Gymhorthyddion 4
Cymhorthydd Arbenigol 1

**Staffio Môn**
Uwch Athrawes Synhwyraidd / Cmedd 1

**Gwasanaeth Corfforol / Meddygol**

Athrawes Arbenigol 1
Uwch Gymhorthydd Arbenigol 1
Asesydd Risg 1

**Gwasanaeth Synhwyraidd Nam Clyw**

Athrawes arbenigol Nam Golwg 2
Athrawes Nam Golwg dan hyfforddiant 0.4
Uwch Gymhorthyddion Nam Golwg (Lefel 4) 2

**Gwasanaeth Synhwyraidd Nam Golwg**

Athrawes arbenigol Nam Clyw 1.7
Uwch Gymhorthydd arbenigol Nam Clyw (Lefel 4) 1
Cymhorthydd arbenigol Nam Clyw (Lefel 3) 1

**Nod y Gwasanaeth**

Nòd y gwasanaeth synhwyraidd/CMedd yw sicrhau **mynediad i addysg a'r cwricwlwm** i ddisgyblion sydd wedi derbyn diagnosis meddygol o nam Synhwyraidd neu gorfforol/meddygol. Drwy weithio'n aml asiantaethol gyda'r sector iechyd rydym yn cefnogi'r disgyblion, eu rhieni a'r ysgolion i sicrhau fod pob disgybl yn cael mynediad i addysg.

**Gwasanaeth Synhwyraidd**- Yn dilyn meini prawf mynediad i'n gwasanaethau synhwyraidd - rydym yn derbyn cyfeiriadau i'n gwasanaeth yn uniongyrchol o'r gwasanaeth Iechyd.

Gan ddilyn canllawiau a safonau cenedlaethol y 'National Sensory Impairment partnership ( Natsip) rydym yn cynnig gwasanaeth wedi ei lefelu yn yr ôl angen unigol ar gyfer pob disgybl. ( lefelau ymyrraeth o A I Ch )

**Gwasanaeth CMEDD**.- Derbynnir cyfeiriadau i'r gwasanaeth CMedd yn uniongyrchol o'r gwasanaeth iechyd neu gan ysgolion drwy'r fforymau ardal.

Pennir lefel ymyrraeth y gwasanaeth CMEDD  wrth asesu angen y disgybl unigol yn ogystal ag angen yr  ysgolion sy'n cefnogi'r disgybl .


*Gweler atodiad 1 am  fanylion pellach.


**Gwybodaeth gefndirol:**


| Nifer o ddisgyblion yn agored i'r gwasanaeth  Medi 2018<br>Nifer o ddisgyblion yn agored i'r gwasanaeth | Nam Clyw | Nam Golwg | CMedd |
|---|---|---|---|
| | 199 | 154 | 166 |

| Canran cyfanswm achosion sy'n agored i'r Gwasanaeth  % | Nam Clyw | Nam Golwg | CMedd |
|---|---|---|---|
| Gwynedd | 65  % | 57 % | 59 % |
| Môn | 35 % | 43 % | 41 % |

Lefel ymyrraeth y gwasanaethau - Disgyblion Prif lif yn unig - dim yn cynnwys cyn ysgol, ysgolion arbennig na disgyblion ddim mewn addysg ar hyn o bryd .




Fel gwasanaeth  Synhwyraidd/  CMEDD rydym yn cynnig :

| | Gwasanaeth Synhwyraidd | Gwasanaeth CMedd |
|---|---|---|
| Asesiadau | Asesiadau  safonol ar lawr dosbarth clyw<br>(gwrando)  a Golwg . Gwybodaeth yn cael ei rannu ac adran iechyd. | Asesiadau o allu corfforol plant i ddefnyddio offer gwahanol ac unrhyw addasiadau sydd eu hangen. |

| | | |
|---|---|---|
| | Asesiadau iaith a Chyfathrebu. | |
| | Asesiadau safonedig addysgol yn ôl yr angen unigol | |
| | Asesiadau acwstig- stafell ddysgu | Asesiadau MACS I blant efo Cerebral Palsy ar y cyd efo iechyd. |
| | Asesiadau di safonedig - arsylwadau, .Cofnodion datblygiadol | Asesiadau di safonedig – arsylwadau, cofnodion datblygiadol |
| | Asesiadau Sgiliau Meddal,- ,Defnydd o offer arbenigol , lles y plentyn a chyfathrebu | Asesiadau Sgiliau Meddal,- Defnydd o offer arbenigol a lles y plentyn |
| | Monitro a thracio cynnydd Annibyniaeth/Hyder | .Monitro a thracio cynnydd Annibyniaeth/Hyder |
| | Arsylwadau -Rhyngweithio cymdeithasol gyda chyfoedion/ oedolion | Arsylwadau -Rhyngweithio cymdeithasol gyda chyfoedion/ oedolion |
| Dysgu uniongyrchol/ cefnogi disgyblion | Dysgu 1:1 ee. Geirfa, darllen , Gwybodaeth - bydd eu cyfoedion wedi dysgu hyn yn ddiymwybod ( incidental learning) | |
| | Cyn ag ôl diwtora cwricwlwm I gefnogi geirfa /cysyniadau newydd | |
| | Modelu i gymorthyddion ac athrawon | Modelu strategaethau i gymhorthyddion ysgol - Ymyrraeth ar gyfer plentyn unigol. |
| | Hyfforddi i ddefnyddio Technoleg yn hyderus ee 'low vision aids' teclynnau clyw . Monitro a thracio defnydd | Hyfforddi i ddefnyddio Technoleg yn hyderus ee AAC, Eye Gaze, defnydd o switches cyfathrebu, Tobii, Dragon Dictate, TrueType |
| | Tiwtora 'touch typing' | |
| | Dysgu braille ( Cymraeg a Saesneg) / arwyddo ( Sign supported Saesneg /Cymraeg ) | Pecyn hyfforddiant sydd wedi ei deilwrio ar gyfer unigolyn/ unigolion mewn ysgol.<br>Rhannu strategaethau penodol i anghenion y disgybl. |
| | Cefnogaeth i ymdopi ag unrhyw golled clyw/Golwg- dysgu strategaethau dydd i ddydd | Cefnogaeth i ymdopi ag unrhyw golled gorfforol, dysgu strategaethau dydd i ddydd |
| | | Cefnogaeth emosiynol i staff ysgol/cymorthyddion sydd yn gweithio efo plant efo bywyd cyfyngol/sydd yn dirywio/colli gallu corfforol er mwyn sicrhau eu bod hwy yn gallu cefnogi'r plant o ddydd i ddydd. |
| | Cefnogaeth ar lawr y dosbarth | Cefnogaeth ar lawr y dosbarth |
| | Cefnogaeth bersonol / emosiynol - monitro a thracio lles y disgybl. | |
| | Gwaith grŵp bach - ee i ddatblygu sgiliau cymdeithasol | Gwaith grŵp bach - ee i ddatblygu sgiliau cymdeithasol ee Talkabout |

| | | |
|---|---|---|
| Offer Arbenigol | Darpariaeth yn dilyn asesiad o offer arbenigol ee offer chwyddo,/ offer gwrando | Darpariaeth yn dilyn asesiad o offer arbenigol |
| | Asesu/ Treialu addasrwydd offer | Asesu/ Treialu addasrwydd offer |
| | Gwirio offer monitro defnydd- rhannu Gwybodaeth ac iechyd | Gwirio offer monitro defnydd- rhannu Gwybodaeth ac iechyd |
| Hyfforddiant | Sesiynau ymwybyddiaeth - hyfforddiant i staff, cyfoedion, rhieni. Rhannu strategaethau | Sesiynau hyfforddiant codi ymwybyddiaeth Anawsterau Corfforol a Meddygol.<br>Rhannu strategaethau |
| | | Cydlynu a chyd gyflwyno hyfforddiant iechyd ar gyfer ee clefyd siwgr, epilepsi, catheter, rhaglen physio, rhaglen Therapi Galwedigaethol ar gyfer cymorthyddion sy'n cefnogi disgyblion CMEDD ar lawr dosbarth |
| | Hyfforddiant ar ddefnydd o offer arbenigol | Hyfforddiant ar ddefnydd o offer arbenigol |
| Cynghori | Rhannu unrhyw wybodaeth iechyd gyda'r ysgol. | Rhannu unrhyw wybodaeth iechyd gyda'r ysgol. |
| | Cynghori staff ysgolion ar – Strategaethau ysgolion cynhwysol | Cynghori staff ysgolion ar - hygyrchedd- sut i sicrhau cynhwysiad plentyn ym mhob agwedd o fywyd ysgol mewn modd diogel. |
| | Mynychu a chyfrannu mewn clinigau iechyd er mwyn rhoi gogwydd addysg ar achosion | Mynychu a chyfrannu mewn clinigau iechyd er mwyn rhoi gogwydd addysg ar achosion |
| | Addasiadau i'r cwricwlwm, cynllunio gwersi, Adnoddau, rheoli cefnogaeth darpariaeth | |
| | Addasiadau / mynediad i arholiadau | Addasiadau / mynediad i arholiadau. |
| | Cynghori ar Strategaethau penodol awdiolegol/ Golwg | Addasiadau I'r cwricwlwm, creu a rhannu adnoddau, rheoli cefnogaeth darpariaeth |
| | Amgylchedd dysgu saff/addas | Amgylchedd dysgu saff/addas |
| | Cefnogaeth i deuluoedd | Cefnogaeth i deuluoedd efo gwahanol agweddau - cyn ysgol, cyfnodau trosiannol, gadael ysgol. |
| Cyfarfodydd ag adolygiadau | Cynllunio ag adolygu ar gyfer - rhieni i gynnig cyngor a chefnogaeth, CDU, blynyddoedd cynnar, disgyblion LAC , trosglwyddo a chyfarfodydd aml asiantaethol. | Cynllunio ag adolygu ar gyfer - rhieni i gynnig cyngor a chefnogaeth, CDU, blynyddoedd cynnar, disgyblion LAC , trosglwyddo a chyfarfodydd aml asiantaethol. |
| | Cyfrannu/ Mynychu at gyfarfodydd proffesiynol amlasiantaethol. | Cyfrannu/ Mynychu at gyfarfodydd proffesiynol amlasiantaethol. |
| | Mynychu asesiadau iechyd yn ôl yr angen. | Mynychu ysbytai all sirol ee Alderhey pan mae angen. |
| Cyfrannu tuag at bolisïau | Gweithio'n draws sirol i greu polisïau arbenigol Nam Synhwyraidd. | Cyd weithio efo Uwch Swyddogion I gyfrannu tuag at Bolisïau ee Meddyginiaethau, Hygyrchedd, |

| | | |
|---|---|---|
| Sirol/Gwaith proffesiynol | | |
| Asesiadau Risg | | Cynnal Asesiadau Risg Symud a Thrin Pobl ar blant mewn ysgolion Prif Lif ac Arbennig. Hyfforddi ar offer Symud a Thrin |
| | | Cynorthywo Ysgolion hefo Asesiadau Risg |


**Data:**


Nòd ag un o brif agweddau'r cynllun busnes y gwasanaethau synhwyraidd/ CMedd yn  ystod 2017/18 oedd datblygu mesuryddion y gwasanaeth.


Rydym fel gwasanaeth bellach wedi datblygu mesuryddion y gwasanaethau unigol ac wedi casglu data gwaelodlin ar gyfer tracio cynnydd y disgyblion rydym yn eu cefnogi. Bydd y data yn ein galluogi fel gwasanaeth i gael trosolwg eang o ddatblygiad  a chynnydd y **plentyn cyfan**  - defnyddir Therapy Outcomes measures scale ( TOMS), asesiadau Natsip, tracio lefel ymyrraeth a sgiliau meddal (lles y disgybl, cyfathrebu a defnydd unigol o offer arbenigol) yn ogystal ag asesiadau arbenigol a phenodol  ar gyfer y gwasanaethau unigol ee Braille Bydd data ag  unrhyw newid  i'r data gwaelodlin hyn yn gyfredol Mis Mai 2019.

**Data  arolwg Boddhad y gwasanaeth ADY:**

**Cynhwysiad** disgyblion Synhwyraidd /CMedd













- Roedd 16 allan o 21 ymateb yn hapus iawn neu hapus gyda diwallu anghenion yr ysgol i sicrhau cynhwysiad disgyblion Nam Clyw
- Roedd 18 allan o 23 yn hapus iawn neu hapus gyda diwallu anghenion yr ysgol i sicrhau cynhwysiad disgyblion nam Golwg
- Roedd 21 allan o 30 ymateb yn hapus gyda'r ffordd mae'r gwasanaeth  CMEDD yn diwallu anghenion yr ysgol wrth gefnogi disgyblion .

**Cefnogi disgyblion Unigol:**




- Roedd 17 allan o 22 ymateb yn hapus iawn neu hapus gyda chefnogaeth i ddisgyblion unigol Nam Clyw
- Roedd 19 allan o 23 yn hapus iawn neu hapus gyda chefnogaeth i ddisgyblion unigol Nam Golwg
- Roedd 20 allan o 30 ymateb yn hapus gyda'r ffordd mae'r gwasanaeth yn cefnogi disgyblion unigol


Hyfforddiant :


Mae hyfforddi staff sydd yn cefnogi ein disgyblion ar lawr dosbarth yn uniongyrchol yn effeithio ar gynnydd ein disgyblion ar draws nifer o feysydd- o gynnydd addysgol i hyder personol.

Cynnigir hyfforddiant yn ôl yr angen unigol sydd wedi'w deilwrio ar gyfer pob disgybl / ysgol unigol.

Gweler isod ddata o Arolwg Boddhad gwasanaeth ADYaCH 2018





- Roedd 16 allan o 21 ymateb yn hapus iawn neu hapus gyda hyfforddi a mentora staff ar gyfer disgyblion Nam clyw
- Roedd 18 allan o 24 yn hapus iawn neu hapus gyda'r cynigion am hyfforddiant / mentora o fewn y maes nam golwg - dim ond 1 oedd ddim yn hapus
- Roedd 21 allan 30 ymateb yn hapus gyda'r hyfforddiant sydd ar gael gan y gwasanaeth CMedd


Data yn dilyn **arfarniad sesiynnau hyfforddiant** gan y gwasanaeth arbenigol. Hyfforddiant wedi ei deilwrio ar gyfer disgyblion / ysgolion unigol .





Yn ystod 2017/18 llwyddodd 5 athrawes arbenigol ( Clyw a Golwg ) gymhwyso fel hyfforddwyr arbenigol i arwain a mentora ar gyrsiau arbenigol Online Tarining (OLT) - Cyrsiau arbenigol Nam Golwg a Nam Clyw.

Yn dilyn hyn dilynodd 45 o gymorthyddion sy'n cefnogi disgyblion dwysaf Clyw a Golwg ar draws Mon a Gwynedd gwrs arbenigol ( cyfanswm o 20 awr o astudio ) o fewn eu maes arbenigol.

Gweler data isod yn dangos cynydd grwp a ddilynodd yr hyfforddiant:







Sampl o adborth o’r cwrs - Student -I am more aware of the environmental adaptations that benefit pupils with HI, the impact a HI has on a child's social skills and relationships and on vocabulary development. It is important that strategies are put in place in order to facilitate the pupil's inclusion with peers both in and out of the classroom. I also feel more confident in interpreting the audiology reports, have a better understanding of different types of hearing loss e.g. conductive, sensorineural and the impact on speech, language and communication development. I feel more confident in setting speech and language targets for pupils with HI and how to better support them in therapy sessions.


Ein nòd fel gwasanaeth yw parhau i readru’r hyfforddiant ar draws ysgolion Môn/Gwynedd yn 2018/19

Offer Arbenigol:

Mae canran fach o’n disgyblion yn ddibynnol ar offer arbenigol i gael mynediad i’w addysg.

Gweler isod ddata o Arolwg Boddhad gwasanaeth ADYaCH 2018







- Roedd 15 allan o 19 ymateb yn hapus iawn neu hapus gyda chefnogaeth ar gyfer unrhyw offer arbenigol  Nam Clyw
- Roedd 18 allan o 23 yn hapus iawn neu hapus gyda chefnogaeth gydag offer arbenigol Nam Golwg.

**Data defnydd disgyblion o offer 2017/18 :**

Mae monitro ag asesu defnydd o offer arbenigol a ariennir gan yr awdurdod  yn rhan hanfodol o rôl y gwasanaeth.

Gweler isod ddata i ddangos y trosolwg o  ddefnydd o'r holl offer arbenigol amrywiol sydd yn cael ei ddefnyddio gan **ddisgyblion** y gwasanaeth **a'r  ysgolion**.




**Faint o wasanaeth mae Môn yn ei dderbyn :**

| Nifer o ddisgyblion yn agored i'r gwasanaeth | Nam Clyw | Nam Golwg | CMedd |
|---|---|---|---|
| | 199 | 154 | 166 |

| Canran cyfanswm achosion sy'n agored i'r Gwasanaeth  % | Nam Clyw | Nam Golwg | CMedd |
|---|---|---|---|
| Gwynedd | 65 | 57 | 59 |
| Môn | 35 | 43 | 41 |

**Llwyddiannau :**

Hyfforddi a chymhwyso pump o athrawon arbenigol synhwyraidd y timau fel tiwtoriaid OLT . Hyn wedi ein galluogi fel gwasanaeth i readru hyfforddiant arbenigol i gymorthyddion, sy'n cefnogi disgyblion Nam synhwyriad o fewn ein hysgolion . Ein nòd yn 2018/19 yn cynnig y cyrsiau i un cymhorthydd o fewn pob ysgol uwchradd ym Môn a Gwynedd yn ogystal ag athrawon/cyd lynwyr yn ôl angen.

Buddsoddi yn yr offer arbenigol diweddaraf ar gyfer cefnogi disgyblion Nam Golwg sydd (er mwyn cael mynediad i'r cwricwlwm ) angen addasu gwaith print ( chwyddo print a brailio) Sefydlu hwb canolig Nam Golwg I symleiddio'r broses o addasu gwaith.

Cyd weithio a rhannu arfer dda yn draws sirol ar draws Gogledd Cymru. Conwy a North East Wales Sensory services ( NEWSS). Hyn wedi ein galluogi i gyd drefnu a rhannu'r gost o hyfforddi aelodau o staff o few nein ysgolion arbennig i ddilyn cwrs Positive lookind gan Positive eye. Ein nòd fel grŵp traws sirol gogledd Cymru yw parhau i ddatblygu cyd weithio pellach yn y dyfodol.

**Cynllun Busnes :**

Datblygu gwefan i'r gwasnaethau arbenigol . Mae'r adnodd cyfoes yma yn mynd i fod yn gyfle arbennig i rannu Gwybodaeth ac i gefnogi disgyblion Nam synhwyraidd a Corfforol Meddygol, eu teuluoedd yn ogystal ag ysgolion a staff sydd yn eu cefnogi o ddydd i ddydd.

Buddsoddi yn yr offer diweddaraf i addasu gwaith ( chwyddo print a brailio) ar gyfer disgyblion nam Golwg ( er mwyn iddynt gael mynediad i'r cwricwlwm) . Sicrhau defnydd effeithiol o'r offer i symleiddio'r broses o addasu yn ganolig.

Hyfforddi aelod o staff ar gyfer rôl arbenigol o swyddog symudedd. Bydd sefydlu'r gwasanaeth hyn o fewn y sir yn ein galluogi i asesu a chefnogi'r disgyblion yn uniongyrchol i hyrwyddo sgiliau annibyniaeth/ byw ein disgyblion Nam Golwg dwysaf.

**Atodiad 1 .**

**Synhwyraidd**

Wrth asesu angen pob plentyn , defnyddi'r 'National sensory Impairment eligibility framework'. Rhoddir ystyriaeth angen ar gyfer yr agweddau isod

- Lefel/ dwysder colled synhwyraidd
- Ffactorau ychwanegol perthnasol I'r golled synhwyraidd
- Effaith ar iaith a chyfathrebu / mynediad i'r cwricwlwm ( pynciau craidd)
- Sgiliau symudedd ( Nam Golwg)
- Defnydd o offer ( teclynnau clyw dan ofal adran iechyd)
- Angen am hyfforddiant ( ysgol/staff dysgu)
- Cynhaliaeth wrth drosglwyddo
- Cefnogaeth gydag offer arbenigol a ariennir gan yr adran Addysg
- Amgylchedd dysgu'r unigolyn ( amgylchedd gweledol ag acwstig)
- Effaith ar ddatblygiad personol, cymdeithasol ag emosiynol
- Cefnogaeth i'r teulu
- Yr Angen am gyd weithio aml asiantaethol.

Dynodir sgôr ar gyfer pob asesiad uchod a bydd sgôr cyfanswm yn pennu dyraniad lefel ymyrraeth ein gwasanaeth .

Grwpir pob achos i lefel A, B, C a Ch . Bydd pob disgybl yn cael eu hasesu dwywaith y flwyddyn.

**Gwasanaeth Corfforol/meddygol :**

Wrth asesu angen pob plenty, rhoddir ystyriaeth angen ar gyfer yr agweddau isod

Dwyster y nam CMedd

- Amseriad y Diagnosis
- Angen am hyfforddiant/ mentora- cefnogi staff
- Arweiniad i ddefnydd o offer arbenigol
- Trosglwyddo
- Angen am gefnogaeth Bersonol/cymdeithasol/emosiynol

Categoreiddir pob achos yn ôl grŵp A,B,C,CH .

# Gwasanaeth Anghenion Dysgu Penodol

**Gwasanaeth Anghenion Dysgu Penodol**

**Niferoedd staff –**
Prif Seicolegydd – Rheolaethol ers Medi 2018
Athrawon Arbenigol 3.4
Cymorthyddion Arbenigol 3.0

**Staffio Mon**
Mae Mon wedi derbyn mewnbwn 1 Athrawes, ac 1 Cymhorthydd Arbenigol sydd uwchlaw cyfran Mon o'r Gwasanaeth.

**Nod y Gwasanaeth**

Er mwyn cyrraedd at y nod hwn yr ydym fel gwasanaeth yn gosod yr amcanion canlynol;

- Rhoi ffocws clir ar ddatblygu sgiliau ysgol gyfan mewn cefnogi datblygiad llythrennedd a rhifedd ar draws yr ystod gallu, er mwyn creu awyrgylch sydd yn addas ar gyfer amrywiaeth mewn dulliau dysgu.
- Sicrhau fod prosesau a dulliau clir yn bodoli i adnabod anawsterau llythrennedd a rhifedd yn amserol.
- Sicrhau fod pob disgybl sydd â phroblemau llythrennedd a rhifedd yn derbyn ymateb graddoledig buan sydd yn cwrdd â'i anghenion.
- Sicrhau fod pob plentyn/person ifanc yn cael mynediad at gwricwlwm llawn ac addas.
- Sicrhau fod rhieni yn rhan allweddol o unrhyw ymyrraeth sydd yn cael ei gynnig.

Mae'r Gwasanaeth yn:

- Cynhyrchu adnoddau parod ar ffurf pecynnau gwaith i gefnogi addysgu disgyblion ag anawsterau llythrennedd a rhifedd er mwyn ffurfio banc o adnoddau electroneg ar gyfer ysgolion.
- Arsylwi ar lawr dosbarth gan amlygu cryfderau a meysydd i'w gwella, a dulliau dosbarth cyfan.
- Modelu arfer dda drwy weithio yn uniongyrchol gyda disgyblion ar y cyd a staff yr ysgol.
- Hybu defnydd yr hyn a gyflwynwyd ac a fodelwyd fel technegau ymyrraeth yn weithredol ar lawr dosbarth.
- Cyd-weithio gyda'r Uwch Seicolegydd Addysg Anghenion Dysgu Ychwanegol Penodol ac Amhenodol i ddatblygu sail tystiolaeth yn y maes trwy prosiectau ymchwiliol.
- Modelu technegau cefnogi a dulliau ymyrraeth ar lawr dosbarth neu mewn grwpiau targedu.
- Hybu defnydd yr hyn a gyflwynwyd ac a fodelwyd fel technegau dysgu yn weithredol ar lawr dosbarth ac ar yr aelwyd.
- Cynnig cyfnod penodol o waith efo disgyblion unigol/grŵp bach

Pecynnau Ymyrraeth:


| | Cyfnod Monitro | Meini Prawf Mynediad Bras |
|---|---|---|
| Mewnbwn C | | |

| | | |
|---|---|---|
| • Ymweliad ymgynghorol gan yr Athrawes Arbenigol i rannu Adnoddau/cynnig strategaethau amgen I ychwanegu at Fap darpariaeth yr Ysgol.<br>• O bosib yn defnyddio asesiadau mwy arbenigol ar gyfer adnabod strategaethau addas. | • 2 ymweliad Athrawes (cychwynol ac adolygu) ac yna cau'r achos/ion<br>• Bwydo yn ol i'r Fforwm nesaf | • Ysgolion sydd yn gallu adnabod staff i ddefnyddio'r adnoddau/cyngor<br>• Map darpariaeth cyflawn ar gyfer ymyrraethau<br>• Plentyn CDU Awdurdod sydd a cymorth yn ei le ond angen mewnbwn ar gyfer y cymhorthydd.<br>• (Unigol neu grwp – sgorau safonedig is na 75, TOMs I'w gadarnhau) |
| Mewnbwn B | | |
| • Ymweliad ymgynghorol gan yr Athrawes Arbenigol i rannu adnoddau/cynnig strategaethau amgen I ychwanegu at Fap Darpariaeth yr Ysgol.<br>• Ymweliad gan y Cymohorthydd Arbenigol i fodelu strategaethau | • 2 ymweliad Athrawes (cychwynol ac adolygu)<br>• 1-3 ymweliad Cymhorthydd Arbenigol i fodelu yn ddibynnol ar angen a chymlethdod y modelu.<br>• Bwydo yn ol i'r Fforwm nesaf/ Trafodaeth gyda Seic Addysg yr Ysgol. | • Ysgolion sydd yn gallu adnabod staff i ddefnyddio'r adnoddau ond mae'r staff angen hyfforddiant pellach.<br>• Plentyn CDU Awdurdod sydd a cymorth yn ei le ond angen mewnbwn ar gyfer y cymhorthydd<br>• Map darpariaeth cyflawn o ymyrraethau<br>• (Unigol neu grwp – sgorau safonedig is na 75, TOMs I'w gadarnhau) |
| Mewnbwn A (Gwynedd yn Unig o Hydref 2018) | | |
| • Ymweliad ymgynghorol gan yr Athrawes Arbenigol i rannu adnoddau/cynnig strategaethau amgen<br>• Mewnbwn gan y Cymohorthydd Arbenigol | • Ymweliad Athrawes bob 6 wythnos i fonitro.<br>• Mewnbwn uniongyrchol gan y Cymhorthydd Arbenigol am floc o 12 wythnos ar y tro gan fwydo yn ol i'r Fforwm.<br>• Uchafswm 3 bloc a bydd angen I'r Ysgol | • Angenion llythrennedd a rhifedd cymleth.<br>• Map darpariaeth yr Ysgol yn awgrymu/dangos nad oes hyblygrwydd o ran staff ar pwynt cychwyn yr ymyrraeth. |


<table>
<tr><td></td><td>fod yn cynllunio pwy fydd yn parhau a’r gwaith a chysgodi’r Cymhorthydd Arbenigol, yn ystod y gwaith.<br>• Diweddaru map darpariaeth yr Ysgol.<br>• Bwydo yn ol I’r Fforwm/Trafodaeth gyda Seic Addysg yr Ysgol</td><td>• (Unigol neu grwp – sgorau safonedig is na 75)<br>• (TOMs – I’w gadarnhau, sgor isel ar gyfer wellbeing a participation??)</td></tr>
<tr><td colspan="3">Meini Prawf Gadael Mewnbwn A – dau neu fwy o’r isod yn amlwg yn y fforwm</td></tr>
<tr><td colspan="3">• Sgorau safonedig >80 (h.y. o fewn amrediad i dderbyn mewnbwn GY)<br>• Sgorau TOMs – cynnydd o ddau fand (e.e. 0 i 1) ar y meysydd oedd o fewn y MP<br>• Nid yw’r person ifanc/rhieni yn dymuno i’r mewnbwn barhau/ Diffyg cynnydd mewn ymateb i’r mewnbwn (angen trafodaeth SA??)<br>• Wedi cael 3 bloc o fewnbwn eisoes<br>• Yr Ysgol wedi diweddaru’r map darpariaeth, ac mae’r unigolyn/grwp yn derbyn mewnbwn o ddarpariaeth datanoledig yr Ysgol – Bydd angen trafod gyda’r Swyddog Ansawdd os nad yw hyn wedi digwydd.</td></tr>
<tr><td colspan="3">Tystiolaeth Angenrheidiol</td></tr>
<tr><td colspan="3">• Sgorau Profion Safonedig (llai na 6mis oed) – Cynllun gweithredu Unigol neu Grwp yn cynnwys sgorau profion safonedig (e.e. Cymru Gyfan), Proffil Un Tudalen, Tystiolaeth GY (Map Darpariaeth, Cynlluniau Blaenorol) ayb.<br>• TOMs yn cael ei wneud yn ystod ymweliad cyntaf yr Athrawes ac adolygu ar ddiwedd y mewnbwn ar gyfer 1 a 2, a pob 6 wythnos ar gyfer 3.</td></tr>
</table>

**Data 2017-18**


**Graff 1:**



**Graff 2:**




**Graff 3:**




**Llwyddiannau 2017-18 a Blaenoriaethau 2018-19**

| | |
|---|---|
| **Llwyddiannau:** | • Dwy Athrawes Arbenigol yn dilyn hyfforddiant Dyslecsia ym Mhrifysgol Bangor.<br>• Mireinio meini prawf y gwasnaeth – hwn yn weithredol.<br>• Cysoni adroddiau/ cofnodion y gwasanaeth – templedi newydd electronig wedi eu creu. |

| | |
|---|---|
| | • Sefydlu Trefn newydd ar gofnodi ymweliadau athrawon a chymorthyddion y gwasanaeth- arbed holl gofnodion yn ganolig.<br>• System data newydd wedi'w sefydlu ar gyfer casglu data ar disgyblion ADP<br>• Sefydlu trefn ffurfiol o adolygu'r holl achosion – cyfarfodydd gwasanaeth cyn fforymau.<br>• Buddsoddi mewn adnoddau canolig i'r gwasanaeth.<br>• Gwaith creu cod newydd TOMS wedi cymryd lle fel adnodd i fesur effeithiolrwydd y gwasanaeth. Hyn wedi cymryd lle mewn ymgynghoriad a'r awdur (Professor Enderby)<br>• Datblygu a mireinio asesiad cychwynnol y gwasanaeth er mwyn gallu gosod targedau realistic ac addas.<br>• Darparu gweithdai i rannu syniadau/ Adnoddau gyda nifer o ysgolion.<br>• Gwasanaeth Seicoleg wedi creu Adnodd Hunan Asesu ADP ar gyfer mesur pa mor gyfeillgar ydy Ysgolion tuag at ADP. |
| **Blaenoriaethau 2018/19:** | • Diffinio **mesuryddion** addas i ddangos effeithlonrwydd y gwasanaeth – ehangu defnydd TOMs fel bod y set cyntaf o ddata wedi ei gasglu ar ol y Fforwm Hydref.<br>• Cynllunio, a chreu **hyfforddiant** arbenigol /gweithdai mewn ADY Penodol (Llythrennedd a Rhifedd).<br>• Datblygu Adnoddau canolog y gwasanaeth ar y cyd gyda'r Gwasanaeth Seicoleg Addysgol, ac adnabod asesiadau mwy arbenigol I'r tim ddefnyddio i gynorthwyo gwaith Ysgolion.<br>• Ehangu cymwysterau't Tim – e.e. Cymorthyddion yn dilyn cwrs ALSA gyda Prifysgol Caerdydd.<br>• Cydweithio gyda'r Gwasanaeth Seicoleg Addysgol i gynorthwyo Ysgolion i weithio tuag at statws Ysgolion Cyfeillgar Tuag at ADP<br>• Ymateb i'r her o ran y Gwasnaeth Gwasanaeth rhwng Mon a Gwynedd oherwydd gwahanol fodel staffio. |

# Gwasanaeth Seicolegydd Addysgol

## Gwasanaeth Seicoleg Addysgol

**Niferoedd staff** –
Prif Seicolegydd 1.0
Uwch Seicolegwyr 1.8
Seicolegwyr Addysgol 5.2 (0.6 gwag)

**Nod y Gwasanaeth**
Sicrhau bod yr ysgolion a'r ddarpariaeth yn arfogi'r plant a'r pobl ifanc i gyflawni'r safonau uchaf ac i feithrin y cymwysterau a'r sgiliau sy'n eu galluogi i fyw a ffynnu'n lleol.
Mae'r Gwasanaeth Seicoleg Addysgol yn cyd-weithio ag ysgolion Gwynedd ag Ynys Môn i hwyluso ymateb addas a rhesymol pobl ifanc sydd yn profi anawsterau dysgu ychwanegol, yn rhan o Dîm ADY, Lles a Chynhwysiad, lle bo'r anghenion yma yn effeithio ar fynediad yr unigolion i'r cwricwlwm a/neu lles.

Mae mynediad at y Gwasanaeth trwy gyfarfod cynllunio gyda'r ysgol a'r dalgylch, yn hytrach na trwy Fforwm neu banel, oherwydd natur amrywiol lefel yr ymyrraeth.

Mae'r Gwasanaeth yn cynnig:

- Hyfforddiant mewn swydd ar ystod o bynciau:

  Er Enghraifft ELSA, Meddylfryd twf, Ymwybyddiaeth Ofalgar, Gorbryder, Dulliau Ysgol Gyfan a mwy penodol ar gyfer ADY Penodol/Dyslecsia, Ymlyniad a Trawma Datblygiadol, Anhawsterau Cyfathrebu a Rhyngweithio.
- Ymyraethau Grwp/Unigol Therapiwtig
- Cynnal prosiectau ymchwil
- Ymgynghori ar lefel disgybl unigol (gan gynnwys asesiadau pellach o anghenion ble yn briodol)
- Defnydd o ddulliau Cynllunio sydd yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn
- Goruchwyliaeth/sesiynau trafod ar gyfer staff


Dros y flwyddyn 2017-18 bu i'r gwasanaeth wneud newidiadau i'r model darparu er mwyn gwneud defnydd mwy effeithiol o Adnoddau. Mae datblygu modelau gwahanol o weithredu yn galluogi'r Gwasanaeth i uwch-sgilio staff mewn modd mwy effeithiol, a chynyddu'r gallu i ddarparu ymyrraethau therapiwtig ar lefel uwch (e.e. CBT, Ymwybyddiaeth Ofalgar, Theraplay).

Yn Ystod y flwyddyn Academaidd bu i'r Gwasanaeth ddarparu Cyfarfodydd Dalgylch ymhob dalgylch, o leiaf dair gwaith y flwyddyn. Mae'r cyfarfodydd hyn yn gyfle i Gydlynnwyr ddod at eu gilydd i dderbyn hyfforddiant, ymgynghori grwp (trafodaeth achos), a rhannu arfer dda.

**Sut mae'r Gwasanaeth wedi cael ei ddefnyddio yn y Flwyddyn 2017-18:**


Mae'r Siart 1 isod yn nodi beth ydy defnydd amser y gwasanaeth yn ei gyfanrwydd, gan gynnwys gwaith rheolaethol a strategol y P.S.A.

**Siart 1: Gwaith y Tîm Seicoleg yn ei gyfanrwydd yn ystod Tymor yr Hydref 2017**




Mae Siart 2 yn manylu ar y defnydd amser o fewn yr amser sydd wedi ei gynnig i'r Dalgylch.

**Siart 2: Defnydd o Amser y Seicolegydd o fewn Gwaith Dalgylch**





Mae'r gwybodaeth yn y siartiau hyn yn bwydo i gynllunm datblygu'r Gwasanaeth, ac er fod y data yma yn dangos cynnydd yn y gwaith ataliol (Ymgynghori GY+, Gwaith Hyfforddi a strategol, a gwaith Therapeutig) bydd angen ffocysu pellach ar hyn drwy wella trefn blaenoriaethau Ysgolion.


**Llwyddiannau 2017-18 a Blaenoriaethau 2018-19**

| | |
|---|---|
| **Llwyddiannau:** | • Cynnal cyfarfodydd Dalgylch rhwng Seicolegydd Dalgylch a Chydlynwyr wedi bod yn gam positif iawn. Gweler Siart 3 am grynodeb arfarniadau Cydlynwyr o'r sesiynau dalgylch. Mae'r Swyddogion Ansawdd yn mynychu pob sesiwn hefyd.<br>• Mae'r drefn rhannu amser wedi ei newid yn golygu fod Dalgylch yn derbyn dyddiau o amser Seicolegydd ar sail fformiwla yn hytrach na sesiynau fesul Ysgol. Mae'r fformiwla ei hun yn seiliedig ar boblogaeth. Mae hyn wedi golygu fod posib cynnig hyblygrwydd a defnydd gwell o amser er mwyn ymateb i angen yn y Dalgylch.<br>• Mae rolau'r Uwch Seicolegwyr a Seicolegwyr mewn meysydd arbenigedd a gwaith strategol wedi datblygu. Mae'r gwaith llunio'r Strategaeth Hyfforddiant ar gyfer y meysydd wedi cychwyn mewn cyd-weithrediad a thimau eraill:<br>e.e. Uwch Seicolegydd yn arwain y prosiect Ysgolion sy'n Annog (Nurture), Uwch Seicolegydd yn arwain ar ddefnydd **TOMs** ac Addasu Meini Prawf ar gyfer y maes Cyfathrebu a Rhyngweithio ac yn cryfhau cyswllt gyda'r Llwybr Niwroddatblygiadol er mwyn hwyluso'r broses asesu.<br>• Dangosir y data yn Siart 1 a 2 fod cyfran fawr o amser y Tîm yn mynd ar waith Gweithredu Ysgol a Mwy ac Ataliol o fewn Ysgolion. Mae Siart 3 yn manylu yn fwy ar sut y defnyddiodd y Dalgylchoedd yr amser. Gweler fod cyfran fach yn mynd ar waith Statudol erbyn hyn. Gweler hefyd fod yr amser Hyfforddi a Chynllunio yn ychwanegu at y gwaith ataliol.<br>• Mae'r Tîm wedi derbyn hyfforddiant sydd yn galluogi ystod ehangach o fewnbwn Therapiwtig a Strategol.<br>• Hyfforddiant ac Offeryn Hunan Asesu Ysgol ar gyfer y Maes ADP yn cael ei ddatblygu<br>• Hyfforddiant Ysgolion sydd yn Gyfeillgar tuag at Gyfathrebu hefyd yn cael ei ddatblygu. |
| **Blaenoriaethau 2018/19:** | • Casglu ehangach ar Ddata'r Tîm er mwyn adrodd ar **effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd mewn modd mesuradwy**<br>Mae'r Gwasanaeth wedi dilysu'r defnydd o Therapy Outcome Measures (TOMs) ar gyfer mesur cynnydd. Mae'r dull yma o fonitro cynnydd yn awr yn barod i'w ddefnyddio ar draws meysydd (yn flaenorol dim ond yn y Maes Cyfathrebu a Rhyngweithio mae TOMs wedi cael ei ddefnyddio). Bydd modd adrodd ar gynnydd unigolion yn fuan oherwydd hyn.<br><br>• Datblygu pellach ar y Strategaeth **Hyfforddiant** |

| | |
|---|---|
| | • Datblygu pellach **ròl y Tîm** a'r gwasanaeth sydd yn gallu cael ei ddarparu, ym maes **Cynhwysiad a Lles (e.e. Gwaith Therapiwtig, Hyfforddiant)**<br><br>• Datblygu trefn a pholisi mynediad at y Gwasanaeth sydd yn fwy addas<br><br>• I'r Tîm fod yn darparu gwasanaeth mwy addas ar gyfer y sector blynyddoedd cynnar<br><br>• Datblygu **ròl y Tîm** a'r gwasanaeth sydd yn gallu cael ei ddarparu, ym maes **Cyfathrebu a Rhyngweithio**<br><br>• Datblygu sgiliau Ysgolion mewn ymateb a darparu ar gyfer ADY Penodol |

Siart 3: Gwerthusiad o Sesiynau Dalgylch y GSA



# Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad

## Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad

### Niferoedd Staff

| | |
|---|---|
| Arweinydd Addysg Gynhwysol | 1 |
| Uwch athro/awes Ymyrraeth Gynnar | 1 |
| Athrawon Arbenigol Cynnal Ymddygiad | 6 |
| Uwch gymorthyddion arbenigol ymddygiad | 4 |
| Cymorthyddion Arbenigol Ymddygiad | 3 |
| Cymorthyddion Ymddygiad | 4 |
| Swyddog Lles Cynhwysiad | 1 |
| Swyddogion Cynhwysiad (P25) | 7 |
| Swyddogion Cynhwysiad Plant Sâl | 2 |


### Staffio Môn

| | |
|---|---|
| Arweinydd Addysg Gynhwysol | 0.5 |
| Uwch athro/awes Ymyrraeth Gynnar | 0.4 |
| Athrawon Arbenigol Cynnal Ymddygiad | 1 |
| Uwch gymorthyddion arbenigol ymddygiad | 1 |
| Cymorthyddion Arbenigol Ymddygiad | 1 |
| Cymorthyddion Ymddygiad | 1 |
| Swyddog Lles Cynhwysiad | 0.5 |
| Swyddogion Cynhwysiad (P25) | 3 |
| Swyddogion Cynhwysiad Plant Sâl | 0.8 |

### Nod y Gwasanaeth


**Canolfannau Llechan Lân CA2 - CA3**

- O ganlyniad i agor lleoliadau penodedig a staff yn cwblhau rhaglen hyfforddiant cynhwysfawr mae safonau a chyfartaledd pob mesurydd cynnydd (Presenoldeb, Boxall, Lles emosiynol Disgybl, Lles Emosiynol Barn Rhiant) wedi codi 16% i 77%.
- Mae presenoldeb pob dysgwr yn arbennig wedi codi 65% i sgôr cyfartalog o 96% sydd yn well na phresenoldeb gweddill dysgwyr yr Ynys (94.4%) a Chymru (93.8%)am yr un cyfnod. Mae hyn yn gynnydd rhagorol sydd uwchlaw'r disgwyliadau.




**Pecyn 25 CA4**

- Mae pob dysgwr oedd yn mynychu Pecyn 25 ym Môn wedi ennill o leiaf un cymhwyster cyfwerth a TGAU Lefel 1 (A*-G) roedd hyn yn Unol â un o flaenoriaethau'r gwasanaeth. Mae ychydig o'r disgyblion 11% wedi cyrraedd trothwy Lefel 1 (5 TGAU A*-G) sy'n ymhell uwchlaw'r disgwyliadau.




- Mae digwyddiadau ymddygiadol dwys wedi lleihau yn sylweddol gyda 5 diwrnod o waharddiad ar draws Ynys Môn yn Pecyn 25, o'i gymharu â chyfartaledd o 16 diwrnod gan yr un dysgwyr yn y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn dda iawn.
- Gellir gweld fod dylanwad strategaethau cynnal ymddygiad Pecyn 25 wedi codi safonau dysgwyr yn ôl data *Quality Assurance Framework for Pupils with ALN* lle mae dysgwyr Blwyddyn 10 (T1 – T3)wedi gwneud cynnydd cyfartalog o 10% i 43% ar draws bob un agwedd o'r yn ystod y flwyddyn a dysgwyr Blwyddyn 11 (T4 – T5) wedi gwneud cynnydd cyfartalog o 12% i 46%. Mae hyn yn ganlyniad cadarn iawn.
- Niferoedd dysgwyr Môn wedi bod yn sylweddol uwch (28 dysgwr) na'r hyn a oedd wedi ei broffilio yn wreiddiol (6 Ymddygiad a 6 Sâl) hyn wedi creu anawsterau mawr o ran cynnal dysgwyr.

**<u>Ymyrraeth Gynnar</u>**

- Disgyblion yn agored i staff ymyrraeth gynnar Môn: Ionawr 2018 : 22 disgybl
- Disgyblion yn agored i staff ymyrraeth gynnar Môn : Medi 2018 : 40 disgybl
- Disgyblion sydd wedi trosglwyddo i'r uwchradd : 10
- Disgyblion yn mynychu Tŷ Cybi : 4

# Gwasanaeth Lles

**Gwasanaeth Lles**


**<u>Niferoedd Staffio</u>**
Uwch Swyddog Lles (1)
Uwch Swyddog Diogelu (1)
Swyddogion Lles (10)


**<u>Staffio Ynys Môn</u>**
Uwch Swyddog Lles (0.4)
Uwch Swyddog Diogelu (0.8)
Swyddogion Lles (4)

**<u>Nod y Gwasanaeth</u>**

- Agwedd cyson tuag at bwysigrwydd presenoldeb disgyblion.
- Cynnydd yn y nifer o erlyniadau.
- Mabwysiadu trefn o gofnodi a monitro teuluoedd sy'n dewis addysgu eu plant gartref.
- Cydweithrediad a'r Gwasanaeth Diogelu.
- Datblygu a mabwysiadu system cofnodi gwaith achos ar y cyd a'r Swyddogion Data
- Gallu'r Gwasanaeth i ymateb i argyfyngau a thrychinebau – marwolaethau


**Presenoldeb – noder nad yw ffigrau 2017-18 wedi ei cadarnhau hyd yma**









Mae presenoldeb yr uwchradd yn dda iawn ond bydd rhaid cadw llygaid barcud ar bresenoldeb Cynradd.

**Data Bodlonrwydd y Gwasanaeth Lles**




Mae 88% yn cytuno fod perthynas parchus a phroffesiynol rhwng Swyddogion Lles a staff yr

Ysgol

Mae 70% yn fodlon fod Swyddogion Lles yn cynghori a rhoi arweiniad ynglŷn a phrosesau cofrestru, mae 17% yn anghytuno gyda hyn

Mae 65% yn cytuno fod Swyddogion Lles yn herio'r ysgol ynglŷn a'i prosesau / perthynas â phresenoldeb – unwaith eto mae 17% yn anghytuno gyda hyn

Mae 74% yn teimlo fod y Swyddogion Lles yn gwneud defnydd effeithiol o'i hamser gyda'r ysgol, mae 17% yn herio hyn.

Mae 82% yn cytuno fod swyddogion lles yn ymateb yn briodol a chyflym i argyfyngau gwirioneddol – mae 14% yn anghytuno â hyn.

Mae 87% yn cytuno fod y swyddogion lles yn cyfathrebu yn effeithiol gyda staff perthnasol gan gyflwyno adborth – mae 9% yn anghytuno.

**Gwaharddiadau**

Nid oes gwaharddiad parhaol wedi bod yn ystod y tair blynedd diwethaf.

**Disgyblion y mae rhieni yn dymuno eu haddysg gartref (EHE)**
Mae niferoedd EHE Môn yn ystod y ddwy flwynedd diwethaf yn eithaf tebyg gyda lleihad o 5
2014-15 = 39
2015-16 = 47
2016-17 = 41
2017-18 = 36

Mae'r Gwasanaeth Lles yn gallu cyfarch yr anghenion statudol.

Er bod cynnydd sylweddol yn y nifer o deuluoedd sy'n dewis addysgu eu plant gartref yn genedlaethol mae'r ffigwr yn parhau yn weddol gyson ar Ynys Mon. Mae'r Gwasanaeth Lles yn parhau i gyfarch yr anghenion statudol. Trefnir ymweliad a phob teulu, yn fuan wedi iddynt ddatgan eu bwriad I addysgu gartref a chwblheir holiadur ynglyn a'u bwriadau a'u cynlluniau. Ceisir ymweld a theuluoedd yn flynyddol wedyn. Mae gwybodaeth ynglyn a cheisiadau newydd cael ei rannu gyda Teulu Mon.

**Blaenoriaethau**

- Parhau i fonitro presenoldeb disgyblion y ddwy Sir gan herio ysgolion.
- Ail-edrych ar y fformiwla dyrannu adnoddau/amser S.Ll.A. Mon – anghydbwysedd o fewn yr Ynys.
- Datblygu rol y Swyddog Lles/Diogelu (MB) ymhellach

# Atodiad 2 : Darpariaeth Hyfforddiant Gwasanaeth ADY a Ch Gwynedd a Mon

# Darpariaeth Hyfforddiant Gwasanaeth ADY a Ch Gwynedd a Mon

Mae hyfforddiant yn broses o drosglwyddo sgiliau sydd yn gallu cymryd nifer o ffurfiau gwahanol. Mae'r ddogfen hon yn ceisio diffinio'r hyfforddiant sydd ar gael ar gyfer staff ysgolion ac mewn rhai achosion ar gyfer rhieni. Defnyddir y diagram isod ymhob maes er mwyn diffinio'r hyfforddiant all fod ar gael i holl staff ysgol hyd at unigolion.

## Strategaeth Hyfforddiant

Mae'n rhaid sicrhau fod gweithlu'r Tîm Integredig yn cynnwys arbenigeddau penodol fesul maes, a bod yr arbenigedd yma'n cael ei ddiweddaru'n rheolaidd, gan sicrhau fod yr ymyraethau cywir ar sail tystiolaeth yn cael eu hymarfer. Mae pob tîm arbenigol yn cynllunio Rhaglen Hyfforddiant cynhwysfawr ar gyfer y gweithlu a'r rhieni o dan arweiniad yr Uwch Seicolegwyr Addysg penodol.

Mae trosglwyddiad gwybodaeth a sgiliau yn allweddol ar gyfer datblygu gweithlu sydd yn hyderus ac yn hyddysg mewn targedu ADY a Chynhwysiad. Mae'r strwythur a rhaglen hyfforddiant yn cael ei gydlynu gan y Gwasanaeth Seicoleg Addysgol o dan arweiniad y Prif Seicolegydd Addysg. Mae'r Uwch Reolwr ADY ac Uwch Reolwr Cynhwysiad yn derbyn adroddiad tymhorol a blynyddol ynglŷn â threfniadau, defnydd a llwyddiant yr hyfforddiant sydd yn cael ei gynnig gan y Prif Seicolegydd Addysgol.

## 1. Nod

Nod Strategaeth Hyfforddiant ADY a Chynhwysiad Gwynedd ac Ynys Môn yw:

- Sicrhau ethos cynhwysol a hyderus mewn ymateb i ADY a Chynhwysiad.
- Trosglwyddo a datblygu sgiliau'r gweithlu cyfan yn barhaus.
- Creu isadeiledd cryf i gefnogi gwaith y gweithlu arbenigol.

## 2. Amcanion

Er mwyn cyrraedd at y nod hwn yr ydym yn gosod yr amcanion canlynol;

- Pob aelod o staff ysgolion Gwynedd ac Ynys Môn i dderbyn hyfforddiant ar draws y meysydd ADY a Chynhwysiad o fewn cylch 5 mlynedd.
- Creu cymunedau proffesiynol sydd yn golygu fod sgiliau yn trosglwyddo ac arfer dda yn cael ei ddathlu.


## 3. Mesuryddion

- Cynnydd yn y canran o'r gweithlu sydd wedi derbyn hyfforddiant ymhob maes.
- Gwelliant mewn dealltwriaeth ysgol gyfan o gyflyrau ac ymyraethau
- Adnabyddiaeth gynt o gyflyrau
- Tystiolaeth o ddefnydd yr hyfforddiant ar lawr y dosbarth.
- Arfarniadau o Hyfforddiant mewn Swydd sydd yn cael ei gynnig yn dangos fod y gweithlu yn gweld gwerth ac ansawdd yn yr hyfforddiant.
- Gostyngiad mewn cyfeiriadau i'r Fforymau ADY

## 4. Darpariaeth

Mae hyfforddiant yn cyfeirio at ddatblygu sgiliau a throsglwyddo'r sgiliau o un person i'r llall. Gall hyn ddigwydd mewn amryw o ddulliau ac ar lefelau gwahanol – nid ydy hyn yn gyfyngedig i Hyfforddiant mewn swydd traddodiadol. Mae hyn yn allweddol o ran ymateb yn lleol, a hefyd gweithio mor effeithiol a phosib heb roi gofynion ychwanegol ar ysgolion i ryddhau staff ble mae modd gweithio mewn ffordd hyblyg.

Mesur llwyddiant hyfforddiant yw defnydd yr wybodaeth newydd i ddatblygu ymarfer y dyfodol. Ystyrir pwysigrwydd hyfforddiant parhaus ar gyfer gweithwyr y gwasanaethau canolog, gweithwyr mewn ysgolion a rhieni. Mae'n rhaid i hyfforddiant fod yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn addas i bwrpas.



Mae hyfforddiant yn digwydd yn barhaus mewn cyfuniad o hyfforddiant ffurfiol a gwaith dydd i ddydd. Mae gan bob gweithiwr yn y gwasanaeth ADY canolog rôl yn natblygiad a chyflwyniad hyfforddiant o fewn y rhaglen hyfforddiant.

Mae gwefan gynhwysfawr o adnoddau ac arweiniad ar gael drwy rwydwaith a fydd yn sicrhau mynediad rhwydd i staff at adnoddau parod i gefnogi'r gwaith o gynnal anghenion arbenigol o fewn ysgolion. Mae'r wefan yn ffynhonnell o adnoddau ac arweiniad i ysgolion.

**Math o Hyfforddiant:** | **Darparwyr:**

### Haen 1 a 2: Hyfforddiant Mewn Swydd Cyffredinol

- ***Bwydlen o hyfforddiant mandadol sirol dros 5 mlynedd ar gyfer holl weithlu'r ysgol***

Darparwyr:

- Gwybodaeth ar gael trwy'r wefan/e-ddysgu
- Seicolegwyr Addysgol
- Athrawon Arbenigol
- Swyddogion Ansawdd ADY a Ch
- GWE neu Asiantaethau allanol ar gomisiwn

### Haen 3: Hyfforddiant wedi ei dargedu

- ***Staff Allweddol / Person Cyswllt ADYaCh pob ysgol***
- ***Fforymau Cydlynwyr ADY a Ch ar lefel sirol a dalgylch***
- ***Hyffoddiant i grwpiau penodol o athrawon neu ysgolion***

Darparwyr:

- Seicolegwyr Addysgol
- Swyddogion Ansawdd ADY a Ch
- Athrawon Arbenigol
- Asiantaethau allanol neu ddarparwyr preifat ar gomisiwn

### Haen 4: Hyfforddiant ar lefel grŵp neu ddisgybl unigol

- ***Rhan o fewnbwn ar lefel unigolyn.***
- ***Hyfforddiant ar gais Fforwm neu Banel Ymgynghori a Modelu Strategaethau***
- ***Rhannu strategaethau gyda rhieni***

Darparwyr:

- Seicolegwyr Addysgol
- Athrawon Arbenigol a Modelu gan Gymorthyddion Arbenigol y Gwasanaeth
- Asiantaethau allanol neu ddarparwyr preifat ar gomisiwn

## Model Hyfforddi

Mae gweddill y ddogfen yn rhoi gwybodaeth gryno ynglyn a Strwythurau Hyfforddiant pob rhan o’r Gwasanaeth Integredig ADY a CH sydd yn berthnasol.  Defnyddir model Haenu hyfforddiant fel y disgrifir uchod.

Mae’r wybodaeth sydd o fewn y diagramau yn crynhoi’r math o hyfforddiant sydd yn cael ei gynnig ac sut y gellir cael mynediad ato.  Mae’n bwysig nodi bod yr arlyw yn hyblyg er mwyn cyrraedd diwallu anghenion sydd yn lleol i ardal, clwstwr ac ysgol unigol.  Ar yr Haen uchaf mae angen teilwrio yn ol achos.

| Mynediad at: | Math | Lleoliad | Darparwr Arferol |
|---|---|---|---|
| **Unigolion sydd yn cael mewnbwn gan Dim Penodol/ CDU Awdurdod** | **Haen 4: Arbenigol**<br>Ymyrraeth uniongyrchol neu anuniongyrchol sydd yn cael ei gyflwyno ar y cyd gyda Gweithiwr Proffesiynol ar gyfer plentyn unigol | | |
| **Unigolion sydd yn cael mewnbwn gan Dim Penodol/ CDU Awdurdod** | **Haen 3: Wedi ei Dargedu**<br>Strategaethau Penodol sydd wedi eu teilwrio ar gyfer unigolyn/grwp<br>Darparu fel arfer gyda cydweithio rhwng Staff canolog ADY a CH ac Asiantaethau eraill | | |
| **Cais drwy gyfarfod Dalgylch/Ardal Tim Seicoleg Addysgol** | **Haen 2: Cyffredinol ADY a CH**<br>Straegaethau sydd yn gallu cael eu defnyddio ar gyfer targedu grwpiau a gwahaniaethu penodol ADY<br>Darparu gan Staff Addysg ADY a CH | | |
| **Rhaglen HMS** | **Haen 1: Dysgu ac Addysgu o Ansawdd**<br>Hyfforddiant cyffredinol sydd yn cael ei gynnig y tu allan i ADY a CH | | |

## Craidd a Chyffredinol

Mae'r hyfforddiant Craidd a Chyffredinol yn bennaf ar gyfer y Person allweddol o fewn Ysgolion o ran Cydlynnu ADY a CH.  Mae agweddau o'r hyfforddiant hefyd yn debygol o gael ei gynnig i Bennaethiaid, Llywodraethwyr ac Athrawon.

Nod Hyfforddiant Craidd ADY a CH yw:


- Sicrhau fod ysgolion, a Chydlynwyr Clwstwr ADY a Chynhwysiad yn cyd-fynd â gofynion y Cod Ymarfer ADY/Cod Ymarfer newydd ADY a Chynhwysiad.
- Datblygu a monitro ansawdd a chysondeb yn y modd y mae ADY a Chynhwysiad yn cael ei dargedu ar draws Gwynedd a Môn.

| | | |
|---|---|---|
| **Arbenigol**<br>Ymweliad ar gais yr Awdurdod/Panel Cymedroli | **Ysgol** | Swyddog Ansawdd |
| **Wedi ei Dargedu**<br>Mewnbwn unigol I gydlynydd er mwyn defnyddio'r wybodaeth sydd yn cael ei nodi yn yr haen isod<br>Hyfforddiant Cydlynnu ar gyfer Cydlynnwyr newydd<br>Syrjeris galw i Fewn | Ysgol | Swyddog Ansawdd |
| **Cyffredinol ADY a CH**<br>Gofynion Statudol a Deddfwriaethol<br>Defnydd o'r CDU a Cynllunio sydd yn canolbwyntio ar yr unigolyn<br>Mapio Darpariaeth<br>Cynllunio Ymyrraethau Ysgol Gyfan<br>Scrinio/Asesu Monitro | Cyfarfod Cydlynwyr<br>Cyfarfod Dalgylch<br>Seicoleg Addysgol | Swyddog Ansawdd/<br>Seicolegydd Addysgol |
| **Dysgu ac Addysgu o Ansawdd**<br>Dulliau gwahaniaethu<br>Cynhodeb newidiadau Deddfwriaethol<br>Hyfforddiant Cynllunio sydd yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn | Lleoliad wedi ei drefnu | Darparwr arall e.e. GWE, Swyddog Trawsnewid Ll C |

## Nam Golwg a Nam Clyw

Mae hyfforddiant sydd yn cael ei gynnig gan y Tim Nam Golwg a Nam Clyw yn ddibynnol ar bresenoldeb yr anghenion yma o fewn Ysgol, neu yn rhan o baratoi tuag at angen yn y dyfodol.


- Sicrhau fod staff allweddol o fewn ysgolion yn meddu'r sgiliau ac adnoddau priodol wrth weithio gyda disgybl gyda nam synhwyraidd.
- Hybu sgiliau mewn cyflwyno a monitro datblygiad Cwricwlwm Arbenigol ymysg disgyblion Nam Synhwyraidd a sicrhau datblygiad cadarn o'r sgiliau angenrheidiol.
- Hybu mynediad y disgyblion hyn i'w amgylchedd a'u cymuned.



## Corfforol a Meddygol

Mae hyfforddiant sydd yn cael ei gynnig gan y Tim Corfforol a Meddygol yn ddibynnol ar bresenoldeb yr anghenion yma o fewn Ysgol, neu yn rhan o baratoi tuag at angen yn y dyfodol.

- Sicrhau fod staff allweddol o fewn ysgolion yn meddu'r sgiliau ac adnoddau priodol wrth weithio gyda disgybl gyda anhawsterau Corfforol a Meddygol.
- Hybu mynediad y disgyblion hyn i'w amgylchedd a'u cymuned.
- Hwyluso ymateb addas a rhesymol pobl ifanc sydd yn profi anawsterau meddygol a/neu gorfforol lle bo'r anghenion yma yn effeithio yn sylweddol ar fynediad yr unigolion i'r cwricwlwm.



## Cyfathrebu a Rhyngweithio

Nod Hyfforddiant yn y maes Cyfathrebu a Rhyngweithio yw:

- Ystyried anawsterau gyda Cyfathrebu a Rhyngweithio yn sbectrwm y mae angen cynllunio ar ei gyfer fel rhan annatod o ddarpariaeth yr ysgol.
- Sicrhau fod pob athro/awes yn cynllunio i ymateb i'r anawsterau hyn fel rhan o gwricwlwm dydd i ddydd y dosbarth.
- Fod â phrosesau sgrinio pendant yn eu lle ar gyfer adnabod disgyblion sydd yn dangos anawsterau.
- Fod yn ymateb yn raddoledig i anghenion drwy sefydlu ymyraethau ar gyfer grwpiau o blant, neu blant unigol sydd wedi cael eu hadnabod drwy brosesau sgrinio ac asesu.
- Fod yn mesur cynnydd plant sydd yn derbyn ymyraethau er mwyn gallu dangos effeithiolrwydd yr ymyraethau.
- Sut i wneud defnyddio asesiadau safonol a cyfeiriol er mwyn dod i gasgliad ynglŷn â chynnydd ag ymyrraeth addas.

| | | |
|---|---|---|
| **Arbenigol Uniongyrchol:** e.e. Therapi Uniongyrchol, Makaton, PECS **Arbenigol Anuniongyrchol** e.e. Modelu strategaethau i gymhorthydd | Prif Lif/Ysgol Arbennig/Canolfan Anhwylder Iaith/ Ymestyn Allan | Therapydd Iaith a Lleferydd Seicolegydd Addysgol Athrawes Arbenigol Cymhorthydd Arbenigol |
| **Wedi ei Dargedu** Teilwrio Strategaethau e.e. Pecyn Sgiliau Naratif, Makaton, Strategaethau Elklan, Ciwiau a Thechnegau Gweledol, Stratgaethau grwp bach e.e. Talkabout | | Seicolegydd Addysgol/ Athrawon Arbenigol Cymhorthydd Arbenigol |
| **Cyffredinol ADY a CH** Pecyn Trosglwyddo Cynradd Uwchradd Pecyn Hyfforddiant Cyfathrebu a Rhyngweithio sydd yn cwmpasu'r holl arfer dda yn y maes | | Seicolegydd Addysgol/ Athrawes Arbenigol |
| **Dysgu ac Addysgu o Ansawdd** Hyfforddiant cyffredinol sydd yn cael ei gynnig y tu allan i ADY a CH | | Darparwr Arall – e.e. GWE, Asdinfowales |

## Anghenion Dysgu Penodol

Nod hyfforddi yn y maes Anghenion Dysgu Penodol yw:

- Ystyried anawsterau gyda llythrennedd a rhifedd yn sbectrwm y mae angen cynllunio ar ei gyfer fel rhan annatod o ddarpariaeth yr ysgol.
- Sicrhau fod pob athro/awes yn cynllunio i ymateb i'r anawsterau hyn fel rhan o gwricwlwm dydd i ddydd y dosbarth.
- Fod â phrosesau sgrinio pendant yn eu lle ar gyfer adnabod disgyblion sydd yn dangos anawsterau.
- Sicrhau fod pwyslais cryf ar ddatblygu sgiliau ffonolegol ac iaith, cyn-lythrennol a chyn-rifyddol yn fuan yn y cyfnod sylfaen er mwyn lleihau risgiau ar gyfer datblygu anawsterau llythrennedd a rhifedd.
- Fod yn ymateb yn raddoledig i anghenion drwy sefydlu ymyraethau ar gyfer grwpiau o blant, neu blant unigol sydd wedi cael eu hadnabod drwy brosesau sgrinio ac asesu.
- Fod yn mesur cynnydd plant sydd yn derbyn ymyraethau er mwyn gallu dangos effeithiolrwydd yr ymyraethau.
- Sut i wneud defnyddio asesiadau safonol a cyfeiriol er mwyn dod i gasgliad ynglŷn â chynnydd ag ymyrraeth addas.

| | |
|---|---|
| **Arbenigol Uniongyrchol:**<br>e.e. Dysgu ac Asesu Uniongyrchol<br>**Arbenigol Anuniongyrchol**<br>e.e. Modelu strategaethau i gymhorthydd | Seicolegydd Addysgol/ Athrawon Arbenigol |
| **Wedi ei Dargedu**<br>Teilwrio Strategaethau<br>Pecynnau gwaith wedi eu teilwrio<br>Profion ac ymyrraethau penodol | Seicolegydd Addysgol/ Athrawon Arbenigol |
| **Cyffredinol ADY a CH**<br>Hyfforddiant Ysgolion sydd yn gyfeillgar i Anghenion Dysgu Penodol<br>Datblygu fel Ysgol Gyfeillgar at ADP<br>Dulliau Monitro a sgrinio | Seicolegydd Addysgol/ Athrawes Arbenigol |
| **Dysgu ac Addysgu o Ansawdd**<br>Hyfforddiant cyffredinol sydd yn cael ei gynnig y tu allan i ADY a C | Darparwr Arall – e.e. GWE |

## Cynhwysiad a Pecyn 25

Nod hyfforddiant sydd yn cael ei gynnig ym maes Cynhwysiad yw:

- hyrwyddo ethos o weithio mewn partneriaeth rhwng disgyblion, staff yr ysgol ac asiantaethau allanol.
- Hyrwyddo ethos o sefydliadau sydd yn Annog ac yn Meithrin disgyblion, sydd yn trin pob disgybl yn rhan werthfawr o gymdeithas yr Ysgol.
- Hyrwyddo cysondeb
- Hwyluso’r gwaith o ddelio â phroblemau a thrwy hyn adeiladu hyder staff

| | | |
|---|---|---|
| **Arbenigol Uniongyrchol:**<br>Sesiynau Therapi uniongyrchol<br>**Arbenigol Anuniongyrchol**<br>e.e. Modelu strategaethau i staff ysgolion | Ysgol/ Uned Gyfeirio/ Grwp Annogaeth | Seicolegydd Addysgol Athrawes Arbenigol/ Cymhorthydd Arbenigol |
| **Wedi ei Dargedu**<br>NNSP<br>MAPA Cyflawn<br>Strategaethau Cynnal Ymddygiad wedi eu teilwrio ar gyfer unigolyn/grwp e.e. cynllun cymhelliant | Ysgol | Seicolegydd Addysgol/ Athrawon Arbenigol |
| **Cyffredinol ADY a CH**<br>Pecyn Trosglwyddo Cynradd Uwchradd<br>Pecyn Hyfforddiant Rheolaeth Dosbarth<br>ELSA<br>Hyfforddiant ymwybyddiaeth e.e. Ymlyniad/ Trawma Datblygiadol/ Cyswllt rhwng ymddygiad ac anghenion eraill | | Seicolegydd Addysgol/ Athrawes Arbenigol |
| **Dysgu ac Addysgu o Ansawdd**<br>Hyfforddiant cyffredinol sydd yn cael ei gynnig y tu allan i ADY a CH | | Darparwr Arall – e.e. GWE |

# Atodiad 3 : Datblygu Ysgolion ADP Gyfeillgar

# Datblygu Ysgolion ADP Gyfeillgar

## Anawsterau Dysgu Penodol (ADP)

Gwasanaeth Seicoleg Addysg Gwynedd a Mon



# Cynnwys...


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| **1.** | Anawsterau dysgu penodol | 3 |
| **2.** | Ysgolion ADP gyfeillgar | 4 |
| **3.** | Gwybodaeth a syniadau ychwanegol | 6 |
| **4.** | Offeryn hunanasesu ysgol ADP gyfeillgar | 13 |
| **5.** | Blaenoriaethau eich ysgol | 21 |
| **6.** | Cynllun gweithredu | 22 |

# Anawsterau Dysgu Penodol

## Beth yw Anawsterau Dysgu Penodol?

Mae anawsterau dysgu penodol (ADP) yn effeithio ar y ffordd y mae gwybodaeth yn cael ei ddysgu a'i brosesu, a gall hyn gael effaith sylweddol ar addysg a dysgu. Gallant ddigwydd ar draws ystod eang o alluoedd deallusol ac mae dysgwyr yn amrywio o ran sut y mae eu hanawsterau'n amlygu eu hunain. Gan amlaf, y mae'r term ADP yn cyfeirio at:

- Anawsterau llythrennedd penodol (y cyfeirir ato weithiau fel dyslecsia)
- Anhawster penodol mewn rhif
- Anhwylder cydsymud datblygiadol (y cyfeirir ato weithiau fel dyspracsia)
- Anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd
- Nam iaith penodol.

## Anhawster Llythrennedd Penodol / Dyslecsia

Dros y can mlynedd ddiwethaf ers i ddyslecsia gael ei adnabod, cafwyd llyfrau di-ri a nifer o ddiffiniadau o ddyslecsia. Mae Gwasanaeth Seicoleg Addysg Gwynedd ac Ynys Môn yn cymeradwyo'r diffiniad canlynol:

> *"Mae Dyslecsia yn bodoli pan fo cywirdeb a llif darllen geiriau a/neu sillafu yn datblygu gydag anhawster mawr neu yn anghyflawn. Mae hyn yn ffocysu ar ddarllen ar lefel gair ac mae'n awgrymu fod y broblem yn sylweddol ac yn barhaus er gwaethaf cyfleon dysgu addas. Mae'n rhoi sail i broses dysgu fesul camau ac asesu trwy ddysgu"*
>
> **Cymdeithas Seicoleg Prydain (BPS), 1999**

Mae'r diffiniad yma:

- Wedi ei seilio ar dystiolaeth ymchwil;
- yn canolbwyntio ar anawsterau a arsylwyd, ac y mae modd eu harsylwi;
- mae'n seiliedig ar dystiolaeth ymchwil sy'n nodi nad oes angen unrhyw brawf neu broffil prawf i nodi dyslecsia, ac nad oes unrhyw brawf neu broffil prawf yn ddigonol i'w nodi
- mae'n seiliedig ar dystiolaeth ymchwil sy'n cadarnhau'r farn y gall dyslecsia effeithio ar blant a phobl ifanc o bob gallu;
- nid yw'n dibynnu ar nodi gwahaniaeth rhwng gallu plentyn/person ifanc mewn un maes a'i allu mewn maes arall.

# Ysgolion ADP Gyfeillgar

Mae'r cynllun Ysgolion ADP/Dyslecsia Cyfeillgar wedi ei sefydlu yn benodol mewn llawer o awdurdodau yng Nghymru a Lloegr. Mae'r Gymdeithas Dyslecsia Prydeinig wedi ymgorffori'r cysyniad ers 1999 ac wedi cyhoeddi pecyn o adnoddau Ysgolion Dyslecsia Cyfeillgar (BDA, 1999).

> *"Un o'r egwyddorion sylfaenol o fod yn **ysgol ADP/dyslecsia cyfeillgar** yw'r disgwyliad y bydd athrawon yn cymryd camau yn syth wrth adnabod plant gydag anghenion dysgu ychwanegol, yn hytrach na'u chyfeirio am asesiad pellach ac aros am 'label'. Mewn ysgol ADP/dyslecsia cyfeillgar mae **pob athro/awes** yn cael ei rymuso, trwy hyfforddiant, polisi ac ethos i nodi materion dysgu a chymryd camau rheng flaen. Dyma'r polisi o ymyrraeth gynnar yn cael ei gyfieithu i ymarfer yn y dosbarth"*
>
> **Canllawiau Cymdeithas Dyslecsia Prydain**.

## Rhesymeg

Mae agweddau traddodiadol tuag at ddyslecsia/anawsterau penodol mewn llythrennedd yn aml yn dibynnu ar broses asesu diagnostig sydd yn adlewyrchu'r *"model meddygol"*. Erbyn hyn, mae'r fodel yma yn annigonol, yn enwedig yng ngoleuni'r ymchwil ac arferion da presennol.

Mewn cyferbyniad, mae'r rhaglen **'Ysgolion Dyslecsia/ADP Cyfeillgar'** yn rhaglen gynhwysol sydd yn sefydlu atebolrwydd ysgol gyfan yn glir am gefnogi pob plentyn sydd yn profi anhawster gyda llythrennedd. Mae hefyd yn cynnwys y disgyblion a rhieni yn y broses (MacKay, 2006).

Mae'r rhaglen yn codi ymwybyddiaeth a hyder athrawon i ddelio hefo anawsterau llythrennedd gan fod dulliau cynhwysol yn cael ei mabwysiadu'n fwyfwy. Mae Reid (2005) yn awgrymu nad oes ateb neu raglen benodol ar gyfer pob plentyn ac felly mae angen i'r athro/awes fod yn hyblyg wrth ddatblygu adnoddau a strategaethau addysgu.

## Y Fframwaith ADP (Llywodraeth Cymru)

Mae Ysgolion ADP Gyfeillgar yn adlewyrchu Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd y Llywodraeth. Mae deunyddiau ychwanegol o ran gwybodaeth a chanllawiau ynglŷn â'r fframwaith ADP ar gael drwy wefan Dysgu Cymru yn www.dysgu.llyw.cymru/resources/collections/spld-framework/?lang=cy. Yn fras, mae'r fframwaith yn ffocysu ar ddisgwyliadau ar draws tair lefel:

- **Ysgolion:** yn sicrhau bod eu polisïau yn cefnogi dysgwyr ag ADP
- **Dysgwyr:** yn cymryd mwy o ran yn eu dysgu
- **Ymarferwyr:** yn nodi, cefnogi a gweithredu ymyraethau pwrpasol ar gyfer dysgwyr sydd mewn perygl o gael eu gadael ar ôl gan eu cyfoedion.

## Nod y Rhaglen ADP Cyfeillgar

### Lefel Ysgol

- Sefydlu cyfrifoldeb ysgol gyfan am gefnogi disgyblion gydag ystod o anawsterau llythrennedd
- Creu cyfleoedd datblygiad proffesiynol sy'n ymwneud a ADP/dyslecsia cyfeillgar ar gyfer holl staff
- Creu amgylchedd ac ethos dysgu ADP/dyslecsia cyfeillgar ar draws yr ysgol
- Adnabod plant sydd ag anawsterau llythrennedd yn fuan a gweithredu ymyrraeth briodol
- Cydnabod ac annog rôl effeithiol y gall rhieni ei chwarae mewn partneriaeth ag ysgolion

### Lefel Disgybl

- Sicrhau mynediad i strategaethau ymyrraeth briodol sy'n berthnasol ac yn cyd-fynd gydag anghenion y plentyn
- Cynnwys pobl ifanc yn llawn yn y broses o drafod eu hanghenion ychwanegol a'u cynnydd.
- Datblygu gwytnwch a grymuso plant a phobl ifanc.

### Lefel Ymarferwyr / Athrawon / Staff

- Egluro disgwyliadau a chyfrifoldebau ar gyfer athrawon, disgyblion a rhieni
- Normaleiddio'r continwwm ADP/dyslecsia o fewn cyd-destun dosbarth drwy ymgorffori strategaethau cymorth o fewn dosbarthiadau
- Cynnal a gwella mynediad effeithiol a theg i gefnogaeth a gynlluniwyd gan ddefnyddio ymyrraeth cam wrth gam
- Sicrhau disgrifiad cywir o anawsterau a chryfderau'r plentyn gan ddefnyddio amrywiaeth o strategaethau asesu
- Mynediad teg i'r cwricwlwm gan gynllunio a gwahaniaethu yn briodol ar gyfer unigolion.

*Mae'n debyg y bydd plant sy'n profi anawsterau parhaus gyda llythrennedd yn disgyn yn rhywle ar hyd continwwm. Mae hyn yn galluogi pawb i ganolbwyntio mwy ar y cwestiwn canlynol...*

***Beth ydym ni'n mynd i'w wneud amdano?***

# Gwybodaeth a Syniadau Ychwanegol

## Lefel Ysgol

### Sut y bydd dysgwyr ADP yn cael eu hadnabod a'u monitro?

Un rhan o ddeall y dysgwr yw casglu gwybodaeth i ddeall mwy am ei (h)anawsterau a'u cryfderau. Dylai asesiad fod yn fwy na sgôr yn unig. Yn aml, gall arsylwi disgybl yn gwneud asesiad fod yr un mor ddefnyddiol ag edrych ar y sgôr. Gall patrwm ymatebion y dysgwr fod yn ddefnyddiol hefyd *e.e.* gall asesiad sillafu ddarparu gwybodaeth am ble mae'r heriau sillafu.

> *Mae asesiad yn* ***un rhan*** *yn unig o'r wybodaeth sydd ei hangen wrth gynllunio ymyrraeth. Mae cael gwybodaeth gadarn a chynhwysfawr i lunio proffil o gryfderau a heriau'r dysgwr yn ddull da, beth bynnag fo'r 'diagnosis'.* ***Dylid defnyddio gwybodaeth asesu yn bennaf i lywio a gwerthuso strategaethau ymyrraeth.***

### Cael darlun cyflawn o anghenion a chryfderau'r dysgwr

Mae'n bwysig coladu gwybodaeth o wahanol ffynonellau gan rieni/gofalwyr ac athrawon (a'r dysgwr lle bo hynny'n briodol). Pan gaiff anawsterau llythrennedd eu hamlygu, dylid ystyried ffactorau eraill gan gynnwys faint o brofiad y mae'r dysgwr wedi ei gael, a'r posibilrwydd sydd ganddynt o unrhyw anawsterau iaith a all fod yn cyfrannu at yr anawsterau a amlygwyd.

### Eu gwneud yn eglur ac yn hygyrch i rieni / gofalwyr ac asiantaethau allanol

Mae'n bwysig fod ysgolion yn gweithio yn agos gydag rhieni a gofalwyr ym mhob rhan o'r broses. Gall wneud hyn sicrhau fod perthynas dda rhwng yr ysgol a rhieni. Gall rieni/gofalwyr rannu gwybodaeth hefo'r ysgol y gall fod yn ddefnyddiol wrth ddatblygu strategaethau a rhaglenni addas i gefnogi disgyblion.

### Dysgu proffesiynol ar gyfer holl staff

Bydd modd defnyddio'r cyfarfodydd cynllunio blynyddol hefo'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg ar gyfer blaenoriaethu anghenion hyfforddiant eich ysgol. Gallwch hefyd gyfeirio at wahanol arbenigwyr o fewn y gwasanaeth ADYaCh am fewnbwn pellach.

## Adnoddau asesu / Ymyraethau

| Asesiad / Sgrinio | |
|---|---|
| **Cymraeg** | **Saesneg** |
| Profion Glannau Menai | LASS |
| Profion Cenedlaethol | Young's Parallel Spelling |
| Profion Cymru Gyfan | York Assessment of Reading Comprehension (YARC) |
| "Rydw i'n gallu…" (IAE) Llythrennedd a Rhif | |
| Prawf sampl ysgrifennu rhydd (EWO) | |
| **Pecynnau Ymyrraeth** | |
| **Cymraeg** | **Saesneg** |
| Tric a Chlic | Direct Phonics |
| Cychwyn Eto | Simultaneous Oral Spelling (Look, spell, write, check) |
| Darllen ar y cyd | Toe by Toe |
| Dyfal Donc | Reading Eggs |
| O Gam i Gam | Wordshark |
| Darllen gyda Sam | Headsprout |
| Camu ymlaen (llythrennau dwbl). | Spelling buddies |
| Writing Wizard (app) | Star Spell |
| Swyn Sillafu (rhaglen ar y we). | Read, Write, Inc. |
| TRUGS – Cymraeg a Saesneg | Primary Phonics (EPS) |
| Pitrwm patrwm | Jollyphonics |
| Pip a pop (gemau ar y we) | Lexia |
| 'Rhys Bys' (atalnodi) (IAE) | |
| Darllenwyr Deallus (IAE) | |
| STILE | |
| Gemau Ffonolegol (IAE) | |
| Llyfrynnau Ffonics a Geiriau Cyffredin (IAE)<br>Pecyn darllen manwl yn seiliedig ar yr uchod | |

## Lefel Dysgwr

Enghreifftiau o sut i gefnogi ar lefel dysgwyr/disgyblion.

- I ysgolion gynnwys y dysgwyr, rhieni ac asiantaethau perthnasol wrth gynllunio ffyrdd ymlaen a drwy’r broses adolygu.  Gall ddefnyddio egwyddorion a dulliau person canolig er mwyn sicrhau fod y dysgwr yn rhan o’r broses.

- Bod y gwersi yn cael eu gwahaniaethu yn ôl anghenion y dysgwyr.

- Bod staff yr ysgol yn casglu adborth rheolaidd oddi wrth ddysgwyr am yr hyn sy'n gweithio a beth sydd ddim yn gweithio o’u safbwynt nhw.  Gall y wybodaeth yma gael ei rannu rhwng staff allweddol. Sicrhau fod gan bob dysgwr broffil un tudalen sydd yn cefnogi’r broses o gynllunio, ac yn ein helpu i ddarparu dysgu personol.

**Ymyrraeth**

Mae ymyrraeth yn dechrau hefo addysgu o ansawdd da ac arfer digonol a phriodol yn yr ystafell ddosbarth, a gweithio gyda'r rhieni/gofalwyr neu warcheidwad i atgyfnerthu'r sgiliau hyn.

Mae defnyddio dulliau amlsynhwyraidd yn egwyddor generig ar draws pob ADP. Y sail resymegol ar gyfer hyn yw darparu dulliau amrywiol i fodloni anghenion ystod o ddysgwyr gwahanol mewn dosbarth, grŵp ac mewn lleoliadau un-i-un.

Mae adroddiad Rose yn disgrifio 'tair Ton Darpariaeth' er enghraifft:

- **Ton 1** – Gwaith ffonig systematig o ansawdd uchel fel rhan o gwricwlwm eang mewn ystod o weithgareddau a phrofiadau i ddatblygu eu sgiliau siarad a gwrando a'u hymwybyddiaeth ffonolegol.

- **Ton 2** – Ymyriadau mewn grwpiau bach ac un-i-un i ddysgwyr y mae angen cymorth ychwanegol arnynt i gyflawni'n well, y gellir ei ddarparu trwy raglenni ymyrraeth â therfyn amser mewn grwpiau bach sy'n cael eu cyflwyno gan aelod o dîm cymorth yr ysgol yn yr ystafell ddosbarth.

- **Ton 3** – Darperir cymorth pellach i'r plant hynny y mae angen rhaglen sydd wedi ei theilwra i'w hanghenion penodol. Fel arfer, caiff ei addysgu fel rhaglen un-i-un gan athro/athrawes neu aelod o'r staff cymorth sydd wedi ymgymryd â rhywfaint o hyfforddiant ychwanegol ar gyfer addysgu plant ag anawsterau o'r fath.

**Monitro ac adolygu**

Mae'n hanfodol monitro effeithiolrwydd unrhyw ymyrraeth. Gall ddilyn y camau canlynol:

- Monitrwch gynnydd am gyfnod gosodedig, e.e. un/dau dymor.
- Cyfarfod adolygu. *A fu arfer ac amser priodol a digonol i ennill y sgiliau?*
- Trafodwch yr hyn sydd wedi gweithio'n dda. *Beth ellid ei newid? Pa ddeilliannau newydd y mae angen eu gosod er mwyn parhau i symud ymlaen?*
- Unrhyw bryderon parhaus neu ddiffyg ymateb i ymyrraeth - dilynwch ganllawiau neu lwybr, os oes un ar waith, neu gyfeirio at weithiwr proffesiynol priodol a darparwch wybodaeth waelodlin a chynllun gweithredu o'r ymyrraeth hyd yn hyn.
- Asiantaethau allanol sydd yn gallu cynnig arweiniad os ydy'r camau uchod heb fod yn ddigonol (h.y. mae'r cynnydd yn is na'r disgwyl) – Athrawon Arbennigol ADP, Gwasanaeth Seicoleg Addysg.

**Y Gwasanaeth Seicoleg Addysg**
Mae'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg yn gallu cefnogi ysgolion trwy gynnig:

**Hyfforddiant**

- Gall y Gwasanaeth gynnig hyfforddiant ar nifer o lefelau (grŵp bach, ysgol gyfan, lefel dalgylch) ar wahanol faterion. Gall ddefnyddio'r ffurflen hunan arfarnu isod er mwyn manylu pa hyfforddiant fyddai o fudd i'r ysgol.
- Hyfforddiant ADP gyfeillgar

**Cynnal a cychwyn prosiectau ymchwil**

- Er enghraifft – adnabod mesuryddion dilys, dadansoddi canfyddiadau, helpu i osod ymyrraeth mewn lle a gwerthuso'r ymyrraeth eisoes.

**Ymgynghori (lefel grŵp neu lefel unigol)**

- Ymgynghoriadau grŵp / cylchoedd datrysiad o fewn y dalgylch
- Ymgynghoriadau unigol rhwng yr ysgol a rhieni

**Goruchwyliaeth / sesiynau trafod ar gyfer staff**

- E.e. cylchoedd datrysiad, sesiynau grŵp.

**Unrhyw asesiadau addas**

- Gall hyn fod yn benderfyniad mewn cyfarfodydd cynllunio neu yn dilyn ymgynghoriad, ac mae'r asesiad yn cyd-fynd hefo gweithdrefnau'r GSA.

**Y Gwasanaeth Angenion Dysgu Penodol**

Mae'n bosib gwneud cais am fewnbwn y Tim ADP trwy'r Fforwm Ardal, hynny o bosib yn dilyn trafodaeth yn y cyfarfod cynllunio gyda'r Seicolegydd Addysgol neu Ymgynghoriad Unigol, neu trwy drafodaeth yn y cyfarfod dalgylch. Mae angen bod unrhyw gais o fewn Meini Prawf mynediad y Gwasanaeth.

Mae'r Tim ADP yn gallu:

- Cynorthwyo'r ysgol i roi strategaethau ar waith (weithiau yn dilyn asesiadau pellach)
- Rhannu adnoddau ar gyfer eu defnyddio mewn sesiynau targedu ac o fewn y dosbarth
- Modelu strategaethau i staff yr Ysgol
- Cynnig mewnbwn unigol neu am gyfnod penodol

Enghreifftiau o strategaethau ADP gyfeillgar gall ei ddefnyddio i gefnogi disgyblion o fewn y dosbarth:

**Darllen**

- Darnau bach o destun gyda mannau wedi'u diffinio'n glir
- Blychau a fframiau i wahanu syniadau o fewn y testun e.e., yn cynnwys un mewn blwch ac esboniadau mewn un arall
- Gall codio lliw'r testun i'w gwneud yn haws i'r athro/awes arwain y disgybl
- Defnyddio pwyntiau bwled a rhestrau yn hytrach na rhyddiaith barhaus
- Defnyddio diagramau a lluniau i dorri'r testun
- Gwiriwch pa mor ddarllenadwy yw'r testun. Os yw'r disgybl yn gallu darllen oddeutu 90% o'r testun, yna byddant yn gallu datgodio digon o wybodaeth er mwyn rhoi cynnig ar y geiriau anodd.
- Taflenni gwaith yn cael eu teipio yn hytrach na llawysgrifen. Mae hyn yn galluogi defnyddio print cyson i sicrhau fod y dysgwr yn ei adnabod. Enghraifft o ffontiau addas: Sans Comic maint 12 neu 14.
- Cyd-ddarllen y testun gyda'r dosbarth fel bod y disgybl yn teimlo'n fwy hyderus wrth ddarllen yn annibynnol
- Cael trafodaeth dosbarth o'r testun cyn gwaith unigol
- Cyflwyno geiriau dyrys a fydd yn ymddangos yn y testun
- Defnyddio gwahanol fathau o liwiau gyda phob llinell ysgrifennu i helpu'r disgybl wybod pa air i'w darllen ar y llinell nesaf.
- Gellir creu ffrâm o gardfwrdd sydd yn datgelu un neu ddau o eiriau yn unig ar y tro.
- Defnydd o 'Reading Rulers' (tinted)

**Anawsterau Gweledol**

- Gall papur lliw helpu rhai disgyblion i ddarllen ac ysgrifennu

**Sillafu**

- Adeiladu a chwalu gair
- Cysylltiadau amlsynhwyraidd
- Defnyddio cardiau sillafu ar gyfer pob sŵn/llythyren newydd.
- Defnyddio arferion 'Simultaneous Oral Spelling' neu 'Look, Cover, Write, Check'.
- Dysgu sut i hollti air yn gywir. Wird attack skills.

**Adnabod a Chreu Odl**

- Os oes gan ddisgybl wybodaeth ddigonol o ffoneg ond mae ganddo fo/hi broblemau cyfuno, yna gall weithio ar synau cychwynnol ac odl.
- P.A.T.

| |
|---|
| **'Mnemonics'**<br><br>• Gellir eu defnyddio i helpu cofio sillafu gair. Os yw'r llun yn cynnwys y gair, mae yn hyd yn oed gwell. |
| **Mapiau Meddwl ©**<br><br>• Datblygwyd Mapiau Meddwl gan Tony Buzan (1993). Fe'i defnyddir er mwyn helpu'r dysgwyr i gynllunio, trefnu a chofio gwybodaeth. Mae'r disgybl yn dechrau hefo'r prif syniad ac yna'n meddwl am syniadau eraill. |
| **Fframiau ysgrifennu**<br><br>• Mae llawer o 'fframiau ysgrifennu' yn cynnig strwythur i ddisgyblion wrth fynd ati i ysgrifennu. Gallant hefyd helpu wrth leihau pwysau o weld tudalen wag. |
| **Technoleg Gwybodaeth**<br><br>• Gall ddefnyddio Technoleg Gwybodaeth er mwyn cefnogi sawl agwedd o ddysgu, er enghraifft:<br>o Trefnu syniadau<br>o Cyflwyno gwybodaeth yn daclus<br>o Addasu a newid gwaith ysgrifenedig yn haws<br>o Gallu newid maint yr ysgrifen a lliw'r cefndir yn haws<br>o Rhaglenni i gefnogi darllen ac ysgrifennu<br>• Dyfeisiadau Recordio: Gall defnyddio 'Dictaphone' neu recordydd digidol gefnogi disgyblion hefo problemau cof tymor byr. Gall ei ddefnyddio i gofnodi eu gwaith (e.e. Dragon). |

# Offeryn Hunanasesu Ysgol ADP Gyfeillgar

Yng Ngwynedd a Môn, mi fydd pob ysgol sydd yn gweithredu i fod yn Ysgol ADP Gyfeillgar yn cwblhau proses hunan arfarnu sydd yn ffocysu ar y meysydd canlynol:

- **Lefel ysgol**
- **Lefel disgybl**
- **Lefel ymarferwyr (staff ysgol)**

## Sut i ddefnyddio'r offeryn

- Mae'r offeryn hunanasesu yn gofyn i chi edrych ar eich arferion, polisïau, sgiliau a gwybodaeth rheini yr ydych yn gweithio gyda nhw. Mae pob pwnc yn eich galluogi i roi sgôr ar raddfa i'ch hunan.
- Caiff mwy o wybodaeth am pob pennawd yn atodiad A

| Allwedd | | |
|---|---|---|
| **Blaenoriaeth** | 🔴 | Mae hyn yn golygu eich bod wedi nodi bod hwn yn faes sydd angen gwaith |
| **Datblygu** | 🟡 | Mae datblygu yn golygu fod gwaith wedi dechrau yn y maes hwn yn barod |
| **Sefydlu** | 🟢 | Mae sefydlu yn golygu bod hyn yn digwydd yn barod ac yn ei wneud yn dda iawn |

Wedi i chi lenwi'r ffurflen hunanasesu, gallwch ddefnyddio'r wybodaeth i greu cynllun gweithredu. Dylai'r cynllun yma ddisgrifio'r camau yr ydych am ddatblygu a newid er mwyn eich galluogi i symud i fynnu ar bob agwedd.

Darllenwch bob datganiad a thiciwch un o'r tri blwch sydd fwyaf addas i'ch ysgol chi:

| **Ysgol:** | **Dyddiad:** Click or tap to enter a date. |
|---|---|

## Lefel Ysgol

Dylai **ysgolion** sicrhau bod eu polisïau'n cefnogi dysgwyr ag ADP trwy:

| | Blaenoriaeth | Datblygu | Wedi sefydlu |
|---|---|---|---|
| **Egluro sut y bydd dysgwyr ag APD yn cael eu nodi, eu cynorthwyo a'u monitro**<br>*e.e. dulliau monitro a gwerthuso cynnydd holl ddysgwyr, map darpariaeth, cydlynydd anghenion arbennig (SENCO) yn rhannu gwybodaeth hefo staff allweddol i ddarparu cymorth i'r rhai sydd ag ADP* | ☐ | ☐ | ☐ |
| *Tystiolaeth:* | | | |
| *Camau nesaf:* | | | |
| **Weithredu dysgu proffesiynol addas ar gyfer holl ymarferwyr gan gynnwys staff cymorth**<br>*e.e. annog dysgu a datblygiad proffesiynol ar gyfer staff, cyfarfodydd cynllunio hefo'r GSA (blaenoriaethu hyfforddiant), rhannu arfer dda/defnyddio arbenigedd o fewn yr ysgol* | ☐ | ☐ | ☐ |
| *Tystiolaeth* | | | |
| *Camau nesaf:* | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Sicrhau bod strategaethau addysgu a dysgu priodol yn cael eu mabwysiadu**<br>*e.e. sicrhau fod strategaethau dysgu addas ar waith i helpu dysgwyr gymryd rhan lawn yng ngweithgareddau'r dosbarth. Defnyddio dulliau aml-synhwyrol, dyfeisiadau technoleg gwybodaeth* | ☐ | ☐ | ☐ |
| *Tystiolaeth:* | | | |
| *Camau nesaf:* | | | |
| **Eu gwneud yn eglur ac yn hygyrch i rieni/ gofalwyr ac asiantaethau allanol**<br>*e.e. sicrhau bod eich polisïau ADP ar gael i rieni ac asiantaethau allanol* | ☐ | ☐ | ☐ |
| *Tystiolaeth:* | | | |
| *Camau nesaf:* | | | |

## Lefel Dysgwr

Dylai **dysgwyr** gymryd mwy o ran yn eu dysgu trwy:

| | Blaenoriaeth | Datblygu | Wedi sefydlu |
|---|---|---|---|
| **Gyfranogi yn y broses o ddatblygu eu cynllun dysgu**<br>*e.e. annog ymarferwyr i ddefnyddio dulliau person ganolog i gynnwys yn disgyblion yn y broses.* | ☐ | ☐ | ☐ |
| *Tystiolaeth:* | | | |
| *Camau nesaf:* | | | |
| **Gael gafael ar gymorth yn Gymraeg a Saesneg**<br>*e.e. pecynnau ymyrraeth addas ar gael yn y ddwy iaith* | ☐ | ☐ | ☐ |
| *Tystiolaeth:* | | | |
| *Camau nesaf:* | | | |
| **Fabwysiadu dulliau sy'n cefnogi dysgu a chymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain**<br>*e.e. annog dysgwyr ag ADP i gymryd rheolaeth dros eu dysgu eu hunain pan fo hynny'n briodol. Defnyddio dulliau person canolig i gynnwys y dysgwr yn y broses.* | ☐ | ☐ | ☐ |
| *Tystiolaeth:* | | | |
| *Camau nesaf:* | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Derbyn cymorth i wella eu cydnerthedd/ eu hunan-barch er mwyn cyflawni eu potensial**<br>*e.e. sicrhau fod dysgwyr ag ADP yn cael cymorth i wella eu hunan-barch a'u hyder. Mae annog ymgysylltiad â dysgu a chymryd cyfrifoldeb amdano yn helpu i hybu hyder.* | ☐ | ☐ | ☐ |
| *Tystiolaeth:* | | | |
| *Camau nesaf:* | | | |

## Lefel Ymarferwyr

Dylai **ymarferwyr** nodi, cefnogi a gweithredu ymyraethau pwrpasol ar gyfer dysgwyr sydd mewn perygl o gael eu gadael ar ôl gan eu cyfoedion trwy:

| | Blaenoriaeth | Datblygu | Wedi sefydlu |
|---|---|---|---|
| **Ganolbwyntio ar nodi dysgwyr yn gynnar drwy ddefnyddio offer sgrinio priodol**<br>*e.e. dealltwriaeth o offer sgrinio priodol a gallu dadansoddi unrhyw sgrinio a ddefnyddiwyd* | ☐ | ☐ | ☐ |
| *Tystiolaeth:* | | | |
| *Camau nesaf:* | | | |
| **Sicrhau bod gwahaniaethiad, adnoddau ac offer priodol yn cael eu defnyddio**<br>*e.e. sicrhau gwahaniaethiad addas ym mhob gwers er mwyn bodloni pob dysgwr. Defnydd er enghraifft o o ddulliau aml-synhwyrol, mynediad at dechnegau cynorthwyol.* | ☐ | ☐ | ☐ |
| *Tystiolaeth:* | | | |
| *Camau nesaf:* | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Ddarparu dulliau pedagogaidd sydd o fudd i bob dysgwr**<br>*e.e mabwysiadu dulliau pedagogaidd wrth addysgu pob dysgwr ond yn enwedig y rhai sydd efallai ag ADP. Mae defnyddio offer yn canolbwyntio ar yr unigolyn yn rhoi llais i ddysgwyr ac yn helpu ymarferwyr i ddeall pa ddulliau addysgol fyddai fwyaf effeithlon.* | ☐ | ☐ | ☐ |
| *Tystiolaeth:* | | | |
| *Camau nesaf:* | | | |
| **Nodi cymorth pwrpasol fel bo'r angen**<br>*e.e. technegau asesu drwy addysgu er mwyn monitro cynnydd dros amser, nodi deilliannau eglur ar gyfer pob ymyrraeth.* | ☐ | ☐ | ☐ |
| *Tystiolaeth:* | | | |
| *Camau nesaf:* | | | |
| **Nodi a defnyddio offer asesu effeithiol**<br>*e.e. yn dilyn sgrinio anghenion y dysgwr, dylai ymarferwyr ddeall sut i adnabod offer asesu effeithiol (pan yn briodol i wneud hynny) a'i ddefnyddio i lywio ymyraethau pwrpasol i'r dysgwr.* | ☐ | ☐ | ☐ |
| *Tystiolaeth* | | | |
| *Camau nesaf:* | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Nodi a defnyddio ymyraethau pwrpasol addas**<br>*e.e. yn dilyn dadansoddi gwybodaeth a gesglir trwy asesiad, dylai ymarferwyr allu nodi a rhoi ar waith ymyraethau priodol i helpu'r dysgwr gael mynediad i'r cwricwlwm - map darpariaeth, ymyraethau grŵp, ymyrraeth unigol* | ☐ | ☐ | ☐ |
| *Tystiolaeth* | | | |
| *Camau nesaf:* | | | |
| **Fonitro effaith ymyraethau yn erbyn cynnydd dysgwyr**<br>*e.e. monitro cynnydd dysgwyr yn barhaus er mwyn sicrhau bod ymyraethau sydd ar waith dal yn addas - adolygu CDU/deilliannau/targedau yn rheolaidd* | ☐ | ☐ | ☐ |
| *Tystiolaeth* | | | |
| *Camau nesaf:* | | | |
| **Cyfeirio dysgwyr at arbenigwyr allanol fel y bo'n briodol**<br>*e.e. dylai ysgolion fod â'r gallu i weithredu ymyraethau sydd â'r nod o gefnogi mwyafrif o ddysgwyr sydd yn cael trafferth ag agweddau penodol ar eu dysgu. Fodd bynnag, weithiau efallai na fydd gan yr ysgol yr arbenigedd yn fewnol ac felly gall ddefnyddio cyfarfodydd cynllunio y GSA, fforymau addas ac asiantaethau allanol i gael cyngor pellach* | ☐ | ☐ | ☐ |
| *Tystiolaeth* | | | |
| *Camau nesaf:* | | | |

| BLAENORIAETHAU EICH YSGOL DYDDIAD: | Click or tap to enter a date. |
|---|---|
| **Lefel Ysgol** | **Blaenoriaeth?** |
| Egluro sut y bydd dysgwyr ag ADP yn cael eu nodi, eu cynorthwyo a'u monitro | ☐ |
| Weithredu dysgu proffesiynol addas ar gyfer holl ymarferwyr gan gynnwys staff cymorth | ☐ |
| Sicrhau bod strategaethau addysgu a dysgu priodol yn cael eu mabwysiadu | ☐ |
| Eu gwneud yn eglur ac yn hygyrch i rieni / gofalwyr ac asiantaethau allanol | ☐ |
| **Lefel Disgybl** | **Blaenoriaeth?** |
| Cyfranogi yn y broses o ddatblygu eu cynllun dysgu | ☐ |
| Cael gafael ar gymorth yn Gymraeg a Saesneg | ☐ |
| Fabwysiadu dulliau sy'n cefnogi dysgu a chymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain | ☐ |
| Dderbyn cymorth i wella eu cydnerthedd/eu hunan-barch er mwyn cyflawni eu potensial | ☐ |
| **Lefel Ymarferwyr** | **Blaenoriaeth?** |
| Canolbwyntio ar nodi dysgwyr yn gynnar drwy ddefnyddio offer sgrinio penodol | ☐ |
| Sicrhau bod gwahaniaethiad, adnoddau ac offer priodol yn cael eu defnyddio | ☐ |
| Darparu dulliau pedagogaidd sydd o fud di bob dysgwr | ☐ |
| Nodi cymorth pwrpasol fel bo'r angen | ☐ |
| Nodi a defnyddio offer asesu effeithiol | ☐ |
| Nodi a defnyddio ymyraethau pwrpasol addas | ☐ |
| Fonitro effaith ymyraethau yn erbyn cynnydd dysgwr | ☐ |
| Atgyfeirio dysgwyr at arbenigwyr allanol fel bo'n briodol | ☐ |

# Cynllun Gweithredu

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Ysgol:** | | | | **Dyddiad:** Click or tap to enter a date. |
| **Beth ydym ni eisiau gweithio tuag ato?** | | **Beth ydym yn mynd i'w wneud? (gweithred)** | **Pwy fydd yn gyfrifol? (enw)** | **Erbyn pryd? (dyddiad)** |
| **YSGOL** | | | | |
| **DISGYBL** | | | | |
| **YMARFERWYR** | | | | |

MacKay, N. (2006). *Removing dyslexia as a barrier to achievement: The dyslexia friendly schools toolkit.* Wakefield, SEN Books.

The British Psychological Society (1999*). Dyslexia, Literacy and the Phonological Assessment: Report of a Working Party of the Division of Educational and Child Psychology of the British Psychology Society.* Leicester: BPS.

Reid, G. (2005). *Learning styles and inclusion.* London: Sage publications.

Rose, J (2009). *The Rose Report.* Department of Education.

Fframwaith ar gyfer Anawsterau Dysgu Penodol (2015). Llywodraeth Cymru. www.dysgu.llyw.cymru/resources/collections/spld-framework/?lang=cy

This page is intentionally left blank

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN**<br>**Templed Adroddiad Sgriwtini** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| **Dyddiad:** | 13eg Tachwedd 2018 |
| **Pwnc:** | Strwythur Llywodraethiant a Threfniadau Cyflawni Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Cyflwyno strwythur cyflawni llywodraethiant a threfniadau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cyng. Gwilym O Jones |
| **Aelod(au) Portffolio:** | Cyng. Llinos Medi |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Dim yn berthnasol |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br><br><br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Nonn Hughes. Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn<br>01286 679906<br>NonnGwenllianHughes@gwynedd.llyw.cymru |
| **Aelodau lleol:** | Ddim yn berthnasol i unrhyw Ward benodol. |

| **1 – Argymhelliad/ion** |
|---|
| Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini nodi:<br>1. Strwythur llywodraethu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn.<br>2. Trefniadau cyflawni'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar bwyntiau penodol. |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall** |
|---|
| Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi ymrwymo i'r egwyddorion o fewn Deddf llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015). Mae'r Cyngor yn daprau amrywiaeth o wasanaethau fydd yn cyflawni eu hamcanion llesiant unigol, yn ogystal â chyfrannu at a chefnogi amcanion llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. |

| **3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini** |
|---|
| **Er mwyn cymhorthi Aelodau wrth graffu'r pwnc:-**<br><br>**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau<br><br>**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd.<br><br>**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau<br><br>**3.4** Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd<br><br>**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:<br>• hirdymor |

- atal
- integreiddio
- cydweithio

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

1. Sut mae’r Bwrdd yn rheoli ei Flaen Rhaglen Gwaith?
2. A fedrwch amlinellu sut mae’r Bwrdd yn gwneud penderfyniadau fel partneriaeth strategol?
3. Sut mae’r Bwrdd yn rheoli perfformiadau blaenoriaethau'r is-grwpiau cyflawni?
4. A oes yna unrhyw rwystrau neu risgiau penodol wrth gyflawni ei raglen waith yn wyneb yr hinsawdd ariannol. A oes gan yr Aelod sy’n cynrychioli’r Cyngor unrhyw sylwadau ar gyflawni rhaglen waith y Bwrdd?

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

**1. Cyflwyniad a chyd-destun**

Bwriad Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (2015) yw gwella llesiant economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae’r Ddeddf yn amlygu saith nod llesiant a pum ffordd o weithio er mwyn rhoi pwrpas cyffredin i gyrff cyhoeddus.

Sefydlwyd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn ym 2016, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015. Y penderfyniad a wnaethpwyd gan Bwyllgor Gwaith Ynys Môn bryd hynny oedd sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) i Ynys Môn fyddai’n *cydweithio* efo Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd.

Cyhoeddwyd Asesiad o Lesiant y BGC ar gyfer ardaloedd llesiant Ynys Môn ym mis Mai 2017 ac yna yn dilyn cyfres o sesiynau ymgysylltu ac ymgynghori cyhoeddwyd y Cynllun Llesiant ym 2018. Ceir gadarnhad yn y Cynllun Llesiant o’r ddau amcan a chwe maes blaenoriaeth ble gytunwyd gall y Bwrdd gydweithio i sicrhau’r canlyniadau gorau i drigolion Gwynedd ac Ynys Môn. Cytunwyd felly ar feysydd blaenoriaeth sy’n gyffredin yn y ddwy Sir a bydd y BGC yn ymateb i’r materion yma ar y cyd ar draws y ddwy Sir.

Ceir isod grynodeb o amcanion a blaenoriaethau’r Cynllun Llesiant.

**Amcanion Llesiant**

1. Cymunedau sy’n ffynnu ac yn llewyrchus i’r hir dymor
2. Trigolion sy’n iach ac yn annibynnol gyda safon bywyd da


Cytunodd y BGC i chwe maes blaenoriaeth i wireddu’r amcanion uchod. Sefydlwyd pum is-grŵp i gyfarch y meysydd blaenoriaeth ac mae aelodau o’r BGC wedi eu henwebu yn arweinyddion yr is-grwpiau fel a ganlyn:

| Y maes blaenoriaeth / Is-grwpiau | Arweinydd yr is-grŵp |
|---|---|
| Is grŵp yr Iaith Gymraeg | **Yr Athro Jerry Hunter, Prifysgol Bangor.** |
| Is-grŵp Cartrefi ar gyfer pobl leol | **Ffrancon Williams, Prif Weithredwr Cartrefi Cymunedol Gwynedd** |
| Is-grŵp Effaith Tlodi ar lesiant ein cymunedau | **Bethan Russell Williams, Prif Weithredwr Mantell Gwynedd** |
| Is-grŵp Effaith newid hinsawdd ar lesiant ein cymunedau | **Sian Williams, Pennaeth Gweithrediadau'r Gogledd Orllewin, Cyfoeth Naturiol Cymru** |

Mewn perthynas â'r ddau faes blaenoriaeth 'Iechyd a Gofal oedolion' a 'Lles a llwyddiant plant a phobl ifanc' cytunwyd i sefydlu un is-grŵp i gyfarch y ddwy flaenoriaeth sef Grŵp integredig Iechyd a Gofal Integredig y Gorllewin. **Arweinydd yr is-grŵp yw Ffion Johnstone, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**.

| | |
|---|---|
| Is-grŵp Iechyd a Gofal Integredig | **Ffion Johnstone, Cyfarwyddwr Ardal (Gorllewin), Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr** |

Ceir isod amlinelliad o strwythur llywodraethu'r is-grwpiau.




## 2. Llywodraethiant

### 2.1 Pwrpas y Bwrdd

Pwrpas y Bwrdd yw cydweithio ar draws ffiniau sefydliadol i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Gwynedd ac Ynys Môn.

Mae gan y Bwrdd bedair prif dasg:

- Paratoi a chyhoeddi asesiad o gyflwr llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Ynys Môn a Gwynedd;
- Paratoi a chyhoeddi Cynllun Llesiant Lleol ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd gan sefydlu amcanion lleol a'r camau y bwriedir eu cymryd i'w cyflawni;
- Cymryd pob cam rhesymol i gwrdd â'r amcanion lleol a sefydlwyd ganddynt;
- Paratoi a chyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n sefydlu cynnydd y Bwrdd wrth iddo geisio cyflawni'r amcanion lleol.

### 2.2 Aelodaeth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

Mae gan y Bwrdd 4 aelod statudol sef:

- **Awdurdodau Lleol Gwynedd ac Ynys Môn** (Arweinydd a Phrif Weithredwyr)
- **Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr** (Cadeirydd ac/neu Brif Weithredwr)
- **Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru** (Cadeirydd ac/neu Brif Swyddog)
- **Cyfoeth Naturiol Cymru** (Prif Weithredwr)

Yn ogystal mae'r gwahoddedigion statudol canlynol yn derbyn gwahoddiad i gyfranogi yng ngweithgaredd y bwrdd:

- Gweinidogion Cymru
- Cynrychiolydd Heddlu Gogledd Cymru
- Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
- Cynrychiolydd y Gwasanaeth Prawf
- Y Trydydd Sector

Mae'r Bwrdd hefyd wedi gwahodd partneriaid allweddol yn yr ardal sy'n gweithredu swyddogaeth o natur gyhoeddus ac sydd â diddordeb materol yn llesiant yr ardal; darparu gwasanaethau cyhoeddus pwysig ac sydd yn gysylltiedig â pharatoi, gweithredu a darparu gwaith y bwrdd.

Mae gan y cynrychiolwyr sy'n aelodau o'r Bwrdd yr awdurdod i wneud penderfyniadau ar ran eu sefydliad. Ceir uchod gyfeiriad at drefniadau cyflawni'r BGC ac mae arweinyddion wedi eu pennu. Disgwylir bod arweinyddion yr is-grwpiau yn gyfrifol am sicrhau bod cynnydd wedi ei wneud yn eu meysydd gwaith, ac mae'n ddisgwyliedig eu bod yn darparu adroddiadau cynnydd yn chwarterol i gyd-fyn ag amserlen cyfarfodydd y Bwrdd. Y Bwrdd sy'n gyfrifol am gymeradwyo cynlluniau gweithredu'r is-grwpiau.

### 3. Cyflawni

Bydd y rhaglenni gwaith a gyflwynwyd gan yr is-grwpiau (uchod) yn adnabod camau gweithredu sy'n cyfarch y tymor byr, canolig a hir ar gyfer y chwe maes blaenoriaeth. Bydd y camau gweithredu yn ychwanegu gwerth at gynlluniau presennol partneriaid y Bwrdd. Os bydd yr is-grwpiau yn gwneud cais i'r BGC am adnoddau, bydd gwerthusiad ariannol o'r opsiynau a thystiolaethu gwerth am arian yn cael eu cyflwyno.

Mae'r pum is-grŵp a nodwyd uchod yn atebol i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus mewn perthynas â chyflawni unrhyw waith a gomisiynir. Y grwpiau fydd hefyd yn argymell y cyfeiriad i'r dyfodol yn y meysydd gwaith penodol. Disgwylir bod arweinyddion yr is-grwpiau yn adrodd yn ôl ar gynnydd yn chwarterol i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn. Bydd y cyfnod o gyflawni'r amcanion yn gyfle i bartneriaid y BGC ddangos eu parodrwydd a'u hymroddiad i weithio'n gydweithredol ac arloesol ar gynlluniau cyraeddadwy.

Bydd risgiau sy'n gysylltiedig â gwaith cyflawni'r Bwrdd Gwasanaethau yn cael eu hadnabod a'u monitro ar ffurf cofrestr risg. Bydd y gofrestr yn ddogfen weithredol fydd yn cael ei rheoli a'i ddiweddaru gan dîm cefnogol y BGC.

Mae'r BGC yn gweithredu yn unol â saith egwyddor, sef y pum egwyddor datblygu gynaliadwy cenedlaethol uchod, ynghyd â dau sydd wedi eu hychwanegu gan y Bwrdd sef 'Yr Iaith Gymraeg' a 'Chydraddoldeb'. Golyga hyn weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau y bodlonir anghenion heddiw heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion eu hunain.

Er mwyn ymateb i'r amserlen o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol bydd y BGC yn cyhoeddi adroddiad blynyddol erbyn mis Awst 2018. Bydd y BGC yn cyflwyno'r adroddiad blynyddol i Bwyllgor Sgriwtini Ynys Môn cyn hynny er sylwadaeth.

**4. Trefniadau Craffu**

Bydd gwaith y Bwrdd yn cael ei wirio'n gyson gan Bwyllgorau Craffu / sgriwtini Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn. Bydd y BGC yn paratoi adroddiad blynyddol i ddangos cynnydd wrth iddo geisio cyflawni'r amcanion llesiant. Anfonir copi o bob adroddiad blynyddol i Weinidogion Cymru, y Comisiynydd, Archwilydd Cyffredinol Cymru a phwyllgorau craffu / sgriwtini y cynghorau.

Mae'r Ddeddf Llesiant a'r canllawiau cenedlaethol cysylltiedig[1] yn nodi 3 rôl ar gyfer pwyllgorau sgriwtini Awdurdodau Lleol wrth ddarparu atebolrwydd democrataidd i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus:

- Adolygu trefniadau llywodraethu'r BGC
- Ymgynghorai statudol ar yr Asesiad Llesiant a'r Cynllun Llesiant
- Monitro cynnydd ymdrechion y BGC wrth weithredu'r Cynllun Llesiant

Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn destun craffu gan Bwyllgor craffu / sgriwtini dynodedig awdurdodau lleol Gwynedd ac Ynys Môn yn bresennol. Cytunwyd ar sefydliad Y BGC bydd panel craffu ar y cyd rhwng y 2 sir yn cael ei ddatblygu i wneud y gwaith yma ar draws Gwynedd ac Ynys Môn. Bydd cyfarfod nesaf y BGC ar 10fed Rhagfyr 2018 yn rhoddi sylw i'r cerrig milltir a'r camau gweithredu allweddol mewn perthynas â sefydlu panel ar y cyd.

**5. Ymgysylltu a chynnwys**

Bydd y Bwrdd yn parhau i ymgymryd â pherthynas pwrpasol gyda'r bobl a'r cymunedau yn yr ardal, gan gynnwys plant a phobl ifanc, siaradwyr Cymraeg a'r rhai sydd â nodweddion a warchodir ym mhob agwedd o'i waith.

[1] Canllawiau ar gyfer Pwyllgorau Craffu Awdurdodau Lleol ar graffu ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

Bydd y Bwrdd yn ymrwymo i'r isod pan fyddent yn ymgymryd â'r gwaith ymgynghori ac ymgysylltu:

- Agor cyfarfodydd i'r cyhoedd ar adegau priodol er mwyn iddynt allu gweld a gofyn cwestiynau ynglŷn ag unrhyw eitem sylweddol ar y rhaglen.
- Gwahodd pobl â diddordeb i roi cyflwyniadau i'r Bwrdd ar unrhyw eitemau sy'n derbyn sylw. Fodd bynnag, bydd y Bwrdd yn ofalus ac yn sicrhau priodoldeb ei brosesau a'u bod yn ddiduedd a bydd y Bwrdd yn ymwybodol o'r risgiau a all godi pe canfyddir bod grŵp penodol yn cael mwy o fynediad at drafodaethau'r bwrdd neu fwy o ddylanwad arnynt.
- Bydd y Bwrdd yn cymryd camau ychwanegol y tu allan i'r cyfarfodydd er mwyn sicrhau bod llais y cyhoedd yn cael ei glywed ac yn cynorthwyo i ffurfio'r asesiad llesiant a'r cynllun llesiant. Disgwylir y bydd hwn yn cynnwys ymarferion a chyfleodd ymgynghori er mwyn i bobl godi a thrafod syniadau drwy drefniadau ymgysylltu ar-lein neu ddulliau eraill.
- Bydd y Bwrdd yn ystyriol bod y BGC yn destun craffu drwy Bwyllgor Craffu'r Cyngor (Cynghorau) ac mae'r broses hon yn darparu dull arall i'r cyhoedd ymgysylltu.

## 6. Adnoddau

Mae rheolaeth a chefnogaeth weinyddol ar gyfer y Bwrdd yn cael ei ddarparu gan Gyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd. Mae tîm cefnogi'r Bwrdd wedi ei sefydlu ac yn llawn ymgymryd a'u rôl o gefnogi'r gwaith y Bwrdd a'r is-grwpiau cysylltiedig.

Fel y cyfeirir uchod cyfrifoldeb pob aelod statudol yn gyfartal fydd adnoddau ar gyfer cyflawni gwaith yr is-grwpiau. Bydd y cyfraniadau yn cael eu cytuno a'i hadolygu gan y Bwrdd yn ôl y gofyn.

| **6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb [cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
| --- |
| Bydd yr is-grwpiau cyflawni yn paratoi asesiadau effaith cydraddoldeb ac ieithyddol, ble mae hynny'n briodol, i gyd-fynd a'u cynlluniau gweithredu. Bydd yr asesiadau effaith yn ddogfennau byw fydd yn newid a datblygu ochr yn ochr â'r gwaith cyflawni. |

| **7 – Oblygiadau Ariannol** |
| --- |
| - |

| **8 – Atodiadau** |
| --- |
| - |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
| --- |
| 1. Cynllun Llesiant Gwynedd ac Ynys Môn |

This page is intentionally left blank

SGRIWTINI

# PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO: 2017/2018 →2018/2019

Cadeirydd: Cynghorydd Gwilym O Jones
Is-Gadeirydd: Cynghorydd Robert Llewelyn Jones

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi blaen raglen waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio am y cyfnod Mai 2017 ymlaen, fel rhaglen dreigl a theclyn cynllunio pwrpasol. Adroddir ar y blaen raglen waith i bob cyfarfod arferol o'r Pwyllgor Sgriwtini i'r pwrpas o adolygu ei chynnwys, ystyried eitemau newydd neu i ohirio / dynnu eitemau yn ôl. Ei phwrpas hefyd ydy sicrhau aliniad gyda blaen raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth.

Cyswllt: Geraint Wyn Roberts (Swyddog Sgriwtini)
Ffôn: 01248 752039
E-bost: gwrce@ynysmon.gov.uk

| Dyddiad Cyfarfod | Eitem | Pwrpas |
|---|---|---|
| | **Mehefin, 2018** | |
| **19 Mehefin, 2018**<br><br>Ystafell Pwyllgor 1/2yh | Aelodaeth Panel Sgriwtini Cyllid a Bwrdd Trawsnewid Addysg | - |
| | Adroddiad Blynyddol Cymunedau yn Gyntaf | Monitro perfformiad |
| | Cynlluniau Adfywio Cymunedol – Amlwch a Biwmaris | Monitro Perfformiad |
| | Sgriwtini o Bartneriaethau | Monitro perfformiad<br>(Pendnderfyniad Pwyllgor Sgriwtini Corfforathol 2/10/17) |
| | Panel Sgriwtini: Adolygu Cynnydd Ysgolion (Adroddiad Cynnydd) | Monitro perfformiad |
| | Blaen Rhaglen Gwaith | Adolygu |
| | **Gorffennaf, 2018** | |
| **9 Gorffennaf 2018**<br><br>Ystafell Pwyllgor 1/2yh | Medrwn Môn | Monitro Perfformiad |
| | Strategaeth Gwrthdlodi | Datblygu Polisi |
| | **Medi, 2018** | |
| **24 Medi 2018**<br>Ystafell Pwyllgor 1/2yh | Adroddiad Blynyddol -Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ( Iechyd a Gofal Cymdeithasol) | Monitro perfformiad |
| | Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol | Monitro perfformiad |
| | Blaen Rhaglen Gwaith | |
| | **Hydref, 2018** | |
| **15 Hydref 2018**<br><br>Ystafell Pwyllgor 1/2yh | Gwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru | Ymgynghoriad |
| | Cynllunio Argyfwng Rhanbarthol Gogledd Cymru | Monitro Perfformiad |
| | Blaen Rhaglen Gwaith | |
| | **Tachwedd, 2018** | |
| **13 Tachwedd 2018** | Enwebu Aelod i'r Panel Sgriwtini Cyllid | - |
| | Strategaeth Rhanbarthol Digartrefedd | Sgriwtini cyn penderfyniad |

| Dyddiad Cyfarfod | Eitem | Pwrpas |
|---|---|---|
| Ystafell Pwyllgor 1/2yh | Partneriaeth Angenion Addysgol Ychwanegol –Gwynedd a Môn | Monitro perfformiad |
| | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus –sgriwtini cychwynol o'r drefn lwodraethol a'r strwythur gweithredu y BGC | Monitro perfformiad |
| | Blaen Rhaglen Gwaith | Adolygu |
| **Rhagfyr, 2018** | | |
| **12 Rhagfyr 2018 (i'w gadarnhau)**<br><br>Ystafell Pwyllgor 1/2yh | Adroddiad – Perfformiad Ysgolion Môn | Monitro perfformiad |
| | GwE- Adroddiad Blynyddol 2016/2017 | Monitro perfformiad |
| | Panel Sgriwtini: Adolygu Cynnydd Ysgolion (Adroddiad Cynnydd) | Monitro perfformiad |
| | Blaen Rhaglen Gwaith | Adolygu |
| **Chwefror , 2019** | | |
| **5 Chwefror 2019 (eitemau ychwanegol i'w gadarnhau)**<br><br>Ystafell Pwyllgor 1/2yh | Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru | Cais Pwyllgor(24/9/18) |
| | Blaen Rhaglen Gwaith | Adolygu |
| **Mawrth, 2019** | | |
| **12 Mawrth 2019**<br><br>Ystafell Pwyllgor 1/2yh | Moderneiddio'r Gwasanaeth Hamdden anstatudol (cyfnod 3 blynedd) | Craffu cyn penderfyniad |
| | Bwrdd Gwasanethau Cyhoeddus –sgriwtini o cynnydd ar weithredu y Cynllun Llesiant (i'w gadarnhau) | Monitro perfformiad |
| | Medrwn Môn | Monitro perfformiad |
| | Blaen Rhaglen Gwaith | Adolygu |
| **Ebrill, 2019** | | |
| **9 Ebrill 2019**<br><br>Ystafell Pwyllgor 1/2pm | Partneriaeth Angenion Addysgol Ychwanegol -Gwynedd a Môn | Monitro perfformiad |
| | Panel Sgriwtini: Adolygu Cynnydd Ysgolion (Adroddiad Cynnydd) | Monitro perfformiad |
| | Blaen Rhaglen Gwaith | Adolygu |
| **EITEMAU I'W RHAGLENNU** | | |
| **Mehefin / Gorffennaf , 2019** | Sgriwtini o Adroddiad Blynyddol Gyntaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus | |

| Dyddiad Cyfarfod | Eitem | Pwrpas |
|---|---|---|
| **i’w gadarnhau** | Fargen Twf Gogledd Cymru | |
| **i’w gadarnhau** | Heddlu Gogledd Cymru-Ardal Ynys Môn | |
| **i’w gadarnhau** | Gwahoddiad i Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru | |